Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 28 HYDREF 2013 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | MONDAY, 28 OCTOBER, 2013 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL / INDEPENDENT**

Jeff Evans, Jim Evans, Victor Hughes, G.O.Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)

**LLAFUR/LABOUR**

Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

Peter Rogers

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH VOTING RIGHTS WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

## R H A G L E N

1 **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **<u>COFNODION CYFARFOD 29 GORFFENNAF, 2013</u>** (Tudalennau 1 - 8)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corffoeaethol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf, 2013 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

3 **<u>DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD AC ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR SGRIWTINI</u>** (Tudalennau 9 - 16)

Derbyn diweddariad gan y Cadeirydd a lle bo'n briodol, derbyn adborth gan gynrychiolwyr sgriwtini ar y grwpiau a'r fforymau canlynol -

- Panel Deilliant Sgriwtini – Costau Gwresogi mewn Gofal Preswyl – *Rheolwr Sgriwtini i gyflwyno diweddariad ar lafar*

- Panel Rhiantu Corfforaethol *(Cofnodion cyfarfod 22 Gorffennaf ynghlwm)*
- Grwp Tasg yr Iaith Gymraeg - *Cynghorydd R.Meirion Jones*
- Gweithgor Adolygu Polisi Gosod Tai - *Cynghorwyr Peter Rogers a R.Jones*

- Bwrdd Rhaglen Ynys Fenter – *Cynghorwyr Derlwyn Hughes a Carwyn Jones*
- Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth - *Cynghorwyr Peter Rogers ac Alun Mummery*

- Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth - *Cynghorydd Peter Rogers*
- Bwrdd Prosiect Trawsnewid Addysg

4 **<u>LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2012/13 AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN</u>** (Tudalennau 17 - 40)

Cyflwyno Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon am 2012/13 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn *(Eitem a ohiriwyd o gyfarfod y Pwyllgor ar 29 Gorffennaf)*

5 **<u>MATERION CYLLIDOL - ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 1 2013/14</u>** (Tudalennau 41 - 48)

Cyflwyno adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 1 2013/14 *(Adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 9ed Medi, 2013)*

6 **<u>MATERION CYLLIDOL - ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW CHWARTER 1 2013/14</u>** (Tudalennau 49 - 54)

Cyflwyno adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 1 2013/14 *(Adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 9ed Medi, 2013)*

7 **<u>FFIOEDD GWASANAETHAU I DENANTIAID A LESDDEILIAID</u>** (Tudalennau 55 - 58)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai).

**8** **MATERION PERFFORMIAD - CERDYN SGORFWRDD CHWARTER 2 2013/14 A MATERION PERTHYNOL** (Tudalennau 59 - 72)

- Cyflwyno'r Cerdyn Sgorfwrdd Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2013/14.
- Cyflwyno gwybodaeth eglurhaol am berfformiad y Gwasanaeth Oedolion am Chwarter 1 ynghyd â cherdyn sgorfwrdd y gwasanaeth.

**9** **MATERION PERFFORMIAD - CYNLLUN GWELLA BLYNYDDOL 2013/14** (Tudalennau 73 - 96)

Cyflwyno'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gyfer 2013/14 er mwyn i'r Pwyllgor ystyried pa argymhellion i'w monitro am weithrediadau ar draws y gwasanaethau perthnasol.

**10** **GOFALWYR ANFFURFIOL OEDOLION - BWRIADAU COMISIYNU LLEOL A BLAENORIAETHAU** (Tudalennau 97 - 112)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**11** **CYNLLUN GWEITHREDU ÔL-AROLWG Y GWASANAETH ADDYSG** (Tudalennau 113 - 148)

Cyflwyno diweddariad ar gynnydd ar Gynllun Gweithredu Ôl-Arolwg y Gwasanaeth Addysg.

**12** **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 149 - 158)

Cyflwyno Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor er mwyn i Aelodau ei chymeradwyo, adolyu neu ei diwygio. *(Yr adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod 29 Gorffennaf ynghlwm)*

**13** **MATERION ER GWYBODAETH - SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 159 - 192)

- Cyflwyno adroddiad ynghylch Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Ebrill, 2011 i Fawrth, 2014 *(Adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 4ydd Tachwedd)*
- Adrodd y bydd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cael ei gynnal am 1 o'r gloch y prynhawn, dydd Gwener, 15 Tachwedd, 2013 i ystyried mater capasiti ac adnoddau ar gyfer newid yng nghyd- destun cyflawni'r Rhaglen Drawsnewid.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Raymond Jones, P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)<br>Rheolwr Polisi a Strategaeth (CW) (ar gyfer eitem 9)<br>Cyfrifydd Grŵp (AV)<br>Rheolwr Yswiriant a Risg (JJ) (ar gyfer eitem 6)<br>Dadansoddydd Perfformiad (AW)<br>Rheolwr Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd H. Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid), Cynghorydd Kenneth Hughes (Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Mr Keith Roberts (Aelod Cyfetholedig)<br>Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen (GM) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 30 MAI 2013**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 30 Mai 2013.

**3 BLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini yn cynnwys rhaglen waith ddrafft i'r Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2013/14.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at gefndir a phwrpas y rhaglen waith a hefyd at ddyletswyddau a chylch gorchwyl Sgriwtini Corfforaethol. Pwysleisiodd bod y rhaglen waith yn ddogfen esblygol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Pwyllgor o ran unrhyw faterion sy'n achosi pryder ac / neu ddiddordeb fyddai'n codi ac mewn ymateb i gerrig milltir allweddol o fewn blwyddyn galendr y Cyngor h.y. ymgynghori ar y gyllideb drafft ac ar yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Unwaith y bydd y rhaglen waith wedi ei chytuno, bydd yn cael ei hadrodd yn ôl i bob cyfarfod o'r Pwyllgor i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried cynnwys eitemau newydd neu dynnu rhai yn ôl neu oedi gyda rhai eitemau a chynllunio ymlaen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu'r Aelodau yn ystyried y rhaglen waith a thrafodwyd y materion canlynol ar y cynnwys -

- Gofynnwyd am gael cynnwys yn y rhaglen waith eitem mewn perthynas ag effeithiau'r gostyngiad yn swm y budd-dal tai oedd ar gael i unigolion sydd ag ystafell wely sbâr h.y. rhai sy'n rhan o'r rhaglen diwygio lles a adwaenir yn fwy cyffredinol fel treth ystafell wely.
- Rhesymoli cartrefi preswyl i'r henoed. Eglurodd y Cadeirydd bod teimlad cryf yn ystod y sesiwn briffio cyn y Pwyllgor bod angen i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r elfen hon o waith y Cyngor a'r amserlenni cysylltiedig yn arbennig yng nghyd-destun gwelyau gwag ac a oes angen dyrannu'r rheini. Fodd bynnag, ni fyddai'n dymuno dyblygu na amharu ar waith sydd, yn ôl yr hyn a ddeellir, yn cael ei wneud fel rhan o'r Rhaglen Drawsnewid. Pwysleisiodd y Cadeirydd fodd bynnag y byddai'r Pwyllgor yn dymuno cael mewnbwn i'r mater hwn pan ystyrir bod hynny'n amserol.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned wrth y Pwyllgor y bydd y Bwrdd Rhaglen Pobl Hŷn yn adrodd ar raglen waith arfaethedig ac amserlen i'r Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth ym mis Medi pryd disgwylir y bydd y mandad a'r rhaglen waith yn cael eu cymeradwyo. Yng ngoleuni'r ffaith bod angen gwneud gwaith i adolygu'r ddarpariaeth gymunedol a rhagamcanu maint y buddsoddiad sydd ei angen a'r rhagolygon o gael cyllid, nid oedd yn rhagweld y byddai unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud yn y tymor byr. Mae gwaith yn parhau ar hyn o bryd ar gwblhau'r broses ar gyfer cyfathrebu gyda phreswylwyr.

  Roedd y Rheolwr Sgriwtini am atgoffa'r Pwyllgor bod y Cynghorydd Peter Rogers yn gwasanaethu ar y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth ac awgrymodd y dylid gofyn i'r Cynghorydd Rogers gael gair gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi a bod y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru'n ffurfiol ar y rhaglen i drawsnewid gwasanaethau gofal preswyl unwaith y byddai'r broses o ymgynghori gyda'r preswylwyr wedi ei chwblhau.

  **Penderfynwyd derbyn y rhaglen waith fel yr oedd i'w gweld yn Atodiad 1 ac i nodi ei chynnwys ond gan ychwanegu eitem ar effeithiau gweithredu'r rhan o'r rhaglen diwygio lles sy'n cael ei alw'n dreth ystafelloedd gwely.**

  **CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd i raglennu'r eitem ychwanegol sef y dreth "ystafell wely" i raglen waith y Pwyllgor.**
- **Y Cynghorydd Peter Rogers fel y cynrychiolydd sgriwtini ar y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth i friffio'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gynnydd gyda'r trafodaethau yng nghyfarfod mis Medi y Bwrdd ar y rhaglen i drawsnewid gwasanaethau gofal preswyl.**
- **Y Cyfarwyddwr Cymuned i roddi diweddariad yn ffurfiol i'r Pwyllgor hwn ar y rhaglen ar gyfer trawsffurfio gwasanaethau gofal preswyl unwaith y bydd y broses ymgynghori gyda phreswylwyr wedi ei chwblhau.**

**4 ENWEBIADAU PWYLLGOR 2013/14**

Cyflwynwyd i sylw'r Aelodau adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini yn rhestru'r grwpiau ac / neu'r Banelau yr oedd y Pwyllgor hwn yn cael ei wahodd i enwebu cynrychiolydd i wasanaethu arnynt. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried enwebu un aelod i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol; un aelod i wasanaethu ar y Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer; un aelod i wasanaethu ar y Bwrdd Prosiect Gweithio'n Gallach; un Aelod i wasanaethu ar y Grŵp Tasg Iaith (gyda manylion am hynny ar gael yn yr adroddiad dan eitem 9) a hyd at 4 aelod i wasanaethu ar y Gweithgor Polisi Gosod Tai. Rhoddwyd amlinelliad byr o gefndir pob panel a'i ddyletswyddau a rhoddwyd syniad am y cyfnod amser y byddai eu gwaith yn parhau lle roedd hynny'n berthnasol. Yn achos y Bwrdd Prosiect Gweithio'n Gallach, rhoddodd y Rheolwr Sgriwtini grynodeb llafar i'r Aelodau o bwrpas y grŵp hwnnw.

**Yn dilyn, trafodaeth penderfynwyd -**

- **Penodi'r Cynghorydd Ann Griffith i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol**
- **Penodi'r Cynghorydd Peter Rogers i wasanaethu ar y Bwrdd prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer**
- **Penodi'r Cynghorydd Victor Hughes i wasanaethu ar y Bwrdd Prosiect Gweithio'n Gallach**
- **Penodi'r Cynghorydd R.Meirion Jones i wasanaethu ar y Grŵp Tasg Iaith Gymraeg**
- **Gan na chafwyd enwebiadau yn y cyfarfod, awdurdodwyd y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i gymryd camau priodol i drefnu cynrychiolaeth ar y Gweithgor Polisi Gosod Tai.**

  **CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gysylltu gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i drefnu cynrychiolaeth ar y Gweithgor Polisi Gosod Tai**

## 5 CYNGOR POBL HŶN YNYS MÔN

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor ohebiaeth gan Gyngor Pobl Hŷn Ynys Môn yng nghyswllt costau gwresogi tai gwarchod y Cyngor. Roedd y llythyr gan Gadeirydd y Cyngor Pobl Hŷn yn cyfeirio at ymateb Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai'r Awdurdod i bryderon a fynegwyd gan y Cyngor ar y mater hwn ac yn gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried a oedd yn iawn iddo fynd ar ôl y mater hwn o ran monitro'r sefyllfa ac ymchwilio a ellir cael telerau gwell drwy waith negodi.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn credu y byddai natur ymchwiliol y gwaith uchod yn rhywbeth y gallai Panel Canlyniad Sgriwtini y Pwyllgor hwn ddelio ag ef a chynigiodd y dylid sefydlu panel i'r pwrpas. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor gyda'r cynnig. Yn y drafodaeth a ddilynodd ar y mater, ystyriodd yr Aelodau pa mor ymarferol fyddai ymestyn cylch gorchwyl y Panel Canlyniad i gynnwys grwpiau cymdeithasol allai ddioddef tlodi tanwydd e.e. pobl mewn tai cyngor a thai cymdeithasol a phobl hŷn yn gyffredinol, gyda'r mwyafrif ohonynt ar incwm sefydlog ac o'r herwydd yn fregus i unrhyw gynnydd o ran costau tanwydd.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini wrth yr Aelodau iddi gysylltu gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai a'i fod yntau wedi cadarnhau y byddai'n hapus i annerch grŵp o'r Pwyllgor hwn ar y testun. Awgrymodd y gallai gysylltu gyda'r Cadeirydd i sefydlu cylch gorchwyl ar gyfer y Panel gan gymryd i ystyriaeth awgrymiadau'r Aelodau ynglŷn â grwpiau targed posibl. Dywedodd y Swyddog hefyd mai'r amcan fyddai i ganlyniad y Panel gysylltu i mewn â gwaith y Gweithgor Gosod Tai ac oddi yno fwydo i mewn i'r gwaith sy'n ymwneud â diwygio lles yn gyffredinol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r ohebiaeth a anfonwyd gan Gyngor Pobl Hŷn Ynys Môn**
- **Sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini o'r Pwyllgor hwn i ymchwilio i faterion yn ymwneud â chostau gwresogi yn nhai gwarchod y Cyngor**
- **I enwebu'r canlynol i wasanaethu ar y Panel Canlyniad Sgriwtini:**

  **Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Raymond Jones a Llinos Huws gyda'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd i wasanaethu fel Cadeirydd y Panel.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gysylltu gyda'r Cadeirydd i gytuno ac i ddiffinio cylch gorchwyl i'r Panel Canlyniad Sgriwtini ac i wneud trefniadau ar gyfer cyfarfod cyntaf.**

## 6 MATERION ARIANNOL – TYBIAETHAU CYLLIDEBOL AC AMSERLEN CYLLIDEB 2014/15

- Cyflwynwyd i ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) mewn perthynas â'r Strategaeth Gyllideb Refeniw Tymor Canol (MTRBS) a thybiaethau'r Gyllideb am 2014-15 fel y cawsant eu cyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Gorffennaf. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y Strategaeth Gyllideb Tymor Canol am 2014/15 i 2016/17 yn ogystal â nodi'r egwyddorion fydd yn sylfaenol i Gyllideb 2014/15 a'r targed arbedion i'r Adrannau a'r strategaethau ar gyfer eu sicrhau.

Rhoddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) drosolwg byr i'r Aelodau o sut roedd pethau'n edrych gyda'r gyllideb. Dywedodd bod y strategaeth cyllideb refeniw a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 5 Mawrth yn nodi bwlch cyllido tebygol o £3.1m yn 2014/15 a £4.0m yn 2015/16. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd cyllid am 2014/15 yn newid yn sylweddol o ganlyniad i lai o gyllid o lywodraeth ganolog gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn awgrymu lleihad o 4% am 2014/15 ac o bosibl y tu draw i hynny i Lywodraeth Leol yng Nghymru. Ni fydd y gostyngiad gwirioneddol i Fôn yn cael ei gadarnhau hyd yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Roedd Tabl 2 yn yr adroddiad yn nodi'r MTRBS diweddaraf yn seiliedig ar y senario fwyaf tebygol o leihad 4% yn y gefnogaeth allanol. Bydd angen sicrhau'r arbedion drwy drawsnewid gwasanaethau, effeithlonrwydd ac arbedion. Amcangyfrifir y bydd yr arbedion sydd eu hangen £7.5m yn 2014/5 gyda'r cyfanswm ar draws y 3 blynedd i 2016/17 tua £21.6m.

Aeth y Swyddog ymlaen i gyfeirio'r Aelodau at y tybiaethau oedd wedi eu hadeiladu i mewn i ragamcanion MTRBS fel yr oeddynt i'w gweld yn adran 3.9 yr adroddiad. Eglurodd hefyd bod nifer o senarios arbedion wedi eu datblygu (Atodiad 3 yr adroddiad) oedd yn nodi'r arbedion y gellid eu sicrhau o gael gostyngiad canrannol mewn cyllidebau yn amrywio o 5.4% i 10.7%. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu symud ymlaen yn seiliedig ar ostyngiad cyllidebol 6.3%. Yn Adran 7 yr adroddiad, roedd amserlen ar gyfer y broses o osod y gyllideb gyda'r dyddiadau allweddol wedi eu hamlygu.

Pwysleisiodd y Deilydd Portffolio Cyllid yn ei sylwadau i'r Pwyllgor bod y sefyllfa yn eithaf difrifol gyda'r Cyngor yn wynebu lefel o doriadau nas gwelwyd o'r blaen a hynny'n golygu bod amheuaeth ynghylch a fedrir cynnig unrhyw fath o lefel o ddiogelwch i unrhyw wasanaeth. Mae'r Cyngor yn mynd i mewn i gyfnod hynod o heriol ac mae'r lefel o arbedion sydd eu hangen yn golygu na fydd gwneud toriadau tameidiog yn opsiwn a bod yn rhaid wynebu'r sefyllfa trwy drawsnewid gwasanaeth.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, roedd yr aelodau'n bryderus gyda goblygiadau'r toriadau oedd ar ddod ar forâl staff gan ddweud y byddai'n anodd i staff ddarparu gwasanaeth brwdfrydig pan fo yna ragolygon o resymoli. Cyfeiriwyd hefyd at ragdybiaeth y byddai cynnydd blwyddyn ar flwyddyn o 5% yn y Dreth Gyngor a phwysleisiwyd y byddai cynnydd ar y lefel honno i Drethdalwyr yr Ynys yn ei gwneud yn fwy hanfodol i ni ddarparu gwasanaethau o safon.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'i gynnwys**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

- Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar ganlyniad dros dro cyllideb refeniw 2012/13 fel oedd wedi ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 10 Mehefin. Roedd y diweddariad ar ganlyniad y Rhaglen Arbedion 2013 wedi ei gynnwys i'w ystyried gyda'r eitem hon).

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) wrth yr Aelodau bod ffigurau dros dro yn dangos tanwariant net o £1.1m, a hynny'n cynrychioli newid o £2.1m i gyd o gymharu â'r sefyllfa yn Chwarter 3. Gellir priodoli'r newid mewn sefyllfa i nifer o ffactorau, y pennaf ohonynt yw'r newid sylweddol yn sefyllfa'r Adran Addysg o orwariant tybiedig o £774k i danwariant o £90k. Y tu draw i hynny, fe gafwyd patrwm cyson o symudiad mwy cyfyngedig ar draws yr holl benawdau oedd, gyda'i gilydd, wedi bod yn gyfrifol am weddill y newid. Rhai ffactorau eraill oedd wedi dylanwadu ar y sefyllfa fu effaith y moratoriwm ar fathau arbennig o wariant ym misoedd olaf y flwyddyn, a hefyd y gwasanaethau yn dal yn ôl yn gyffredinol mewn ymateb i'r rhagolygon cyfredol i gyllid y Cyngor ac agwedd wyliadwrus gan staff cyllid a deilyddion cyllideb wrth ragamcanu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o ystyried yr angen i osgoi gorwariannau nas rhagwelwyd.

  Holodd y Cadeirydd a oedd rhai arbedion wedi eu sicrhau gan wasanaethau drwy

DRAFT

iddynt roi bloc ar wario ac a fyddai'r arian hwnnw oedd heb ei ddefnyddio yn gorfod cael ei wario yn nes ymlaen gyda hynny'n golygu nad oedd cyfran o'r arbedion a wnaed yn arbedion gwirioneddol.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) mewn ymateb y gallai gael gwybodaeth ynglŷn â pha gyfran o'r arbedion £1.1m a gafwyd drwy roi stop ar wariant.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'i gynnwys**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i roi dadansoddiad i'r Aelodau o'r tanwariant £1.1m dros dro ac yn benodol faint o'r swm hwnnw y gellir ei briodoli i'r moratoriwm ar rai mathau o wariant.**

- Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yng nghyswllt canlyniad y gyllideb cyfalaf 2012/13 fel oedd wedi ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 10 Mehefin, i sylw'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) at y gwariant ar eitemau mawr yn y gyllideb gyfalaf fel oedd i'w weld yn Adran 1.2 yr adroddiad ynghyd â phrosiectau mawr oedd wedi dechrau yn ystod y flwyddyn; y cynlluniau oedd wedi eu cwblhau yn y flwyddyn yn ogystal â phrosiectau a chynlluniau oedd ar droed. Roedd dadansoddiad o wariant cyfalaf i'w weld yn Adran 2 yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog bod y canlyniad dros dro ar sail gwariant yn £25.4 yn erbyn y cyfanswm oedd ar gael, sef £32.3m. Roedd yna nifer fechan o enghreifftiau o fynd dros y gyllideb yn ystod y flwyddyn a'r rheini wedi eu cyllido o gyllidebau refeniw gwasanaeth, a'r unig risgiau sylweddol fel yr adroddwyd arnynt yn ystod y flwyddyn oedd y gwaith arian ar Bier Biwmares a gyllidwyd gydag arian Cydgyfeiriant ac adleoli Ysgol y Bont. Bydd yr arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu yn llithro i 2013/14 i'w ddefnyddio fel oedd i'w weld yn Adran 5 yr adroddiad. Gall y rhan fwyaf o'r arian llithriad ar y gyllideb gyfalaf gyffredinol drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol bresennol. I gloi, dywedodd y Swyddog, wrth edrych ymlaen, bod dau gynllun sylweddol i'w nodi ar hyn o bryd, sef Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a'r rhaglen rhesymoli asedau.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, y canolbwynt oedd y stad mân-ddaliadau a'r defnydd o'r incwm o'r stadau yng nghyd-destun y rhaglen barhaol o wneud gwelliannau i'r portffolio mân-ddaliadau.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'i gynnwys**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

- Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar y sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â gweithredu'r Fframwaith Rheoli Risg a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i sylw'r Pwyllgor. Roedd datganiad sefyllfa mewn perthynas â hawliadau yswiriant hefyd gerbron.

Dywedodd y Swyddog Rheoli Risg ac Yswiriant wrth yr Aelodau bod y Grŵp Adolygu Perfformiad wedi adolygu'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar 2 Gorffennaf ac roedd argymhellion y Grŵp wedi eu hadolygu ynghyd â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac roedd y fersiwn ddiwygiedig o'r Gofrestr ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad A. Roedd yr adolygiad wedi nodi'r pedair risg fwyaf i'r Cyngor fel yr oeddynt i'w gweld yn Adran 3.2 yr adroddiad. Roedd cofnod o hawliadau yswiriant y Cyngor am y cyfnod o 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2003 i'w weld yn Atodiad B ac roedd yn adlewyrchu cynnydd 40% yn yr hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod 2012/13 a oedd i'w priodoli'n bennaf i hawliadau am ddifrod i gerbydau oherwydd cyflwr ffyrdd y Cyngor. Gwelwyd cynnydd 100% hefyd mewn hawliadau yn ymwneud â fflyd gerbydau'r Cyngor a hynny, fe ymddengys, am nifer o ffactorau.

Ystyriodd yr Aelodau y wybodaeth oedd wedi ei chyflwyno a cheisiwyd cael sicrwydd ynglŷn â'r lefel uchel o risgiau a nodwyd a holwyd a oedd swyddogion yn fodlon y gellir gostwng y risgiau hynny ac/neu eu lliniaru. Pwysleisiodd yr Aelodau hefyd fod cyfathrebu'n erfyn gwerthfawr o ran mynd i'r afael â risgiau a'u lleihau ynghyd â phwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth am risgiau'r Cyngor yn cael ei rhannu i staff drwy'r holl awdurdod.

Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant bod y camau gweithredu oedd i'w gweld ar y gofrestr yn gamau oedd yn cael eu cynnig i liniaru'r risgiau a phe cânt eu gweithredu, fe ddisgwylir iddynt leihau'r lefel o risg.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'i gynnwys**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**7 MATERION PERFFORMIAD – CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2013-14**

- Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn ymgorffori Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 1 blwyddyn ariannol 2013/14.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) wrth yr Aelodau bod y cerdyn sgorio wedi ei ddatblygu er mwyn nodi a rhoi gwybodaeth i'w ddefnyddwyr am gynnydd yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn glir weithrediad llwyddiannus gweithgaredd dydd i ddydd y Cyngor mewn 4 maes - Rheoli Pobl; Rheoli Arian; Rheoli Perfformiad a Gwasanaeth i'r Cwsmer. Dim ond un rhan o'r naratif am y perfformiad a ddangosir gan y DPA a rhaid cymryd ffactorau eraill sy'n dylanwadu i ystyriaeth megis y cyfnod amser a'r cyd-destun lleol.

Rhoddodd y Dadansoddydd Perfformiad eglurhad byr i'r Pwyllgor o'r broses o ddewis y DPA ar y cerdyn sgorio.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn croesawu'r cerdyn sgorio fel dull rhwydd o adrodd yn ôl ac fel model defnyddiol i fonitro perfformiad ac yn y drafodaeth ar y wybodaeth yn y cerdyn sgorio, nodwyd y pwyntiau canlynol –

- Gan gyfeirio at reolaeth ariannol er enghraifft, gofynnwyd beth fyddai pwynt sbarduno i statws CAG er mwyn i unrhyw ddangosydd newid o ambr i goch a nodwyd y byddai darparu'r math hwn o wybodaeth o gymorth i'r Aelodau wrth iddynt sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio.
- Yr angen i gael mwy o wybodaeth gyd-destunol mewn perthynas â'r DPA oedd yn goch fel bod yr Aelodau'n cael gwybod am unrhyw wybodaeth berthnasol y tu ôl i'r ystadegyn a thrwy hynny wneud y ffigwr DP yn fwy ystyrlon iddynt. Nodwyd hefyd nad yw bodloni targedau rhifyddol ond yn dweud ychydig iawn wrthym am ansawdd y gwasanaeth a roddir a'r profiadau y tu ôl i hynny.
- Cyfeiriwyd at y cynnydd mewn hawliadau atebolrwydd yn erbyn y Cyngor o ganlyniad i gyflwr gwael y ffyrdd a holwyd sut y gellir cysoni'r ffeithiau hynny gyda'r DP ar y cerdyn sgorio sydd â statws gwyrdd sy'n golygu bod y perfformiad o fewn targed.
- P'un a oedd angen i DPA yn ymwneud ag absenoldeb salwch wahaniaethu rhwng adrannau ac/neu wasanaethau unigol er mwyn gallu rhoi hwb i berfformiad yn y cyswllt hwn.

Ymatebodd y Swyddogion i'r materion a godwyd a nodwyd hefyd gyda chyfeiriad arbennig at yr anghysondeb ymddangosiadol rhwng y perfformiad mewn perthynas â chynnal a chadw ffyrdd a'r adroddiad blaenorol ynghylch cynnydd mewn hawliadau yn erbyn yr Awdurdod oherwydd cyflwr gwael y ffyrdd, bod y cerdyn sgorio'n adlewyrchu targed lleol yn hyn o beth ac nad oedd y perfformiad yn y maes hwn ar lefel genedlaethol gystal. Nid yw'r rhaglen sy'n cefnogi'r cerdyn sgorio ar hyn o bryd yn gallu cynnwys gwybodaeth feincnodi am berfformiad yn erbyn rhai awdurdodau eraill.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cymuned eglurhad i'r Pwyllgor am absenoldeb salwch yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â pherfformiad yn y Gwasanaethau Plant gan

gyfeirio at ymweliadau statudol i blant y gofelir amdanynt a lle'r oedd y perfformiad wedi ei ddynodi'n goch. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) ymhellach bod fframwaith rheoli perfformiad y Gwasanaeth ei hun yn mapio DPA yn fisol drwy gerdyn sgorio gwasanaeth sy'n ei alluogi i osod targedau lleol yn erbyn DPA cenedlaethol sydd o reidrwydd, yn cael eu gosod ar lefel uwch na ddangosyddion perfformiad cenedlaethol er mwyn gallu gwthio'r perfformiad yn lleol i lefelau arfer orau. Mae hwn yn ffactor mewn perthynas â pherfformiad yng nghyswllt y ganran o ofalwyr a aseswyd yn ystod y flwyddyn. Aeth y swyddog ymlaen wedyn i gyfeirio at absenoldeb salwch yn y Gwasanaethau Oedolion a'r effaith y bydd ailfodelu gwasanaethau gofal i oedolion yn debygol o'i gael yn y tymor byr ar berfformiad yn erbyn dangosyddion. Yng nghyswllt y ffigyrau a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer perfformiad yng nghyswllt rheolaeth ariannol yn y Gwasanaeth Oedolion, eglurodd nad oedd y ffigyrau hynny wedi eu cadarnhau hyd yn hyn a bod y gwaith manwl o amgylch y ffigyrau hynny eto i'w wneud. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth (Anableddau Corfforol) wybodaeth bellach i'r Aelodau am y sefyllfa, mewn perthynas ag asesu anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a chafwyd trafodaeth ar hynny wedyn yn y Pwyllgor.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Cymuned y byddai o ddefnydd i'r Pwyllgor weld cerdyn sgorio'r Gwasanaeth ar yr un pryd â'r cerdyn sgorio corfforaethol oherwydd ei fod yn rhoi mwy o gefndir i'r ffigyrau DPA.

**Penderfynwyd nodi'r cerdyn sgorio corfforaethol a'r wybodaeth ynddo.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Y Cyfarwyddwr Cymuned i adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd gwasanaeth lle mae statws CAG yn goch.**
- **Y Cyfarwyddwr Cymuned i ddarparu cerdyn sgorio gwasanaeth ochr yn ochr â'r cerdyn sgorio corfforaethol i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.**
- **Y Dadansoddydd Perfformiad (AW) i gysylltu gyda'r Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes ynglyn ag ymarferoldeb y gwasanaethau yn darparu mwy o wybodaeth gefndirol yn yr adran Nodiadau ar y sgôr gerdyn corfforaethol.**

- Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ar y sefyllfa yng nghyswllt Adroddiad Perfformiad 2012/13 i sylw'r Pwyllgor.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) wrth yr Aelodau am yr anghenion yng nghyswllt cyhoeddi Adolygiad Perfformiad Blynyddol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn gyda hynny'n darparu asesiad ôl-ddyddiol o berfformiad y flwyddyn gynt o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn 2012/13; mynd i'r afael ag adroddiadau gorchwylio ac archwilio; perfformiad yn erbyn mesurau a DPA cenedlaethol, a chytundebau canlyniad. Gwaith ar y gweill yw'r Adroddiad Adolygu Perfformiad ar hyn o bryd ac roedd yr adroddiad uchod yn rhoi diweddariad dros dro ar ei gynnwys a hefyd amserlen ar gyfer cynhyrchu, herio a chymeradwyo'r adroddiad adolygu.

  **Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

  **DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

- Cafwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn amlinellu'r trefniadau o amgylch cynllunio busnes Gwneud Gwahaniaeth a Phrosiect Ymgysylltu ynglŷn â'r Gyllideb yn ogystal â'r cynllun marchnata a chyfathrebu i gefnogi'r prosiect, i sylw'r Pwyllgor.

  Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) grynodeb i'r Aelodau o amcanion y prosiect a'i gynulleidfa darged. Dywedodd mai bwriad y teitl "Gwneud Gwahaniaeth" oedd cyfleu neges y prosiect ymgysylltu ac ymgynghori hwn sef gwneud gwahaniaeth yn y ffordd y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu ei wasanaethau a hefyd gwneud yr arbedion angenrheidiol yn y tymor byr. Gosodwyd amserlen ar gyfer hyn a lluniwyd holiadur a bydd y broses ymgysylltu ac ymgynghori ei hun yn cael ei chynnal gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau er mwyn apelio i'r gynulleidfa ehangaf bosibl.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 8 LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2012/13 I GYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor lythyr blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2012/13 i Gyngor Sir Ynys Môn.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gohirio ystyried y Llythyr Blynyddol hyd gyfarfod nesaf y Pwyllgor gyda chais i'r Swyddog Gofal Cwsmer ddarparu adroddiad eglurhaol ar y cwynion y cyfeirir atynt a'u cyd-destun.

**Penderfynwyd gohirio ystyried llythyr blynyddol yr Ombwdsmon hyd gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Rheolwr Sgriwtini i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer**

## 9 MATERION ER GWYBODAETH - TREFNIADAU DIOGELU AR GYFER OEDOLION BREGUS

- Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) yn manylu ar weithgaredd diogelu oedolion am 2012/13 er gwybodaeth y Pwyllgor.

  Dywedodd y Cadeirydd y byddai unrhyw sylwadau a fyddai gan yr Aelodau ar gynnwys yr adroddiad yn cael eu hanfon ymlaen i'r Cyfarwyddwr Cymuned.

  **Penderfynwyd nodi'r adroddiad**

  **DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

- Cafwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn cynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol 2012/13 i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg, er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

  Dywedodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth wrth yr Aelodau bod yr adroddiad yn darparu trosolwg o iechyd y Cyngor fel corff corfforaethol yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg. Roedd yr adroddiad wedi ei lunio dan benawdau sy'n cyfateb i anghenion trefniadau adrodd yn ôl Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Nododd y Swyddog y gall Aelodau'r Pwyllgor gyfeirio unrhyw faterion y maent hwy o'r farn sydd angen sylw i'r Grŵp Tasg Iaith, Grŵp yr oedd ei aelodaeth wedi ei adolygu yn dilyn yr etholiad lleol.

  **Penderfynwyd nodi'r adroddiad**

  **DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf, 2013

**YN BRESENNOL:** Ms Anwen Huws (Pennaeth Gwasnaethau Plant) (Cadeirydd))

Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai)
Cynghorydd Dylan Rees (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)
Mr David Lydford (Cymdeithas Gofal Maethu)
Natalie Woodworth (Prif Swyddog Gweithredol)
Deiniol Williams (Rheolwr Tîm PGA)
Deborah Stammers (Rheolwr Tîm Lleoli Plant)
Sean McLearn (Cyd-gysylltydd PGA)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Ieuan Williams, Mrs Gwen Carrington, Mr Richard Parry Jones, Mrs Mair Read, Rona Jones, Heulwen Owen, Dr Janet Horn a Sue Willis

---

**RHAGARWEINIAD**

Rhoes Ms Anwen Huws, Pennaeth y Gwasanaethau Plant, groeso i bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Panel Rhiant Corfforaethol a dywedodd wrth yr Aelodau y byddai hi yn cadeirio'r cyfarfod hwn oherwydd absenoldeb Cadeirydd arferol y Panel, Mr R P Jones a Mrs Gwen Carrington, y Cyfarwyddwr Cymuned. Oherwydd mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Cyngor newydd o'r Panel, gofynnodd i'r sawl a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 22 EBRILL, 2013**

Cyflwynwyd a nodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 22 Ebrill, 2013.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cofnodion, o'i safbwynt hi, yn adlewyrchiad cywir o'r trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf ond nid oedd unrhyw yn bresennol yn y cyfarfod hwn a fedrai eilio hynny, felly cytunwyd y dylid rhoddi pythefnos i'r sawl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 22 Ebrill roi rhybudd o unrhyw wrthwynebiadau i'r cofnodion.

**3 MATERION YN CODI – LLYTHYR GAN GADEIRYDD Y PANEL YNGHYLCH GWASANAETH DEINTYDDOL I BLANT SY'N GADAEL GOFAL**

- Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cael cyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) a'u bod wrthi'n asesu'r goblygiadau adnoddau'r cynllun gweithredu mewn perthynas â'r strategaeth cefnogaeth a llety i bobl ifanc. Cadarnhaodd hefyd fod Prosiect Coedlys bellach yn weithredol ac y byddai'n cael ei agor yn swyddogol yn o fuan.
- Rhoes y Cadeirydd ddiweddariad i'r Panel ar y trefniadau mewn perthynas â rhoddi o'r neilltu ddiwrnod fel y gallai swyddogion Addysg a Gwasanaethau Pant ddadansoddi casgliadau ymchwil cenedlaethol ynghylch cyraeddiadau addysgol plant mewn angen fel y gallant ar y cyd ddatblygu cynllun i sicrhau'r cyfleon gorau posibl mewn bywyd i blant y gofelir amdanynt gan ddweud bod y diwrnod wedi cael ei ohirio o fis Mehefin i fis Hydref.

- Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi anfon at Gadeirydd sefydlog y Panel, wybodaeth ynglŷn â llwyddiant person ifanc mewn gofal y cafodd ei waith celf ei dderbyn i arddangosfa yn Amgueddfa Foundling gyda golwg ar i'w lwyddiant gael ei gydnabod yn ffurfiol gan y Cyngor Sir.

  **Gweithredu: Pennaeth y Gwasanaethau Plant i ddilyn y mater hwn i fyny gyda Chadeirydd y Panel**.

- Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Panel - Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Panel a Phrif Weithredwr BIPBC mewn perthynas â'r mater a gododd yn y drafodaeth yn y cyfarfod o'r Panel ar 22 Ebrill, sef nad oes gan yr holl blant y gofelir amdanynt ym Môn fodd o gael at wasanaeth deintyddol - rhywbeth y mae ganddynt hawl sylfaenol iddo. Yn ei hymateb i'r Cadeirydd, eglurodd Prif Weithredwr BIPBC y ddwy ffordd y darperir gwasanaethau deintyddol sylfaenol i blant mewn gofal yng Ngogledd Cymru - y naill drwy'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a'r llall drwy'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ac roedd yn amlinellu cylch gorchwyl y gwasanaethau hynny ynghyd â darparu manylion cyswllt ar gyfer y clinigau GDC a'r deintfeydd cyffredinol.

  Nododd y Cadeirydd fod y Nyrs PGA yn ei hadroddiad i'r Panel yn eitem rhif 4 yn cadarnhau y penderfynwyd, yn dilyn trafodaeth o fewn BIPBC, y gallai gadawyr gofal barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd deintyddol cymunedol hyd oni fyddant yn 21 oed a bod y perfformiad o ran DP yn Ynys Môn mewn perthynas ag Apwyntiadau gyda Deintydd i blant a phobl ifanc PGA o fewn y trothwyon derbyniol.

  **Cytunwyd i nodi'r ohebiaeth fel y cafodd ei chyflwyno a nodi hefyd fod adroddiad y Nyrs PGA yn cadarnhau fod DP mewn perthynas ag Apwyntiadau gyda Deintydd i blant a phobl ifanc PGA o fewn y trothwyon derbyniol.**

  **Dim camau pellach yn codi.**

## 4 ADRODDIADAU AR Y GWASANAETH – ADRODDIAD Y SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL

- Cyflwynwyd i sylw'r Panel - adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol am y cyfnod Ebrill - Mehefin 2013. Rhoes yr adroddiad wybodaeth ynglŷn â'r plant y gofelir amdanynt yn Ynys Môn yn ystod chwarter cyntaf 2013/14 gan gynnwys eu niferoedd a'r lleoliadau; nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y cyfnod amser statudol; materion arfer dda o ran cynllunio lleoliadau a gofal ac unrhyw faterion yn codi ynghyd â risgiau a phryderon a'r sylw yr oeddid yn eu rhoddi i'r rhain. Wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hefyd oedd gwybodaeth ynglŷn â'r atborth a gafwyd gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth Adolygiadau ar gyfer PGA.

  Dygodd y Cadeirydd sylw at y pwyntiau mwyaf amlwg yn yr adroddiad sef-

  - Y sefyllfa mewn perthynas â'r ddau berson ifanc sy'n parhau i fod ar goll o'u lleoliadau.

    Rhoes y Prif Swyddog (Gweithredol) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel gan ddweud bod y ddau achos yn parhau i fod ar agor yn yr adran a bod gweithiwr cymdeithasol yn parhau i fod ar gael iddynt a bod yr adran yn parhau hefyd i ymgynghori gyda Heddlu Gogledd Cymru yn eu cylch. Mae proses wedi cael ei sefydlu i asesu'r risg gyda'r nod o leihau neu ddileu digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Mae SAA hefyd yn adolygu'r sefyllfa'r rheolaidd. Yn ychwanegol at hyn, mae Gweithgor ar gyfer Plant sydd ar Goll a Phlant y Camfanteisir Arnynt yn Rhywiol wedi cael ei sefydlu ac, fel rhan o'r grŵp hwnnw, trefnwyd cyfarfod rhwng y Prif Swyddog (Gweithredol) a swyddog o Barnardos sydd ag arbenigedd penodol yn y maes hwn er mwyn datblygu trefniadau lleol.

  - Pryderon parhaus mewn perthynas â chynnal sefydlogrwydd o ran lleoliadau.

    Rhoes Arweinydd y Tîm Lleoli Plant ddiweddariad i'r Panel ar gynnig buddsoddi i arbed a gymeradwywyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 15 Gorffennaf. Eglurodd

y Swyddog bod y fid yn unol am fuddsoddiad o £50k i'w ddefnyddio i gyflogi Swyddog Recriwtio a Marchnata ac i hyrwyddo maethu ar yr ynys. Bydd y Swyddog Recriwtio a Marchnata yn cymryd rôl arweiniol i weithredu'r strategaeth recriwtio er mwyn gwella rhyngwyneb y Tîm Lleoli Plant gyda'r cyhoedd ym Môn. Bydd gwelliant o ran denu darpar ofalwyr maeth yn codi proffil y gwasanaeth, yn ychwanegu at y dewis o leoliadau sydd ar gael i blant ar yr ynys gan olygu fod modd sicrhau lleoliadau sy'n fwy addas i gwrdd ag anghenion y plentyn a bydd hefyd yn lleihadau'r costau oherwydd llai o ddibyniaeth ar leoliadau asiantaethau preifat.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod wedi bod yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r mater hwn a'i fod yn cefnogi'n llwyr y strategaeth buddsoddi i arbed a'r nod o gryfhau gwasanaeth gofal maeth y Cyngor ei hun gan ddarparu gwell dewis o leoliadau a chan wasanaethu'n well y plant hynny sydd angen gofal.

Dywedodd cynrychiolydd Cymdeithas y Gofalwyr Maeth bod y ffaith fod y tîm Cefnogi Gofalwyr Maeth sy'n cefnogi gofalwyr maeth cyfredol hefyd wedi bod yn gweithio ar recriwtio ac asesu wedi bod yn broblemus oherwydd mae'r cyfrifoldeb deuol hwn wedi golygu bod ganddynt lai o amser i'w dreulio ar weithgareddau cefnogi. Dywedodd ei fod ef o'r farn bod nifer y gofalwyr maeth wedi lleihau dros amser am nifer o resymau gan gynnwys proses naturiol o symud ymlaen; colli rhai o ganlyniad i'r broses ymchwilio a bod yr hinsawdd ariannol hefyd wedi arwain at sefyllfa lle mae'r ddau oedolyn mewn nifer o aelwydydd efo dau oedolyn bellach yn gweithio sy'n golygu nad oes cymaint o amser ganddynt ar gyfer gweithgareddau eraill megis maethu. Dywedodd fod gofalwyr maeth, yn ei farn ef, yn fwy bodlon gyda'r sefyllfa o ran y taliadau y maent yn eu derbyn ond bod lle i wella o ran materion cefnogi yn arbennig mewn perthynas ag ymchwiliadau

Dymunodd y Cadeirydd ei bod yn dymuno gweld gofalwyr maeth yn cael eu cynnwys fel rhan integrol o'r broses ar gyfer cynllunio ar gyfer strategaeth newydd a darparu'r strategaeth honno. Y bwriad yw cael targedau clir yn eu lle o ran ymateb ac ymweliadau dilyn-i-fyny; mwy o gyrsiau hyfforddi er mwy gosod safon e.e. cyfnod o 6 mis ar gyfer cwblhau asesiad o ofalwyr maeth o'r cyswllt cyntaf.

- Plant yn y system PGA am ragor na 12 mis.

  Dywedodd y Prif Swyddog (Gweithredol) fod nifer fechan o blant wedi bod yn y System PGA ân gyfnod sylweddol a hynny'n rhannol oherwydd na fedrir dod o hyd i leoliad addas ar eu cyfer. Dywedodd y Swyddogion fod prinder teuluoedd ar gyfer plant a chanddynt anghenion datblygu penodol a bod oedran hefyd yn ffactor gyda phlant hŷn yn anos i'w lleoli.

  Dywedodd y Cadeirydd fod y Panel angen sicrwydd fod y mater hwn yn derbyn sylw a bod y gwasanaeth wedi rhoi sylw i bob ystyriaeth ac awgrymodd y dylid cynnal archwiliad i'r perwyl hwn ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Panel.

  Aeth y Cadeirydd yn ei blaen i gyfeirio at newidiadau arfaethedig o ran yr Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus a dywedodd y bydd y gwaith paratoi y mae'r gwasanaeth wrthi'n ei wneud i sicrhau y bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r prosesau newydd sy'n nodi'r disgwyliadau ar yr holl bartïon pan aiff achosion gofal i'r Llys yn cael ei rannu gyda'r Panel hwn yn ei gyfarfod nesaf.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**Gweithredu:**

- **Y Prif Swyddog (Gweithredol) i gynnal archwiliad o ddull y gwasanaeth o reoli plant sydd wedi bod yn y system PGA am 12 mis a mwy ac adrodd yn ôl i'r Panel yn ei gyfarfod nesaf.**

DRAFT

- **Pennaeth y Gwasanaethau Plant i roi gwybodaeth i'r Panel yn ei gyfarfod nesaf ynglŷn â'r gwaith paratoi y mae'r gwasanaeth wrthi'n ei wneud mewn perthynas â chydymffurfio gyda'r newidiadau yn y prosesau o ran yr Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus.**

- Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Cyswllt Addysg PGA ar gyfer chwarter cyntaf 2013/14 er sylw'r Panel. Rhoes yr adroddiad wybodaeth ynghylch proffil a statws addysgol y plant/pobl ifanc y mae'r Swyddog yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd.

  Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddwy sesiwn gweithgareddau grŵp a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod lle cafodd y plant a'r bobl ifanc gyfle i gymryd rhan mewn gwaith tîm ymarferol a chreadigol a oedd yn fodd iddynt ddod i adnabod ei gilydd, gwella eu hunanhyder a dysgu i ymddiried mewn pobl eraill.

  Eglurodd y Prif Swyddog (Gweithredol) yr hyn yr oedd y sesiynau tiwtora ychwanegol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 a gawsant dderbyniad da iawn, yn eu cynnwys. Dywedodd fod y Gwasanaeth wedi penderfynu defnyddio grant gan Lywodraeth Cymru a roddwyd i bob awdurdod i wella cyrhaeddiad addysgol plant yn y blynyddoedd hyn, i gyflogi Mentor Dysgu sy'n ymgynghori gydag ysgolion a blwyddyn 11 yn arbennig ac sy'n tiwtora ac yn cefnogi disgyblion gyda gwaith adolygu ac sy'n gweithio ar sail un i un gyda'r plant. Gyda'r arian a oedd dros ben o'r grant, cynigiwyd i bedwar o blant y gofelir amdanynt wersi ychwanegol yn y pynciau hynny yr oeddynt angen cefnogaeth yn eu cylch er mwyn paratoi ar gyfer eu harholiadau TGAU - derbyniodd dau ohonynt wersi o'r fath.

  Gofynnodd aelod o'r Panel a oedd cyfraddau presenoldeb plant PGA yn yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â phlant eraill gan wneud y sylw nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at hyn. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Swyddog Cyswllt Addysg PGA ddarparu'r wybodaeth hon yn ei hadroddiad chwarterol nesaf i'r Panel.

  **Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

  **Gweithredu: Y Swyddog Cyswllt Addysg PGA i gynnwys gwybodaeth ynghylch presenoldeb PGA yn yr ysgol yn ei hadroddiad chwarterol nesaf i'r Panel.**

- Cyflwynwyd adroddiad y Nyrs PGA am chwarter cyntaf 2013/14 i sylw'r Panel. Yn yr adroddiad, darparwyd gwybodaeth ynghylch iechyd plant y gofelir amdanynt yn ystod y cyfnod gan gynnwys nifer o asesiadau iechyd a gynhaliwyd ac unrhyw faterion yn codi ohonynt ynghyd â chyraeddiadau gan gynnwys cadarnhad fod yr holl blant PGA a Gadawyr Gofal erbyn hyn yn gallu cael at ofal deintyddol yn rhwydd.

  Dygodd y Cadeirydd sylw at yr ail graff ar gyfer Asesiadau Iechyd Plant PGA yn ystod y cyfnod a sylwadau'r swyddog ynghylch ei disgwyliad y byddai tueddiad bychan at i lawr o ran perfformiad o ganlyniad i gyflwyno newid i'r amserlen ar gyfer cwblhau asesiadau ac awgrymodd y dylid gwahodd y Nyrs PGA i'r cyfarfod nesaf o'r Panel i egluro'r sefyllfa a chael trafodaeth gyda hi yn y cyfamser er mwyn cael sicrwydd na fyddai unrhyw dorri rheolau o ran perfformiad oherwydd hyn.

  **Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

  **Gweithredu:**

  - **Y Rheolwr Tîm PGA i ofyn i'r Nyrs PGA fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Panel er mwyn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â chyflwyno amserlen newydd ar gyfer asesiadau iechyd ac unrhyw faterion yn codi o hynny.**
  - **Y Rheolwr Tîm PGA i gael trafodaeth gyda'r Nyrs PGA yn y cyfamser er mwyn cael sicrwydd nad oes, ac na fydd, unrhyw dorri rheolau o ran perfformiad yn digwydd.**

- Cyflwynwyd i sylw'r Panel, adroddiad y Rheolwr Tîm PGA am chwarter cyntaf 2013/14. Yn yr adroddiad roedd gwybodaeth ynglŷn â'r boblogaeth PGA ers 31 Mawrth, 2012 gan



DRAFT

gynnwys newidiadau yn niferoedd y plant PGA a'r rhesymau a hynny, statws cyfreithiol plant y bobl ifanc y gofelir amdanynt, y mathau o leoliadau a'r rhesymau amdanynt ynghyd â materion yn ymwneud ag arfer dda a chamau gweithredu sydd wedi eu cynllunio. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar y tri awdurdod a byddai'n arloesi'r trefniadau Pan fyddaf yn barod - cynllun sy'n golygu y gall mwy o adawyr gofal aros gyda'u rhieni maeth wedi iddynt droi 18 oed.

Dygwyd sylw at y canlynol yn y drafodaeth –

- Y dirywiad yn ymweliadau statudol y Tîm PGA yn ystod Ebrill a Mai. Fodd bynnag, roedd data cychwynnol yn dangos fod y sefyllfa wedi cael eu hunioni i raddau helaeth ym mis Mehefin, 2013. Un cam sy'n cael ei weithredu i wella'r sefyllfa yw cynnal ymweliadau statudol pob mis yn lle pob 6 wythnos gyda'r bwriad y bydd hynny'n gwella perfformiad y gwasanaeth o ran ymweliadau statudol yn sylweddol.

  Dygodd un aelod o'r Panel sylw at y ffaith fod ansawdd yr ymweliadau yr un mor bwysig ag amlder eu cynnal. Pwysleisiwyd bod rhaid cael amserlen o ymweliadau rheolaidd yn ei lle er mwyn nodi unrhyw faterion a all ddod yn broblemus oni bai eu bod yn cael sylw.

- Aelodaeth o Gampfa yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc PGA

Dywedodd y Rheolwr Tîm PGA fod yr Adran Hamdden yn dilyn trafodaeth, wedi cadarnhau na fedr gynnig aelodaeth am ddim i blant a phobl ifanc PGA ond gall gynnig pris gostyngol a gwnaed cynnig i godi £20 y mis am grŵp o 5 unigolyn a lluosyddion o hynny gan olygu y bydd cost aelodaeth o gym i 19 o unigolion y gofelir amdanynt ac sy'n debygol o wneud defnydd o'r cyfleuster a'r gwasanaeth hwn oddeutu £1,000.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r mater eto gyda'r Cyfarwyddwr Cymuned ac er y gallai'r Gwasanaeth Plant edrych ar a fedrai dalu'r gost a'r telerau aelodaeth a awgrymwyd roedd hi'n teimlo bod hwn yn fater o egwyddor pwysig gan fod cyfrifoldeb ar y Cyngor cyfan i fod yn rhiant corfforaethol gan olygu y dylai pob gwasanaeth yn y gorfforaeth ystyried sut y mae'n cwrdd â'r cyfrifoldeb hwnnw ac yn cyfrannu tuag ato.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**Gweithredu:**

- **Pennaeth y Gwasanaethau Plant i godi eto gyda'r Cyfarwyddwr Cymuned, fater aelodaeth campfa yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc PGA, yn arbennig o fewn cyd-destun Cyngor cyfan o fod yn rhiant corfforaethol.**
- **Adroddiad ysgrifenedig gan y Tîm Ôl-ofal i gael i gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Panel.**

- Cyflwynwyd adroddiad gan y Tîm Lleoli Plant i sylw'r Panel a oedd yn cynnwys dadansoddiad o'r mathau o leoliadau a wnaed a'r sefyllfa gyfredol o ran iechyd y Gwasanaeth Maethu gan gynnwys yr effaith y mae cynnydd yn nifer y plant PGA yn debygol o'i gael ar y gwasanaeth a'r angen o'r herwydd i gynllunio ar gyfer lleoliadau ychwanegol.

  Ymhelaethodd y Rheolwr Tîm Lleoli Plant ar fenter "Buddsoddi i Arbed" a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith gyda'r bwriad o gryfhau gwasanaeth maethu'r Awdurdod ei hun drwy ganolbwyntio o'r newydd ar recriwtio teuluoedd newydd i'r gwasanaeth drwy Swyddog Recriwtio a Marchnata a fydd yn cael ei gyflogi i hyrwyddo maeth ar yr ynys. Awgryma'r cynnig y ceir 20 o deuluoedd newydd ar ôl cyfnod o 3 blynedd ar yr amod y buddsoddir ymhellach o'r arbedion. Rhagdybir y bydd hyn yn cynhyrchu arbedion net sylweddol oddeutu £300k dros y cyfnod hwnnw.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

DRAFT

**Dim camau gweithredu pellach yn codi.**

## 5 GWASANAETH EIRIOLAETH ANNIBYNNOL

Cylchredwyd adroddiad ar y chwarter cyntaf gan Wasanaeth Eiriolaeth NYAS i Aelodau'r Panel yn y cyfarfod.

Mynegodd y Cadeirydd ei siom ynghylch diffyg cynnydd o ran cyfranogiad Plant y Gofelir Amdanynt. Fel Pennaeth Gwasanaeth, dywedodd ei bod wedi gofyn am gael rhoi trefniadau yn eu lle yn hyn o beth a dywedodd wrth y Panel y byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried gan Dîm Rheoli'r Gwasanaeth yn ddiweddarach yr wythnos honno gyda golwg ar enwi swyddogion a fyddai'n ymgynghori gyda NYAS i drefnu cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a'r plant sy'n derbyn gofal.

Nododd y Panel ei bryder nad oedd yr adroddiad yn ddwyieithog a'i fod ond ar gael yn y cyfarfod.

**Cydnabu'r Panel dderbyn yr adroddiad a chytunwyd i roi sylw iddo yn y cyfarfod nesaf.**

**Dim camau gweithredu pellach yn codi.**

## 6 MATERION ER GWYBODAETH – STRATEGAETH RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Strategaeth Rhianta Corfforaethol ddrafft ar gyfer 2013-16 er gwybodaeth a sylwadau'r Panel.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n teimlo bod y Panel wedi bod yn canolbwyntio gormod ar sgriwtineiddio gweithgareddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ran plant a phobl ifanc y gofelir amdanynt yn hytrach na datblygu gweledigaeth ehangach o rianta corfforaethol a strategaeth i wireddu'r weledigaeth honno. Yn dilyn trafodaeth adeiladol, cytunwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Panel hwn, y byddai gwaith yn cael ei wneud i lunio strategaeth ar ôl cwblhau'r gwaith o lunio'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Roedd y gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau ac mae gwaith ar lunio rhaglen waith gysylltiedig bron â dod i ben gan ganiatáu amser i'r Panel ystyried sut y gall symud ymlaen gyda strategaeth rhianta corfforaethol. Roedd y strategaeth gychwynnol fel y cafodd ei chyflwyno wedi'i ddatblygu ac yn addo y byddai gan bob plentyn yng ngofal yr Awdurdod hawl i'r isod -

- Cartref lle gallant deimlo'n ddiogel, lle maent yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal
- Addysg i sicrhau'r canlyniadau gorau posib
- Iechyd ar ffurf gofal a chyngor iechyd priodol
- Hamdden fel y gallant fwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol i gyflawni eu potensial
- Cefnogaeth pan yn gadael gofal fel y gallant baratoi ar gyfer y dyfodol a gwneud newidiadau cadarnhau i fyw'n annibynnol

Aeth y Swyddog rhagddi i ddweud mai'r bwriad yw i'r strategaeth ddarparu ar gyfer y Panel themâu penodol sy'n gysylltiedig â'r addewidion ac os yw'r Plant a'r bobl ifanc y gofelir amdanynt yn cytuno bod y strategaeth yn adlewyrchu eu dyheadau a'u dymuniadau a'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy a'i bod hefyd yn crisialu'r hyn y mae'r Cyngor fel sefydliadau corfforaethol yn dymuno ei gyflawni ar gyfer y plant yn ei ofal, yna gellir datblygu cynllun gweithredu gyda gwasanaethau penodol yn arwain at bob thema fel sy'n briodol i'w cylch gorchwyl. O fewn y themâu hynny, gellir llunio rhaglen o weithgareddau ar gyfer y tair blynedd nesaf a fydd yn fodd i wireddu'r agweddau hynny. Yn ychwanegol at gael adroddiad gan y SAA ac adroddiad gan y Gwasanaethau Plant, byddai'r Panel ym mhob cyfarfod chwarterol, yn gwahodd 2 swyddog sy'n arwain ar yr amryfal themâu i annerch y Panel ar gynnydd a llwyddiant o ran y themâu hynny. Y bwriad yw newid ffocws y Panel i fod yn fwy corfforaethol a'i fod yn rhoi cyfrifoldeb ar wasanaethau ar draws y Cyngor i gwrdd â'r addewidion hynny a wnaed i blant a phobl ifanc y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt.

Rhoes y Panel sylw i'r ddogfen ac er eu bod yn cytuno gyda byrdwn gyffredinol y strategaeth, awgrymodd yr Aelodau mae Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yr arbenigwyr o ran Plant y Gofelir Amdanynt.

DRAFT

Cydnabu'r Cadeirydd mai gan y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yr arbenigedd o ran swyddogaethau statudol ond mae'r rhaglen a awgrymir gan y Strategaeth yn cymryd yn ganiataol y bydd y Cyngor fel endid corfforaethol yn gweithredu fel rhiant corfforaethol gan gymryd cyfrifoldeb felly am yr agweddau eraill o ofal a lles plant y gofelir amdanynt gan gwmpasu lles corfforol, gweithgareddau hamdden a chyfleoedd cyflogaeth.  Mae'r Strategaeth yn ceisio darparu fframwaith fel y gall y Cyngor weithredu fel rhiant corfforaethol.

**Cytunwyd i dderbyn y Strategaeth Rhianta Corfforaethol i ddiben ymgynghoriad pellach.**

## 7 AMSERLEN CYFARFODYDD Y PANEL

Rhoddwyd sylw i amserlen gyfredol cyfarfodydd y Panel gyda golwg ar alluogi'r swyddogion yn well i adrodd ar ganlyniadau ar y chwarter llawn tra'n cydymffurfio gydag amserlenni adrodd.

**Cytunwyd i adolygu amserlen cyfarfodydd y Panel am y rhesymau a roddwyd.**

**Gweithredu: Swyddog Pwyllgor i lunio rhestr newydd o gyfarfodydd am weddill y flwyddyn gyda chaniatâd Cadeirydd arferol y Panel.**

**Ms Anwen Huws (Pennaeth Gwasanaethau Plant)**
**(Yn y Gadair)**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **28 Hydref 2013** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol:** | **Bethan Jones, Dirprwy Brif Weithredwr** |
| **Teitl:** | **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Crynodeb Blynyddol o Berfformiad 2012 / 13** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhoi gwybodaeth am gwynion a wnaed i'r Ombwdsmon yn ystod 2012/13 ynghyd â chymhariaeth gyda'r flwyddyn flaenorol

**2.0 Gwybodaeth**

2.1 Gweler yr Adroddiad sydd ynghlwm os gwelwch yn dda

**3.0 Argymhellion**

3.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr Adroddiad

Adroddiad gan: Beryl Jones
Teitl Swydd: Swyddog Gofal Cwsmer
Adran: Prif Weithredwr – Adran Gyfreithiol

Dyddiad: 01.10.13

---

**Atodiadau:**

1. **Atodiad 1 – Cwynion Côd Ymddygiad gan Awdurdod Lleol**

**Papurau Cefndirol:**

- **Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2012/13**

- **Copïau o Atodiadau o Adroddiadau Blynyddol 2010/11 a 2011/12 yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am bob un o'r 22 Awdurdod Lleol**

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Gellir gweld yr holl Adroddiadau Blynyddol blaenorol ar Wefan yr Ombwdsmon - http://www.ombudsman-wales.org.uk/en/publications.aspx

Yn ychwanegol i hynny, ers 2011/12, gellir hefyd weld y Llythyrau Blynyddol ar y wefan -<http://www.ombudsman-wales.org.uk/Search.aspx?terms=Annual%20Letters>

## 1. Cefndir:

Ers 2006, mae'r Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan ei swyddfa dros y 12 mis blaenorol ac y mae hefyd yn cynhyrchu Crynodeb Blynyddol o Berfformiad ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus ar wahân.

Darparwyd yr adroddiad crynhoi i Aelodau'r Pwyllgor hwn yn y cyfarfod diwethaf. Paratowyd yr adroddiad hwn gyda'r bwriad o roi'r Adroddiad Crynhoi yn ei gyd-destun a darparu cymhariaeth flwyddyn ar flwyddyn o 2011/12.

Mae'r adroddiad yn ymwneud yn bennaf â chwynion am wasanaeth ond y mae hefyd yn cynnwys adran ar gwynion a wnaed o dan y Côd Ymddygiad i Aelodau.

## 2. Prif Benawdau yn y Crynodeb:- Cwynion am Wasanaethau

### A. Cymhariaeth o gwynion a dderbyniwyd gyda chyfartaledd, wedi ei addasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth.

Gan gymryd i ystyriaeth yr addasiad, mae nifer y cwynion a dderbyniwyd yn erbyn CSYM wedi disgyn o dros 50% yn fwy na chyfartaledd yr Awdurdodau Lleol yn 2010/11 i 27% a 28% yn 2011/12 a 2012/13.

### B. Cwynion a Dderbyniwyd

Y nifer o gwynion a dderbyniwyd yn ystod 2012/13 oedd 25, un i lawr ar 2011/12 a 9 yn llai na 2010/11.

### C. Cymhariaeth o'r cwynion yn ôl categori testun gyda Chyfartaledd Awdurdod Lleol

Mae'r categorïau testun yn tueddu i newid bob blwyddyn gan ddibynnu ar natur y cwynion a dderbyniwyd.

O'r 9 maes gwasanaeth, roedd CSYM yn is na'r cyfartaledd i holl Awdurdodau Cymru mewn 6 chategori, yr un â'r cyfartaledd mewn 2 ac yn uwch na'r cyfartaledd yn yr un oedd ar ôl, gyda hwnnw'n ymwneud â "Cynllunio a Rheoli Adeiladu".

Yn 2011/12 nid oedd ond 7 maes gwasanaeth ac roedd CSYM yn is na chyfartaledd y cyfan o Awdurdodau Cymru mewn 4 categori, yr un â'r cyfartaledd yn 1 ac yn uwch na'r cyfartaledd yn y 2 gategori arall. Roedd y rhain yn ymwneud â "Gweinyddu Budd-daliadau" a "Chludiant" a "Cynllunio a Rheoli Adeiladu".

### D. Cwynion a gymerwyd i mewn i'w hymchwilio gan fy swyddfa

O'r 25 cwyn a dderbyniwyd, ymchwiliwyd i 2 ohonynt o gymharu â 5 allan o 26 yn ystod 2011/12.

E. **Cymhariaeth o gwynion yr ymchwiliwyd iddynt wedi eu haddasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth**

Gan gymryd yr addasiad i ystyriaeth, mae'r graffiau'n dangos bod yr Ombwdsmon wedi ymchwilio mwy na dwbl cyfartaledd y cwynion yn erbyn CSYM yn 2012/13 (2 i CSYM tra roedd y cyfartaledd yn 1) a phedair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd yn 2011/12 (5 i CSYM tra mai'r cyfartaledd oedd 1).

F. **Cymhariaeth o ganlyniadau cwynion gyda chanlyniadau cyfartalog, wedi eu haddasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth**

Unwaith yn rhagor, mae canlyniadau'r cwynion yn wahanol bob blwyddyn gan ddibynnu ar y cwynion a dderbyniwyd a'r canlyniadau gwirioneddol.

Fodd bynnag, mae'r graff yn dangos bod CSYM yn uwch na'r ffigwr cyfartalog ym mhob un o'r 5 categori yn 2012/13. Mae'r canlyniadau gwirioneddol yn dangos lleihad gan i 2 gŵyn gael eu cynnal yn rhannol neu yn gyfan yn 2012/13 o gymharu â 4 yn 2011/12 ac un gwyn arall na chafodd ei chadarnhau sef yr un fath ag yn 2011/12.

G. **Cymhariaeth o amseroedd CSYM i ymateb i geisiadau am wybodaeth gyda chyfartaledd Awdurdodau Lleol a chyfartaledd amseroedd ymateb Cymru Gyfan 2010/11**

Mae'r canlyniadau yn y fan hon i'w gweld fel pe baent yn dangos bod CSYM yn sylweddol uwchben y rhif cyfartalog ar gyfer amser ymateb o 4-5 wythnos a thros 6 wythnos.

Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â sut roedd yr amser ymateb yn cael ei fesur mewn gwirionedd -

"mae'r 'cloc' ar gyfer mesur amseroedd ymateb yn dechrau pan fydd ymchwiliad yn dechrau (h.y. y dyddiad ar y llythyrau a anfonir i gorff cyhoeddus yn gofyn am wybodaeth benodol) ac mae'r 'cloc' yn stopio pan fo'r swyddfa hon wedi derbyn ymateb llawn - dim ymateb rhannol - gan y corff cyhoeddus ar yr holl bwyntiau a godwyd yn y llythyr cychwynnol hwnnw".

Mae'r canlyniadau yn seiliedig ar 2 achos:-

1. Yn ymwneud â mater cyllid yr ymatebwyd iddo o fewn y cyfnod amser y gofynnir amdano gan yr Ombwdsmon h.y. 4 wythnos. Canlyniad hyn oedd Adroddiad Adran 21 a byddir yn adrodd yn ôl arno yn Adroddiad Perfformiad yr Ombwdsmon 2013/14. (Adroddiad Adran 21 yw adroddiad lle bo'r corff cyhoeddus dan sylw wedi cytuno i weithredu unrhyw argymhellion a wnaed gyda'r Ombwdsmon yn fodlon nad oes unrhyw ddiddordeb cyhoeddus ynglŷn â'r mater).

2. Yr ail achos oedd mater Cynllunio oedd yn gofyn am lawer o gasglu gwybodaeth a chopïo dogfennau ac ati. Bydd unrhyw oedi yn cael ei adrodd i'r Ombwdsmon a negodir amserlenni a'u cytuno. Er y ffaith i'r dogfennau gael eu hanfon yn y diwedd ar 2.5.13, hyd yn hyn nid oes unrhyw benderfyniad wedi ei dderbyn gan yr Ombwdsmon ar y mater hwn.

**3. Prif Benawdau yn y Crynodeb:- Cwynion Côd Ymddygiad**

**H. Cwynion Côd Ymddygiad**

Nid yw'r Adroddiad Crynhoi yn darparu unrhyw fanylion o safbwynt cymariaethau gyda'r cyfartaledd ar gyfer y categori hwn ond y mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth ystadegol ac y mae hwn ynghlwm yn Atodiad 1.

Mae'r data'n dangos bod CSYM yn 2012/13, gyda 6 achos wedi eu cau, yn gydradd 13eg gyda Blaenau Gwent a Chaerffili. Y rhif uchaf a gofnodwyd o achosion wedi eu cau oedd yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe gyda 43 achos a'r rhif lleiaf a gofnodwyd oedd 1 yn Nyffryn Morgannwg.

**4. Prif negeseuon ac unrhyw gamau gweithredu y mae angen i'r Awdurdod eu gwneud mewn ymateb i'r Adroddiad**

- Yn gyffredinol, mae'r Ombwdsmon yn falch o nodi, er gwaethaf cynnydd o 35% yn nifer yr adroddiadau ymchwilio a ryddhawyd, nad oes cynnydd yn nifer cyfartalog yr adroddiadau a gafodd eu "cadarnhau" yn erbyn Cynghorau Sir / Bwrdeistref Sirol.
- O safbwynt perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn gwelwyd lleihad yn nifer y cwynion a dderbyniwyd, yr ymchwiliwyd iddynt ac a gafodd eu cadarnhau er bod y ffigyrau yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd.
- Mae'r Adroddiad Crynhoi yn dangos bod CSYM yn gwella yn erbyn ei berfformiad hanesyddol ei hun ond nid yn erbyn cyfartaledd Cymru.

ATODIAD 1.

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

[redacted]

## Cwynion Cod Ymddygiad:
## Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau Fesul Awdurdod Lleol

2012/13

## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 4 | | 1 | 1 | | | | **6** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Caerffili | 4 | | 1 | | | | 1 | **6** |
| Caerdydd | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Caerfyrddin | 6 | 1 | 2 | 1 | | | | **10** |
| Ceredigion | 1 | | | 2 | | 1 | | **4** |
| Conwy | 2 | | | | | | | **2** |
| Dinbych | 4 | | | | | | | **4** |
| Sir y Fflint | 4 | | | | | | | **4** |
| Gwynedd | 4 | 2 | | | 1 | | | **7** |
| Ynys Môn | 5 | | | | | | 1 | **6** |
| Merthyr Tudful | 7 | | 2 | | | 1 | | **10** |
| Sir Fynwy | 2 | 1 | 1 | | 1 | | | **5** |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | | | | 1 | | | **3** |
| Casnewydd | 1 | | | | | | 1 | **2** |
| Penfro | 3 | | | | 1 | | | **4** |
| Powys | 4 | | | | 1 | | | **5** |
| Rhondda Cynon Taf | 11 | | 1 | | | | 2 | **14** |
| Abertawe | 34 | 1 | 6 | | | | 2 | **43** |
| Bro Morgannwg | 1 | | | | | | | **1** |
| Tor-faen | 4 | | | 3 | 1 | | | **8** |
| Wrecsam | 11 | 1 | | | | | | **12** |
| **CYFANSWM** | **118** | **6** | **16** | **7** | **6** | **2** | **7** | **162** |

2011/12.

## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 4 | | 1 | | | | | **5** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | | | | | | | **3** |
| Caerffili | 6 | 1 | | 1 | | | | **8** |
| Caerdydd | 5 | | | 1 | | | | **6** |
| Sir Caerfyrddin | 7 | | | | | | 1 | **8** |
| Ceredigion | 4 | | | | | | | **4** |
| Conwy | 9 | | | | | | | **9** |
| Sir Ddinbych | 5 | | | 1 | 1 | 1 | 1 | **9** |
| Sir y Fflint | 8 | | | 2 | | | 1 | **11** |
| Gwynedd | 2 | | | | | | | **2** |
| Ynys Môn | | | | 1 | 2 | 1 | | **4** |
| Merthyr Tudful | 3 | | | | | | | **3** |
| Sir Fynwy | 7 | | | | | | | **7** |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | | | | | | | **1** |
| Casnewydd | 2 | | | 1 | | | | **3** |
| Sir Benfro | 7 | | | 1 | | | | **8** |
| Powys | 5 | | 1 | | | | | **6** |
| Rhondda Cynon Taf | 8 | | | | 1 | | 1 | **10** |
| Abertawe | 38 | 1 | | | | | 2 | **41** |
| Bro Morgannwg | 12 | | | | | | | **12** |
| Tor-faen | 5 | | | 1 | | 1 | | **7** |
| Wrecsam | 1 | | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | **142** | **2** | **2** | **9** | **4** | **3** | **6** | **168** |

2010/11

## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Penderfynu Peidio ag Ymchwilio | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 1 | | | 2 | | | | **3** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | | | 1 | | | | **3** |
| Caerffili | 4 | | | 1 | 2 | | | **7** |
| Caerdydd | 11 | | | 1 | 1 | | 1 | **14** |
| Sir Caerfyrddin | 4 | | | 1 | | | | **5** |
| Conwy | 1 | | | | | | | **1** |
| Ceredigion | 3 | | | 1 | | | 1 | **5** |
| Sir Ddinbych | 3 | | | | | | 2 | **5** |
| Sir y Fflint | 8 | | 2 | | | 2 | 1 | **13** |
| Gwynedd | 4 | 1 | | | 1 | | | **6** |
| Ynys Môn | 9 | | | | | 2 | | **11** |
| Merthyr Tudful | 6 | | 1 | 1 | 1 | 5 | | **14** |
| Sir Fynwy | 5 | | 1 | 4 | 2 | 2 | | **14** |
| Castell-nedd Port Talbot | | | | | | | 1 | **1** |
| Casnewydd | 1 | | | | | | | **1** |
| Sir Benfro | 2 | | 1 | | | | 1 | **4** |
| Powys | | | | 2 | | | | **2** |
| Rhondda Cynon Taf | 6 | | | 1 | | | | **7** |
| Dinas a Sir Abertawe | 8 | 34 | 1 | | | | 2 | **45** |
| Bro Morgannwg | 1 | | | | | | | **1** |
| Tor-faen | 10 | 1 | | 1 | 2 | 7 | 1 | **22** |
| Wrecsam | 3 | | | | | | | **3** |
| **CYFANSWM** | **92** | **36** | **6** | **16** | **9** | **18** | **10** | **187** |

Papurau Cefndirol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ein cyf: | PT/jm | Gofynnwch am: | James Merrifield |
| Eich cyf: | | ☏ | 01656 644 200 |
| Dyddiad: | 9 Gorffennaf 2013 | ✉ | James.Merrifield@ombwdsmon-cymru.org.uk |

Mr Richard Parry Jones
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Congor
Llandefni
Ynys Mon
LL77 7TW

Annwyl Richard

**Llythyr Blynyddol 2012-2013**

Yn sgil cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, mae'n bleser gennyf amgáu'r Llythyr Blynyddol (2012-2013) ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

Fel yr amlinellir yn fy Adroddiad Blynyddol, cynyddodd nifer y cwynion newydd i'm swyddfa 12% i'r hyn oedd yn 2011/12. Cwynion ynghylch iechyd yw'r cwynion mwyaf niferus o hyd a, bellach, maent i gyfrif am fwy na thraean o'r holl gwynion a ddaeth i law. Tai a chynllunio yw'r meysydd mwyaf wedi hynny o ran cwynion yn eu cylch er bod nifer y cwynion ynghylch cynllunio yn amlwg yn llai na'r rhai ynghylch tai, a hynny am y tro cyntaf ers i'r swyddfa ddod i fodolaeth (yn cyfrif am 16% a 12% o'r llwyth gwaith).

Wrth gyfeirio at berfformiad cyffredinol Cynghorau Sir/Bwrdeistrefol Sirol yng Nghymru, er y bu cynnydd o 35% yn nifer yr adroddiadau ymchwilio a gyhoeddwyd gan fy swyddfa yn ystod 2012/13 o'i gymharu â 2011/12, rwyf yn falch o nodi, er gwaethaf y cynnydd hwn, na fu cynnydd yn nifer gyfartalog yr adroddiadau 'wedi ei gadarnhau' a gyhoeddwyd yn erbyn Cynghorau Sir/Bwrdeistrefol Sirol. Er fy mod wedi cael achos i gyhoeddi nifer o Adroddiadau er Lles y Cyhoedd sy'n nodi pryderon a ffaeleddau - mae'r adroddiadau hyn i gyd wedi ymwneud â'r byrddau iechyd. Er gwaethaf hyn, buaswn yn annog yr holl gyrff yng Nghymru i ddarllen yr adroddiadau er mwyn dysgu unrhyw wersi cyffredinol sy'n briodol i'r gwasanaethau y maent yn eu rhoi.

Nodaf fod nifer gyfartalog yr 'Atebion Sydyn' a'r 'Setliadau Gwirfoddol' a gyflawnwyd gydag awdurdodau lleol yn is na'r nifer yn 2011/2012 - gostyngiad o bum achos i bedwar. Mae setliadau o'r fath yn ffordd effeithiol o ddatrys cwynion yn gynt heb fod rhaid cael ymchwiliad llawn. I'r perwyl hwn, mae crynodebau o atebion sydyn a setliadau gwirfoddol i'w gweld yn fy nghyhoeddiad chwarterol, 'Coflyfr yr

Ombwdsmon', os ydych yn dymuno manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu gwersi o'r mathau hyn o achosion.

Fodd bynnag, siomedig yw gorfod nodi nad yw'r amser y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ei gymryd i ymateb i geisiadau am wybodaeth gan fy swyddfa wedi gwella. Mae'n destun pryder i mi fod 45% o'r holl ymatebion wedi cymryd dros bum wythnos, gyda 28% o ymatebion yn cymryd dros 6 wythnos. Rwyf yn sylweddoli bod adnoddau wedi'u hymestyn i'r eithaf y dyddiau hyn, ond mae oedi o'r fath yn fy rhwystro rhag rhoi'r gwasanaeth y mae ganddynt yr hawl i'w ddisgwyl i achwynwyr. Rwyf yn annog yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ailedrych ar eu perfformiad.

Mewn perthynas â'ch Cyngor, mae gostyngiad wedi bod yn nifer y cwynion sydd wedi dod i law ac sydd wedi bod yn destun ymchwiliad, o gymharu â 2011/12 er bod y ddau ffigur yn uwch na'r cyfartaledd o hyd. Er bod gostyngiad hefyd wedi bod yn nifer y cwynion a gafodd eu 'cadarnhau' o gymharu â 2011/12, mae'r ffigur hwn hefyd yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd. O ran amseroedd ymateb eich Cyngor, siomedig yw nodi y derbyniwyd hanner yr ymatebion i geisiadau am wybodaeth gan fy swyddfa i dros chwe wythnos ar ôl gofyn amdanynt.

Fel gydag ymarferion blaenorol, bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar fy ngwefan. At hyn, os credwch ei fod yn fuddiol, buaswn yn falch o gwrdd â chi er mwyn trafod cynnwys y llythyr hwn a gwaith fy swyddfa.

Yn gywir,

Peter Tyndall
Ombwdsmon

## Atodiad

**Nodiadau Eglurhaol**
Mae adran A yn cymharu nifer y cwynion a dderbyniodd fy swyddfa yn erbyn y Cyngor yn 2012-2013 â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth[1]) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran B yn rhoi dadansoddiad o nifer y cwynion ynghylch y Cyngor a dderbyniodd fy swyddfa yn 2012/2013. Mae adran C yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor a dderbyniodd fy swyddfa yn 2012-2013 â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod hwn. Dadansoddir y ffigyrau'n ôl categorïau pwnc.

Mae adran D yn nodi nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor yr ymchwiliodd fy swyddfa iddynt yn 2012-2013. Mae adran E yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor yr ymchwiliwyd iddynt â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran F yn cymharu canlyniadau'r cwynion i'r Cyngor yn 2012-2013, â chyfartaledd y canlyniadau (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod. Cofnodir adroddiadau er Lles y Cyhoedd a gyhoeddir dan adran 16 Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus Ombwdsmon (Cymru) 2005 fel 'Adran 16'.

Mae adran G yn cymharu amseroedd ymateb y Cyngor yn 2012-2013, ag amseroedd ymateb cyfartalog yr holl awdurdodau lleol a'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Mae'r graff hwn yn mesur yr amser rhwng y dyddiad y cyhoeddodd fy swyddfa lythyr 'dechrau ymchwiliad' a'r dyddiad y mae'n derbyn ymateb llawn gan y corff cyhoeddus i'r llythyr hwnnw.

Mae adran H yn rhoi dadansoddiad o'r holl gwynion ynghylch y Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn erbyn Cynghorwyr yn 2011-2012. Yn olaf, yn adran 'I', ceir crynodebau o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd yng nghyswllt y Cyngor yn 2012-2013.


**Y Stoc Dai**
Fel gydag ymarferion cynt, nid yw ffigyrau 2012-2013 wedi'u haddasu i fwrw cyfrif o drosglwyddo'r stoc dai. Fodd bynnag, nodir ei bod yn debygol y bydd cyfran uwch o gwynion ynghylch tai pryd bynnag y bydd awdurdodau lleol wedi cadw eu stoc dai.

**Adborth**
Rydym yn croesawu adborth gennych am y wybodaeth amgaeedig, gan gynnwys syniadau am unrhyw wybodaeth i'w chynnwys mewn crynodebau blynyddol y dyfodol. Dylid anfon adborth neu ymholiadau at james.merrifield@ombudsman-wales.org.uk <mailto:james.merrifield@ombudsman-wales.org.uk>

---

[1] http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-262039

**A: Cymharu cwynion a ddaeth i law fy swyddfa gyda'r ffigur cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth**





**B: Cwynion a ddaeth i law fy swyddfa**


| Pwnc | 2012-2013 | 2011-2012 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 1 | 3 |
| Gweinyddu Budd-dadiadau | 1 | 3 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant | 1 | 1 |
| Addysg | 2 | 0 |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 2 |
| Cyllid a Threthiant | 0 | 0 |
| Tai | 2 | 2 |
| Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 13 | 11 |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 2 | 0 |
| Eraill Amrywiol | 2 | 4 |
| **Cyfanswm** | **25** | **26** |

## C: Cymharu cwynion yn ôl categori testun gyda'r ffigur cyfartalog ar gyfer awdurdodau lleol

### 2012-2013





### 2011-2012



**D:** **Cwynion yr aeth fy swyddfa â hwy ymlaen i ymchwiliad**

| | 2012-2013 | 2011-2012 |
|---|---|---|
| Nifer y cwynion yr aethpwyd â hwy i ymchwiliad | 2 | 5 |


**E:** **Cymharu'r cwynion y bu i'm swyddfa ymchwilio iddynt gyda'r ffigur cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth**





6

F: **Cymharu canlyniadau cwynion gyda'r canlyniadau cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth**

**2012-2013**





**2011-2012**





7

**G: Cymharu amseroedd Ynys Mon ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth ag amseroedd ymateb yr holl ALI a Chymru Gyfan ar gyfartaledd, 2012-2013 (%)**




**H: Cwynion y Cod Ymddygiad**



## I: Crynodebau'r adroddiadau

### Iechyd

### Cadarnhawyd

**Hydref 2012 – Arall – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn**
Cwynodd Ms A ar ran ei mam, Mrs B, a'i hewythr, Mr W, am y gofal a'r driniaeth a roddwyd i Mr W gan Gyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd Ms A yn cwyno'n fwyaf arbennig am y diffyg cyfathrebu â'r teulu, yn enwedig â'i mam yn ystod arhosiad Mr W mewn cartref nyrsio rhwng Gorffennaf 2008 a Chwefror 2011, ac ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty ar 21 Chwefror 2011.

Cadarnhaodd yr Ombwdsmon y gŵyn yn rhannol. Ar ôl cael cyngor gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig, nyrs iechyd meddwl cofrestredig a seiciatrydd ymgynghorol, canfu'r ymchwiliad fod lefel y cyfathrebu â'r teulu ynglŷn â gofal Mr W yn annigonol. Canfuwyd diffygion yng nghynllunio gofal ac ôl-ofal y Bwrdd Iechyd ac yn ei drefniadau cadw cofnodion, yn ogystal â methiant i ymateb i'r gŵyn gyntaf. Hefyd, gwelwyd fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer delio â chwynion a'i bolisi cwyno hefyd yn annigonol.

Gwnaeth yr Ombwdsmon nifer o argymhellion i roi sylw i'r methiannau a ganfuwyd, a oedd yn cynnwys argymhelliad bod y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn ymddiheuro am y methiannau cyfathrebu a chytuno y bydd ymateb ar y cyd yn cael ei wneud i gwynion o'r fath mewn achosion yn y dyfodol. Roedd yr Ombwdsmon hefyd yn argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd dalu iawndal o £300 i'r teulu am y methiant i ymateb i'r gŵyn, ac i gymryd camau priodol i roi sylw i unrhyw fethiannau o ran y Dull Rhaglen Ofal.
**Achos rhif 201101477 a 201101445**

**Mehefin 2012 – Triniaeth glinigol y tu allan i ysbyty – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn**
Cwynodd Mr a Mrs A am y gofal a'r driniaeth a roddwyd i frawd Mrs A, Mr H, a methiant y Bwrdd Iechyd i ddelio'n briodol â'u cwyn.

Ym mis Mai 2009, cafodd Mr H ei anfon a'i gadw mewn Uned Seiciatrig leol. Roedd hyn yn dilyn pryderon a godwyd gan Mr a Mrs A nad oedd Mr H yn bwyta nac yn yfed fel y dylai a'i fod yn esgeuluso'i hun. Gwnaethpwyd diagnosis o salwch iselhaol a symptomau seicotig. Ar ôl cael triniaeth dechreuodd ei gyflwr wella ac fe'i rhyddhawyd yng Ngorffennaf 2009.

Cyn gadael yr ysbyty, rhoddwyd Mr H ar raglen dull gofal uwch ("CPA"). Roedd y CPA uwch i fod i adlewyrchu'r ffaith bod angen ymyriad uwch a chynllun gofal cynhwysfawr ar yr unigolyn i leihau'r tebygrwydd o ailwaelu ar ôl dychwelyd i'r gymuned. Er mwyn helpu i gydlynu gofal Mr H, penodwyd Gweithiwr Cymdeithasol ("GC") o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ("CMHT"), sy'n cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, fel Cydlynydd Gofal Mr H. Rhan allweddol o gynllun gofal Mr H fyddai ymweliadau rheolaidd gan y GC. Yn dilyn tri ymweliad â chartref Mr H (ym mis Gorffennaf a Medi), unig gysylltiad y GC â Mr H wedi hynny oedd dros y ffôn. Yn dilyn cyfnodau pan fu'r GC yn sâl, ymddengys fod cysylltiad y gwasanaethau cymdeithasol wedi dod i ben, er bod Mr H wedi parhau i gadw'i apwyntiadau â'r

Seiciatrydd fel claf allanol. Ym mis Mawrth 2010, yn dilyn pryderon cymydog, canfuwyd Mr H yn farw yn ei gartref. Dangosodd canfyddiadau'r post mortem ei fod wedi marw o emboledd ysgyfeiniol (lle mae clotiau gwaed yn achosi i'r gwythiennau yn yr ysgyfaint i flocio) o ganlyniad i thrombosis gwythiennau dwfn.

Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon dystiolaeth o fethiannau systematig yn y ffordd yr oedd y CMHT yn cael ei redeg. Roedd mesurau rheoli gwael wedi effeithio'n andwyol ar y modd yr oedd staff y cyngor, gan gynnwys y GC, yn gweithredu yn y CMHT. Roedd methiant hefyd i fabwysiadu dull aml ddisgyblaeth cydlynus tuag at newidiadau yng nghynllun gofal Mr H. Roedd ymchwiliad yr Ombwdsmon yn cyd-fynd ag ymchwiliad blaenorol gan y Bwrdd Iechyd a ganfu nad oedd mesurau digonol ar waith i sicrhau eu bod yn cadw golwg ar gleientiaid yn effeithiol, megis Mr H, mewn cyfnodau pan oedd y GC yn absennol am gyfnod hir. Er nad oedd yr Ombwdsmon wedi canfod unrhyw broblemau â'r gofal clinigol a roddwyd i Mr H ar ôl ei ryddhau, roedd gan yr Ombwdsmon, er hynny, bryderon ynghylch pa mor effeithiol oedd y cydweithio rhwng y gweithwyr iechyd proffesiynol a'r gweithwyr cymdeithasol yn y CMHT i sicrhau bod Mr H yn cael gofal cydlynus. Ar ôl ystyried y diffygion a ganfuwyd, cadarnhaodd yr Ombwdsmon gŵyn Mr a Mrs A yn erbyn y Cyngor.

O ran delio â'r gŵyn, roedd yr Ombwdsmon yn feirniadol dros ben o'r ffordd yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi delio â chŵyn Mr a Mrs A. Tynnodd sylw at y diffygion yn ymateb y Prif Weithredwr ar y pryd i gŵyn Mr a Mrs A. Achos pryder arbennig oedd bod y Bwrdd Iechyd fel corff wedi peryglu ei allu i ddysgu gwersi a ddaeth i'r amlwg yn sgil cwyn Mr a Mrs A gan eu bod wedi dileu unrhyw gyfeiriadau at ddiffygion (a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor) yn yr ymateb i'r gŵyn. O ganlyniad, nid oedd pryderon Mr a Mrs A wedi cael sylw priodol. Arweiniodd proses y Bwrdd Iechyd ar gyfer delio â chwynion at yr Ombwdsmon i gadarnhau'r agwedd hon ar gŵyn Mr a Mrs A.

Ymhlith argymhellion yr Ombwdsmon oedd y dylai'r Cyngor a Phrif Weithredwyr Dros Dro'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro am y methiannau a nodwyd. Hefyd, gwnaethpwyd argymhellion i roi sylw i ffordd annigonol y Bwrdd Iechyd o ddelio â chwynion. Roedd hyn yn cynnwys talu iawndal o £500.00 i Mr a Mrs A i adlewyrchu'r anghyfleustra a achoswyd iddynt o ganlyniad i fethiannau'r Bwrdd Iechyd.

Argymhellodd yr Ombwdsmon hefyd y dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd fynd ati gyda'i gilydd i ganfod unrhyw wersi y gellid eu dysgu yn sgil yr adroddiad hwn ac i ddatblygu cynllun gweithredu. Yn olaf, argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn datblygu gweithdrefn i ddelio ag achosion o hunan esgeuluso.
**Cyfeirnod yr achos 201100506 a 201100509**

**Cynllunio a Rheoli Adeiladu**

**Ni Chadarnhawyd**

**Mehefin 2012 – Ymdrin â chais cynllunio – Cyngor Sir Ynys Môn**
Cwynodd Mrs C nad oedd y Cyngor wedi ei hysbysu'n briodol am gais cynllunio diwygiedig yr oedd datblygwr cyfagos wedi'i gyflwyno ar gyfer bloc o fflatiau. Cwynodd hefyd fod uchder y bloc o fflatiau wedi cael effaith niweidiol ar ei phreifatrwydd gan fod y fflatiau'n edrych drosti.

Ar ôl ystyried cyngor ei Gynghorydd Cynllunio, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y Cyngor wedi bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer rhoi gwybod am y datblygiad. Canfu'r ymchwiliad nad oedd y datblygiad a adeiladwyd yn cyd-fynd â'r caniatâd cynllunio gwreiddiol, ac roedd y Cyngor yn rhoi sylw i hyn ar wahân. Fodd bynnag, o ran y cais cynllunio gwreiddiol, roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y Cyngor wedi ystyried amwynderau'r preswylwyr gan gynnwys o safbwynt preifatrwydd. Tynnodd yr Ombwdsmon sylw at rai diffygion gweinyddol megis cadw cofnodion, ac roedd y Cyngor yn cymryd camau i roi sylw i hyn. Fodd bynnag, nid oedd yr Ombwdsmon yn teimlo y byddai'r diffygion hyn wedi cael unrhyw effaith berthnasol nac anffafriol ar achos Mrs C a'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio. Felly ni chafodd cwyn Mrs C ei chyfiawnhau.
**Cyfeirnod yr achos 201101519**

2012/13

## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Y tu allan i'r Awdurdod-aeth | Rhy gynnar | Achosion 'eraill' a gaewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Ateb Sydyn/ Setliad Gwirfoddol | Adroddiad A16 - Cadarnhau - yn llawn neu'n rhannol | Adroddiad arall - Cadarnhau - yn llawn neu'n rhannol | Adroddiad arall - Peidio â chadarnhau | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 3 | 4 | 6 | | 1 | | 1 | 1 | | **16** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 9 | 10 | | 1 | | 1 | | | **27** |
| Caerffili | 6 | 9 | 15 | 1 | 2 | | 3 | 1 | | **37** |
| Caerdydd | 12 | 39 | 26 | | 13 | | 2 | | 1 | **93** |
| Sir Caerfyrddin | 6 | 16 | 14 | 2 | 7 | | 4 | 1 | 1 | **51** |
| Ceredigion | 4 | 5 | 14 | 1 | 2 | | | 2 | 1 | **29** |
| Conwy | 3 | 10 | 9 | | 2 | | 1 | 1 | | **26** |
| Sir Ddinbych | 1 | 16 | 15 | | 2 | | 2 | 1 | 2 | **39** |
| Sir y Fflint | 5 | 14 | 12 | 1 | 8 | | 1 | | 1 | **42** |
| Gwynedd | 4 | 11 | 9 | | 2 | | 3 | | 1 | **30** |
| Ynys Môn | 4 | 7 | 11 | | | | 2 | 1 | | **25** |
| Merthyr Tudful | 4 | 9 | 5 | | 1 | | | | | **19** |
| Sir Fynwy | 4 | 7 | 8 | 1 | 2 | | 1 | | 1 | **24** |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 | 17 | 13 | | 1 | | | 1 | | **35** |
| Casnewydd | 5 | 5 | 5 | | 1 | | | | 2 | **18** |
| Sir Benfro | 6 | 17 | 19 | | 4 | | 2 | 1 | | **49** |
| Powys | 4 | 14 | 18 | 1 | 7 | | 4 | | 1 | **49** |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 22 | 17 | | 1 | | 2 | | | **47** |
| Dinas a Sir Abertawe | 5 | 14 | 20 | 1 | 7 | | 1 | | 2 | **50** |
| Bro Morgannwg | 5 | 11 | 13 | | 2 | | | | | **31** |
| Tor-faen | 5 | 3 | 11 | | | | | 2 | 1 | **22** |
| Wrecsam | 6 | 15 | 13 | | 3 | | 2 | | 1 | **40** |
| **CYFANSWM** | **106** | **274** | **283** | **8** | **69** | | **32** | **12** | **15** | **799** |

2011/12



## CYNGYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Y tu allan i'r Awdurdod-aeth | Rhy gynnar | Achosion 'eraill' a gaewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Ateb Sydyn/ Setliad Gwirfoddol | Adroddiad A16 - Cadarnhau - yn llawn neu'n rhannol | Adroddiad arall - Cadarnhau - yn llawn neu'n rhannol | Adroddiad arall - Peidio â chadarnhau | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 1 | 1 | 3 | | 2 | | 1 | | | **8** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | 12 | 8 | | 3 | | | 2 | | **27** |
| Caerffili | 6 | 21 | 20 | | 5 | | | 1 | 1 | **54** |
| Caerdydd | 12 | 32 | 27 | | 8 | 1 | 9 | 1 | | **90** |
| Sir Caerfyrddin | 7 | 19 | 25 | | 5 | 1 | 1 | 4 | | **62** |
| Ceredigion | 4 | 10 | 9 | | 2 | | 1 | 2 | | **28** |
| Conwy | 5 | 9 | 6 | | 4 | | | | | **24** |
| Sir Ddinbych | 1 | 17 | 11 | 1 | 4 | | 2 | | 1 | **37** |
| Sir y Fflint | 4 | 13 | 13 | 2 | 3 | | 1 | | | **36** |
| Gwynedd | 6 | 17 | 8 | | 5 | | 2 | | 1 | **39** |
| Ynys Môn | 3 | 10 | 6 | 1 | 3 | 1 | 4 | 1 | | **29** |
| Merthyr Tudful | 8 | 1 | 4 | | 3 | | | | | **16** |
| Sir Fynwy | 4 | 20 | 12 | | 1 | | 1 | | | **38** |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 | 19 | 9 | | 1 | | 1 | 1 | | **37** |
| Casnewydd | 3 | 5 | 7 | 2 | 2 | | 1 | | | **20** |
| Sir Benfro | 4 | 9 | 20 | | 4 | | | 1 | | **38** |
| Powys | 7 | 11 | 9 | | 3 | | 2 | | | **32** |
| Rhondda Cynon Taf | 4 | 28 | 16 | | 4 | | 2 | | | **54** |
| Abertawe | 7 | 20 | 21 | | 5 | | 4 | | 1 | **58** |
| Bro Morgannwg | 6 | 12 | 11 | 1 | 2 | | | | | **32** |
| Tor-faen | 3 | 11 | 8 | 1 | 1 | | | 1 | | **25** |
| Wrecsam | 9 | 15 | 15 | | 8 | 1 | 1 | 1 | | **50** |
| **CYFANSWM** | **112** | **312** | **268** | **8** | **78** | **4** | **33** | **15** | **4** | **834** |

2010/11

## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Y tu allan i'r Awdurdodaeth | Rhy gynnar | Dim cyfiawnhad dros ymchwilio | Terfynu | Ateb Sydyn/ Setliad Gwirfoddol | Adroddiad A16 - Cadarnhau - yn llawn neu'n rhannol | Adroddiad arall - Cadarnhau - yn llawn neu'n rhannol | Adroddiad arall - Peidio â chadarnhau | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 2 | 4 | 5 | | | | 1 | | | **12** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | 9 | 13 | 2 | 3 | | 6 | 4 | 1 | **40** |
| Caerffili | 7 | 28 | 13 | 1 | 2 | | 10 | 2 | 3 | **66** |
| Caerdydd | 16 | 33 | 23 | 2 | 4 | | 11 | 3 | 1 | **93** |
| Sir Caerfyrddin | 12 | 26 | 21 | 1 | 1 | | 3 | 2 | 1 | **67** |
| Conwy | 4 | 9 | 12 | | 1 | | 2 | 2 | 1 | **31** |
| Ceredigion | 1 | 19 | 12 | | 2 | | 2 | 3 | | **39** |
| Sir Ddinbych | 2 | 12 | 11 | | 4 | | 3 | | 2 | **34** |
| Sir y Fflint | 1 | 11 | 13 | 2 | 5 | | 5 | | 2 | **39** |
| Gwynedd | | 18 | 12 | 1 | 2 | 1 | 3 | 2 | | **39** |
| Ynys Môn | 5 | 12 | 10 | 1 | 4 | 1 | 3 | 3 | | **39** |
| Merthyr Tudful | 2 | 9 | 4 | 1 | | 1 | 1 | | 1 | **19** |
| Sir Fynwy | 3 | 6 | 7 | | | | 5 | 1 | | **22** |
| Castell-nedd Port Talbot | 4 | 20 | 18 | 1 | 2 | | | 3 | | **48** |
| Casnewydd | 4 | 18 | 3 | | 5 | | 1 | 1 | 1 | **33** |
| Sir Benfro | 2 | 19 | 17 | | 3 | | 1 | 2 | | **44** |
| Powys | 4 | 19 | 18 | | 5 | 1 | 14 | 4 | 2 | **67** |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 21 | 24 | 2 | 3 | | 4 | 2 | 3 | **64** |
| Abertawe | 4 | 15 | 20 | 2 | 2 | | 4 | 1 | | **48** |
| Bro Morgannwg | 3 | 12 | 14 | 9 | 4 | | 8 | 2 | 1 | **53** |
| Tor-faen | 2 | 11 | 8 | | 3 | | | 2 | 2 | **28** |
| Wrecsam | 2 | 18 | 4 | 1 | 6 | | 7 | 2 | 2 | **42** |
| **CYFANSWM** | **87** | **349** | **282** | **26** | **61** | **4** | **94** | **41** | **23** | **967** |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **9 MEDI 2013** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB CHWARTER CYNTAF 2013/14 - GYFALAF** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **CLARE J WILLIAMS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **CLARE J WILLIAMS (EST. 2601)** |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Fel y gall y Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am fonitro cyllidebau ar lefel gorfforaethol.

**A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion**

**1. CEFNDIR**

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Yn Atodiad A, fe geir crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Mehefin.

**2. CYNNYDD**

**2.1** Roedd y gwariant hyd ddiwedd mis Mehefin yn £2.2m ar gynlluniau cyffredinol, sy'n cyfateb i 13% o'r gyllideb gyfan. Mae hyn dipyn o flaen yr un cyfnod y llynedd (£1.8m, 12%). Roedd gwaith ar rai cynlluniau mawr yn mynd rhagddo yn ystod chwarter cyntaf 2012/13 ond roedd wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, yr un mwyaf sylweddol oedd y Cynllun Amgylchedd Arfordirol. Yn ychwanegol at hyn, gwariwyd llai ar dri chynllun sylweddol arall yn ystod y chwarter hwn o gymharu â'r un cyfnod llynedd; (i) cafodd y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau ei haddasu llynedd oherwydd bod derbyniadau cyfalaf ar ei hôl hi o gymharu â gwariant ac mae'r thema honno wedi parhau eleni; (ii) roedd y gwaith ar y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig ym Mhenhesgyn bron yn gyflawn erbyn diwedd 2012/13, gyda llai o wariant eleni; a (iii) Cynllun y Tair Tref (Cydgyfeiriant).

**2.2** Y gwariant hyd ddiwedd mis Mehefin ar gynlluniau tai oedd £0.4m, sef 6% o gyllideb gyfan dai. Mae hyn yn lefel llawer is na llynedd (£1.8m, 15%) oherwydd y gwaith ar y rhaglen SATC (oedd yn gyfrifol am £1.3m o'r gwariant yn Chwarter 1 o 2012/13), a gwblhawyd yn y trydydd chwarter o 2012/13.

**2.3** Mae'r cyfanswm gwariant hyd at ddiwedd Mehefin yn 11% o'r gyllideb. Mae hyn oherwydd bod gwariant ar nifer o'r cynlluniau mawr yn digwydd tuag at ail hanner y flwyddyn.

**2.4** Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio fel arfer ar gynlluniau a gyllidir gydag arian grant a phrosiectau eraill lle gall fod risg sylweddol os bydd y prosiectau'n llithro neu os bydd gorwariant. Fel y dywedwyd eisoes, mae nifer y prosiectau a gyllidir gan grantiau wedi lleihau yn dilyn toriadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er bod rhai prosiectau mawr a gyllidir gyda Grantiau Ewropeaidd ar y gweill (sef cynllun y Tair Tref a phrosiect Safleoedd ac Adeiladau Llangefni a Mona). Hefyd, mae saith o brosiectau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ar y gweill (tri yn parhau o 2012/13), y mwyaf sylweddol oedd y cynllun i adleoli Ysgol y Bont.

**2.4.1** Y tri phrosiect mwyaf amlwg o ran risg yw:-

- Y gyllideb ar gyfer adleoli Ysgol y Bont yw £6.3m (yn cynnwys llithriant o £1.8m) ar gyfer 2013-14 allan o'r cyfanswm a gymeradwywyd ar gyfer y prosiect, sef cyllideb o £10.9m (70% wedi ei gyllido gan Llywodraeth Cymru). Dywedwyd eisoes bod y prosiect sawl wythnos ar ei hôl hi ar ddiwedd 2012/13, yn bennaf oherwydd y tywydd gwael. Chafodd hynny ddim effaith ar yr hawl i grant ar gyfer y flwyddyn honno a hawliwyd y grant llawn. Disgwylir y bydd y prosiect wedi ei gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2013. Nid oes disgwyl y bydd hyn yn cael effaith ar yr hawl i dderbyn cymorth grant oherwydd disgwylir i'r targedau gwariant a osodwyd gan LIC gael eu cyflawni yn seiliedig ar y rhagamcanion diweddaraf o ran llif arian. Mae yna risg o orwario oherwydd y cyfnod adeiladu estynedig ond gwnaed darpariaeth wrth gefn. Fodd bynnag, mae yna risg na fydd yr arian wrth gefn yn ddigonol a bydd gorwariant ar y prosiect. Nid yw'n bosibl rhagamcan yn glir ar hyn o bryd ond mae'r prosiect yn cael ei fonitro'n agos a bydd unrhyw risgiau a nodwyd yn cael eu lliniaru i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

- Mae'r rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau (cyllid ar ei chyfer wedi ei neilltuo o'r derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu'r mân-ddaliadau) yn ei phedwaredd flwyddyn ac mae'r rhestr waith sydd wedi ei flaenoriaethu ar gyfer eleni wedi cyrraedd y cyfnod tendro ar yr amod y ceir caniatâd i gychwyn gwaith ar y safle. Mae'r rhaglen ar gyfer cynhyrchu incwm wedi cael ei hadolygu ymhellach er mwyn adlewyrchu cyflwr y farchnad sy'n golygu fod amseriad derbyniadau cyfalaf wedi bod ar ei hôl hi o gymharu â gwariant dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar y blaen i'r derbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £1,590k wedi ei ddwyn ymlaen o 2012/13. Rhagwelir y bydd y newidiadau i'r rhaglen waith a gwerthu'r mân-ddaliadau yn golygu y bydd y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa ariannol gytbwys/gwarged yn ystod 2013/14. Bydd y rhaglen wariant yn cael ei hadolygu ymhellach yn ystod y flwyddyn cyn ymrwymo i waith pellach ar y safle ac yn wyneb y datblygiadau sy'n mynd rhagddynt mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf.

- Y cynllun olaf i'w nodi yw prosiect Pier Biwmares (rhan o'r Cynllun Amgylchedd Arfordirol). Er bod y gwaith adnewyddu wedi cael ei gwblhau, nodwyd eisoes fod trafodaethau'n parhau ynghylch gwerth gwirioneddol y gwaith a wnaed dan y contract. Efallai y bydd rhaid i'r Cyngor dalu swm ychwanegol dan y contract gwaith ond ni fedrir asesu faint gydag unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd.

**B – Ystyriaethau**

## 3. ADNODDAU

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae bidiau'r Cyngor eisoes wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid Cydgyfeiriant cyfredol, uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac mae'r cyllid cyfatebol hefyd wedi cael ei glustnodi ar gyfer y cynlluniau hyn. Ers diwedd y chwarter, mae cyfle wedi codi i fidio am arian ychwanegol o'r Cynllun Amgylchedd Arfordirol a allai olygu y bydd hyd at £1.5m ychwanegol ar gael. Ar hyn o bryd, mae'r cynigion wrthi'n cael eu cwblhau ac ymchwiliadau'n mynd rhagddynt ar gyfer cyfleoedd i gael cyllid cyfatebol.

**3.1.2** Daw rhaglen ardal adfywio gyfredol LIC (gan gynnwys Môn a Menai) i ben ddiwedd y flwyddyn hon. Bydd y rhaglen hon yn cael ei disodli o 2014/15 gan fframwaith adfywio newydd ar gyfer Cymru o'r enw 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Rhyddhaodd hyn £90m ar draws Cymru am gyfnod o dair blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Mae'r cyllid yn cael ei dargedau gan Lywodraeth Cymru i lefydd o bwys strategol sydd mewn angen economaidd a bydd yn cynnwys adfywio ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, canol trefi neu drefi glan môr. Cyflwynwyd Rhaglen Amlinellol Strategol (RhSA) yr Awdurdod hwn ychydig wedi diwedd chwarter 1 (ym mis Gorffennaf) ac mae'n canolbwyntio ar Gaergybi, gyda bid o £9.6m. Oherwydd bod y cyllid wedi ei dargedu a'i fod yn gyfyngedig, dim ond ychydig o fidiau rownd gyntaf fydd yn llwyddo. Disgwylir y canlyniad ym mis Medi.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Mae'r derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio ar gyfer eleni ac y cyllidebwyd ar eu cyfer, ar ôl effaith canlyniadau 2012-13 a'r derbyniadau hyd yma, fel a ganlyn:-

| | **Cyllideb £'000** | **Derbyniwyd hyd at 30 Mehefin 2013 £'000** |
|---|---|---|
| Tai – CRT | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 75 | Dim |
| Gwerthu Tir | 500 | Dim |
| | | |
| Tai Sector Preifat | | |
| Gwerthu Plotiau | | |
| Taliadau a ad-dalwyd | }150 | 14 |
| Grantiau a ad-dalwyd | | |
| | | |
| Cronfa'r Cyngor : | | |
| Mân-ddaliadau | [250] | Dim |
| Cyffredinol | | |
| Diwydiannol | }600 | 100 |

*Incwm Mân-ddaliadau yn erbyn cyllideb ddangosol

** Mae cyllid yr Awdurdod yn y flwyddyn ar gyfer adleoli Ysgol y Bont yn deillio o dderbyniadau cyfalaf a ragwelir pan fydd safle Ysgol y Graig yn cael ei werthu yn y dyfodol.

**3.2.2** Mae derbyniadau cyfalaf CRT yn fyr o'r gyllideb, heb unrhyw werthiannau yn y chwarter cyntaf. Disgwylir y bydd tai yn cael eu gwerthu dan yr hawl i brynu yn ystod gweddill y flwyddyn.

**3.2.3** Mae derbyniadau cyfalaf tai sector preifat gryn dipyn yn is na'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Mae'r derbyniadau hyn yn fwy heriol i'w rhagamcan oherwydd maent yn dibynnu ar weithredoedd y sawl sy'n derbyn yr arian.

**3.2.4** Mae derbyniadau cyfalaf cronfa'r Cyngor £0.5m yn fyr o'r gyllideb flynyddol. Fodd bynnag, oherwydd y gweithgareddau gwerthu a'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, disgwylir y bydd modd cwrdd â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.2.5** Mae'r derbyniadau cyfalaf o'r mân-ddaliadau'n cael eu trafod yn Adran 2.4.3.

## 4. NEWIDIADAU A NEWIDIADAU POSIB ELENI

**4.1** Nid oes unrhyw newidiadau neu newidiadau posib wedi dod i'r amlwg, ar wahân i'r rheini yr adroddwyd arnynt yn yr adroddiad blaenorol.

**4.2** Mae'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu fel a ganlyn:-

| | **Dygwyd Ymlaen 2012-13 £000** | **Cyllideb 2013-14 £'000** | **Dyrannwyd 2013-14 £'000** | **Cyfanswm swm ar gael 2013-14 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cyfatebol/ Adfywio | **784** | Dim | Dim | 784 |
| Cronfa wrth gefn – Gwelliannau Hamdden | **197** | Dim | Dim | 197 |
| Rhesymoli Asedau | **1,272** | 850 | Dim | 2,122 |
| Heb ei dyrannu | **460** | Dim | Dim | 460 |
| Astudiaethau Dichonoldeb | **460** | Dim | Dim | 460 |
| Benthyca digefnogaeth* | **Dim** | 1,000 | Dim | 1,000 |

*Nid yw'r elfen honno o'r arian wrth gefn ar gyfer benthyca di-gefnogaeth yn cael ei gario i'r flwyddyn newydd

Yn yr adroddiad ar ganlyniadau 2012/13, dywedwyd bod yr arian wrth gefn a oedd heb ei ddyrannu yn £1m. Wedi adolygu adnoddau cyfalaf ac wedi ystyried y diffyg mewn derbyniadau cyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf, gweithiwyd allan mai'r terfyn fforddiadwy ar gyfer yr arian wrth gefn oedd £460k.

Os daw'n amlwg na fydd modd sicrhau'r derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer, efallai y bydd rhaid defnyddio llai o'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu.

## 5. EDRYCH YMLAEN

**5.1** Mae dau gynllun y mae'n werth sôn amdanynt yma; rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru a'r rhaglen rhesymoli asedau.

**5.2** Mae dwy elfen i'w nodi o ran rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$, sef yr Achos Strategol Amlinellol (ASA) ar gyfer y cynlluniau Band A a'r Rhaglen Strategol Amlinellol (RhSA) ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

**5.2.1** Roedd yr ASA Band A a gymeradwywyd ar y cychwyn yn cynnwys un cynllun ar gyfer ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r cynllun wedi ei ohirio am y tro er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith ymchwilio a gwerthuso opsiynau ac mae'r sefyllfa honno'n parhau. Rhagwelir y bydd yr ASA Band A yn cael ei gyflwyno i LIC yn fuan yn 2014.

**5.2.2** Mae RhSA diwygiedig wrthi'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Mae'r RhSA yn cynnwys y rhaglen gyfan (Bandiau A i D). Dywedwyd eisoes y byddai'r drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno erbyn canol Mehefin 2013. Oherwydd amgylchiadau megis trafodaethau gyda LIC ynglŷn â'r pecyn cyllido a fydd ar gael, nid yw'r RhSA diwygiedig wedi ei chwblhau eto.

**5.2.3** Adroddir ar wahân ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran ASA a RhSA Band A a bydd diweddariadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarterol hyn fel sy'n briodol.

**5.3** Dywedwyd eisoes fod Partneriaethau Lleol wedi bod yn gweithio gyda swyddogion i wneud gwaith gwerthuso opsiynau mewn perthynas â rhaglen rhesymoli asedau'r Cyngor. Cafodd adroddiad ar 'Gwerthuso Opsiynau ar gyfer Datrysiadau Darparu Posib' ei gyflwyno'n gynharach yn y flwyddyn. Ers hynny, parhawyd i ddefnyddio Partneriaethau Lleol i wneud gwaith pellach yn ystod yr haf er mwyn datblygu cynigion sydd wedi eu halinio gyda thrawsnewid gwasanaethau allweddol a'r gofynion cysylltiedig o ran asedau. Bwriedir i'r gwasanaethau perthnasol gyflwyno eu cynlluniau trawsnewid yn y man.

| **C – Goblygiadau ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Mae materion yn gysylltiedig ag Eiddo yn gynwysedig yn yr adroddiad . |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | |

## CH – Crynodeb

Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Mehefin yn £2.2 (13% o'r gyllideb gyfan). Gwariwyd £0.4m ar gynlluniau tai (6% o gyllideb gyfan dai) hyd at fis Mehefin. Roedd y gwariant cyffredinol yn 11% o'r gyllideb gyfan gan fod gwariant ar nifer o'r cynlluniau mwy, yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Mae yna gynlluniau y mae risgiau ynghlwm wrthynt o ran mynd dros y gyllideb neu sy'n ymwneud â derbyn cyllid grant. Y cynlluniau o bwys y dylid eu nodi yw adleoli Ysgol y Bont, y trafodaethau terfynol ar gyfer gwaith adnewyddu Pier Biwmares a rhaglen wella'r mân-ddaliadau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau fod unrhyw risgiau sy'n codi o'r holl gynlluniau yn cael eu nodi a'u lleihau.

Yn ystod y chwarter, gwnaed gwaith i baratoi'r fid ar gyfer y cynllun sydd yn disodli rhaglen gyfredol LIC ar gyfer ardaloedd adfywio. Enw'r cynllun newydd yw 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' a chawn wybod beth fydd canlyniad bid yr Awdurdod hwn (£9.6m) ym mis Medi. Ers diwedd y chwarter, cododd cyfle i fidio am arian ychwanegol dan y Cynllun Amgylchedd Arfordirol (Cydgyfeiriant). Mae'r cynigion wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a gallant arwain at gyllid ychwanegol o hyd at £1.5m ar gyfer cynlluniau newydd.

Cyfanswm y derbyniadau cyfalaf i ddiwedd Mehefin oedd £0.1m (ac eithrio derbyniadau a oedd wedi eu neilltuo'n benodol i'r mân-ddaliadau) ac roedd y cyfan yn dderbyniadau i Gronfa'r Cyngor. Disgwylir y bydd derbyniadau cyfalaf cyffredinol a diwydiannol yn cwrdd â'r £0.6m a gyllidebwyd erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd derbyniadau cyfalaf ar gyfer y mân-ddaliadau sydd wedi cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer y rhaglen gwella mân-ddaliadau, £1.7m ar ei hôl hi o gymharu â gwariant hyd at 30 Mehefin. Disgwylir i'r rhaglen mân-ddaliadau fod mewn sefyllfa gytbwys neu sefyllfa o warged erbyn diwedd y flwyddyn.

Gan edrych ymlaen, mae yna ddau gynllun o bwys y dylid eu nodi; sef rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a'r rhaglen rhesymoli asedau. Mae RhSA ddiwygiedig ar gyfer rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif wrthi'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Yna, disgwylir y bydd yr ASA ar gyfer Band A yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2014. O ran y rhaglen rhesymoli asedau, mae Partneriaethau Lleol yn parhau i gynorthwyo gwasanaethau a bwriedir i'r gwasanaethau perthnasol gyflwyno eu cynlluniau trawsnewid yn y man.

## D - Argymhelliad

Nodi cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**Enw awdur yr adroddiad:** Clare J Williams
**Swydd:** Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)
**Dyddiad:** 19 Awst 2013

| **Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A: Cyllideb Cyfalaf 2013-14 - Crynodeb : Mehefin 2013 |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| Dim |

**CLARE J WILLIAMS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** **19 AWST 2013**

# Atodiad A

## Cyllideb Cyfalaf 2013-14 : Mehefin 2013

| Prosiectau | Cyllideb 2012-13£'000 | Llithriad 2011-12 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | Gwariant % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | **5,848** | **1,227** | **7,075** | **428** | **6** | |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 4,948 | 0 | 4,948 | 300 | 6 | Mae’r gwariant yn y chwarter cyntaf yn isel wrth i’r prosiectau ennill momentwm, gyda’r rhan helaeth o’r gwariant yn cymryd rhan yn ystod ail hanner y flwyddyn. Y gwariant cymharol ar gyfer Chwarter 1 2012/13 oedd £1.8m, sef 15% o’r gyllideb. Y rheswm am y gwahaniaeth sylweddol yw bod y rhaglen SATC wedi ei gwblhau yn 2012/13 a hwnnw oedd yn gyfrifol am y rhan helaeth o’r gwariant. |
| Preifat : Grantiau | 900 | 774 | 1,674 | 128 | 8 | Disgwylir i’r cynlluniau grantiau a benthyciadau ennill mwy o fomentwm yn ystod y flwyddyn gyda disgwyl y bydd rhan sylweddol o’r gyllideb wedi ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Tai Fforddiadwy | 0 | 453 | 453 | 0 | 0 | Cynigion yn cael eu hystyried ar gyfer blaenoriaethau’r gyllideb. Yn 2012-13, roedd rhan sylweddol o’r gwariant ar ffurf grant i Gymdeithas Tai Eryri tuag at y cynllun “Prynu Cartref / Achub Morgais”. Mae taliad tebyg yn cael ei ystyried y flwyddyn hon, er yn erbyn blaenoriaethau gwariant sy’n cystadlu. |
| **Addysg** | **6,185** | **2,712** | **8,897** | **1,479** | **17** | |
| Ysgol y Bont – Adleoli | 4,500 | 1,868 | 6,368 | 1,307 | 21 | Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd y prosiect nifer o wythnosau ar ei hôl hi ar ddiwedd 2012/13, yn bennaf oherwydd tywydd gwael. Ni wnaeth hyn gael effaith ar yr hawl i grant am y flwyddyn honno, gyda’r grant yn cael ei hawlio’n llawn. Disgwylir i’r prosiect gael ei gwblhau ddiwedd Rhagfyr 2013. Ni ddisgwylir i hyn gael effaith ar hawl i grant, a disgwylir i’r targedau gwariant a osodwyd gan LIC gael eu cyflawni yn seiliedig ar y rhagamcanion llif arian diweddaraf. Mae yna risg o orwariant o ganlyniad i’r cyfnod adeiladu estynedig, ond fe wnaed trefniant arian wrth gefn ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae risg na fydd yr arian hwnnw yn ddigonol ac y bydd y prosiect yn gorwario. Nid yw’n bosibl ar hyn o bryd i wneud rhagamcanion cliriach ond mae’r prosiect yn cael ei fonitro’n agos ac mae unrhyw risgiau a nodir yn cael eu lliniaru i’r graddau y mae hynny’n bosibl. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A – Ysgol Gynradd Newydd Caergybi | 545 | 42 | 587 | 3 | 1 | Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae’r Achos Amlinellol Strategol (SOC) ar gyfer y Cynllun Band A (ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi) wedi cael ei ohirio am y tro tra bod ymchwiliadau a gwaith gwerthuso opsiynau yn cael ei wneud. Rhagwelir y bydd y SOC hwn yn cael ei gyflwyno i LIC yn gynnar yn 2014. |
| Grant Cyfalaf Dechrau’n Deg 2013/14 | 550 | 0 | 550 | 0 | 0 | Ceisiwyd cael caniatâd gan LIC i ddiwygio’r cynlluniau gwariant er mwyn cael gwell aliniad i’r blaenoriaethau gwariant a’r anghenion ac i allu gwneud rhagamcan newydd a mwy diweddar o gostau. Disgwylir am y cadarnhad hwn ac, efallai, y ceir newid yn y gyllideb. Yn amodol ar ganiatâd LIC disgwylir y bydd yr holl brosiectau a fwriadwyd yn cael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn gydag arian grant yn cael ei hawlio. |
| Grant Dysgu yng Nghymru Ddigidol (LiDW) 2013/14 | 590 | 0 | 590 | 0 | 0 | Mae LIC wedi cymeradwyo’r cynlluniau gwariant manwl ac mae’r prosiect ar droed bellach. Disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ar amser (erbyn diwedd Ionawr 2014) gyda’r grant yn cael ei hawlio’n llawn. |
| Addysg : Arall | 0 | 802 | 802 | 169 | 21 | Mae hwn yn ymwneud â chynlluniau gwaith bychan mewn gwahanol ysgolion. Mae’r cyllidebau wedi eu hymrwymo’n llawn ac mae’r cynnydd yn ôl y disgwyl. |
| **Adfywio** | **5,505** | **-568** | **4,937** | **624** | **13** | |
| Datblygu Economaidd: Seilwaith Strategol - Safleoedd ac Eiddo | 300 | 150 | 450 | 0 | 0 | Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae’r cynllun yn y cyfnod paratoi gyda swyddog prosiect ac ymgynghorwyr dylunio pensaernïol wedi eu penodi a’r cynllun meistr yn cael ei ddatblygu. Disgwylir i’r cais cynllunio gael ei gyflwyno, a disgwylir penderfyniad y mis Medi hwn. Disgwylir i’r cynllun fod wedi ei gwblhau yn 2014/15. |
| Datblygu Economaidd: Arall | 70 | 866 | 936 | 20 | 2 | Mae hwn yn ymwneud yn bennaf ag arian cyfatebol a chyllido partneriaethau gyda’r ddau ohonynt bron wedi eu hymrwymo’n llawn. |
| Eiddo: Rhaglen Gwella’r Mân-ddaliadau | 250 | -1,590 | -1,340 | 141 | -11 | Mae'r rhaglen gwella mân-ddaliadau yn ei phedwaredd flwyddyn ac mae’r gwaith a flaenoriaethwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi ei wneud hyd at y cyfnod tendro, gan ddisgwyl am ganiatâd i ddechrau gwaith ar y safle. Bu’r rhaglen o gynhyrchu incwm o dan adolygiad pellach er mwyn adlewyrchu cyflwr gwan y farchnad, gyda’r canlyniad i amseru derbyniadau cyfalaf ddisgyn y tu ôl i wariant dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae’r rhaglen yn parhau i fod ar y blaen i dderbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £1,589k ar ddiwedd blwyddyn 2012/13. Rhagwelir y bydd y newidiadau i’r rhaglen waith a gwerthiant mân-ddaliadau yn gweld y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa o falans/gwarged yn ystod 2013/14. Bydd y rhaglen wariant yn cael ei hadolygu ymhellach yn ystod y flwyddyn cyn ymrwymo i waith pellach ar y safle ac yng ngoleuni datblygiadau pellach yng nghyswllt derbyniadau cyfalaf. |

| Prosiectau | Cyllideb 2012-13£'000 | Llithriad 2011-12 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | Gwariant % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Gwastraff : Safle Mwynderau Penhesgyn | 0 | 6 | 6 | 212 | 3533 | Cwblhawyd y Safle Ailgynhyrchu Gwastraff Domestig a'i hagor fis Gorffennaf. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cynyddwyd y gyllideb gychwynnol o £850k i £1m fel y gallai gwaith ychwanegol gael ei wneud. Cafwyd mwy o wariant yn Chwarter 2 y flwyddyn hon a disgwylir y bydd y prosiect yn gorwario ar y gyllideb £1m gan oddeutu £0.3m. Mae rhan o'r gorwariant i'w briodoli i'r dyluniadau / cynlluniau cychwynnol ac mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i opsiynau i leihau'r gost derfynol i'r Awdurdod, tra comisiynwyd gwaith ychwanegol, sef adeiladu slab ychwanegol ar gyfer storio gwastraff gwyrdd a gwaith concritio pellach ar gyfer lonydd mynediad a pharcio ceir. |
| Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 2,000 | 0 | 2,000 | 50 | 3 | Mae rhan sylweddol o'r gyllideb yn ymwneud â phrosiectau Menter Treftadaeth Treflun Caergybi. Mae'r cynllun yn ennill momentwm gyda chynnydd sylweddol mewn ceisiadau a dyfarniadau yn cael eu disgwyl dros y misoedd i ddod. |
| Priffyrdd: Menter Benthyca Llywodraeth Leol 2013/14 | 1,800 | 0 | 1,800 | 201 | 11 | Disgwylir i'r gwaith ennill momentwm yn ystod y flwyddyn, a hynny tuag at ail hanner y flwyddyn. Disgwylir y bydd yr holl waith a raglennwyd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Priffyrdd: Grant Consortia Cludiant Rhanbarthol 2013/14 | 663 | 0 | 663 | 0 | 0 | Grant yw hwn ar gyfer diogelwch y ffyrdd a chynlluniau cludiant. Mae gan y cynlluniau diogelwch y ffyrdd ddyraniad grant o £105k. Mae gwaith paratoadol ar droed ond nid oes unrhyw waith wedi dechrau ar y safle. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn ceisio cael caniatâd i wneud gwelliant i'r rhaglen. Mae dyraniad grant o £558k ar gyfer y cynlluniau cludiant. Mae gwaith paratoadol ar droed, gyda'r mwyafrif o'r gwariant yn cael ei ddisgwyl yn ail hanner y flwyddyn. Mae'r gwaith wedi ei bwyso tuag at ail hanner y flwyddyn gan na chafwyd cadarnhad o gyllid grant ond ym mis Ebrill y flwyddyn hon. |
| Priffyrdd : Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau 2013/14 | 422 | 0 | 422 | 0 | 0 | Ers diwedd y chwarter mae gwaith wedi cychwyn ar y safle. Mae'r prosiect yn golygu rhai agweddau mwy cymhleth fel pwrcasu tir, dylunio ac ymgynghori. Mae'r cynnydd ar hyn o bryd fel y disgwyl. Disgwylir i ran sylweddol o'r cynllun fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr, gyda disgwyl y bydd y grant wedi ei defnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn. |
| **Arall** | **1,300** | **1,655** | **2,955** | **131** | **4** | |
| Priffyrdd: Arall | 650 | 188 | 838 | 23 | 3 | Mae un rhan o dair y gyllideb hon yn ymwneud â'r gyllideb am gerbydau, gyda gwaith gwerthuso opsiynau'n parhau a gwariant a gafwyd yn yr ail chwarter. Mae gweddill y gyllideb yn ymwneud â gwaith ail-wynebu, strwythurau a goleuadau stryd. Disgwylir i wariant gyda hyn gynyddu, gyda'r gwaith wedi ei bwyso tuag at ail hanner y flwyddyn. |
| Eiddo: Arall | 650 | 321 | 971 | 101 | 10 | Mae hwn yn ymwneud yn bennaf â mynediad i'r anabl a gwaith rheoli risg adeiladau, gyda'r cyllidebau wedi eu hymrwymo'n llawn. Mae'r holl waith yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl. |
| Cynlluniau Adrannol Eraill | 0 | 1,146 | 1,146 | 7 | 1 | Mae'r mwyafrif o'r gyllideb hon yn ymwneud â grantiau i gynlluniau trydydd parti, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys cyllidebau TGCh, yn cynnwys arian wrth gefn ar gyfer anghenion yn y dyfodol. |
| **Cyfanswm** | **18,838** | **5,026** | **23,864** | **2,662** | **11** | |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD** | **9 MEDI 2013** |
| **PWNC** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2013-14** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **CLARE WILLIAMS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **TONY FURBER** |

**Natur a rheswm dros adrodd:**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa gyda gwariant refeniw y Cyngor am chwarter cyntaf 2013-14, yn rhoi rhagamcan o'r sefyllfa am y flwyddyn gyfan a throsolwg o'r arian wrth gefn sydd ar gael ac adolygiad o gynnydd y gwasanaethau yn cyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt.

## A – Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

1. Ym Mawrth 2013 fe osododd y Cyngor gyllideb net gyda gwariant gwasanaeth net o £128.8m a chyfraniad i'r balansau cyffredinol o £500k, oedd yn rhoi cyfanswm o £129.3m i'w gyllido o Incwm y Dreth Gyngor a grantiau cyffredinol.

2. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor am y tri mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol a rhagamcan o'r sefyllfa am y flwyddyn gyfan, gan nodi'r sefyllfa gyffredinol a ffynonellau'r prif amrywiadau.

3. Y sefyllfa gyffredinol a ragwelir yw gorwariant o £1.299m ac mae'r amrywiadau mwyaf yn cael eu hegluro yn yr adroddiad.

4. Roedd cyllideb 2013-14 yn cynnwys arbedion o £2.860m oedd eu hangen. Mae'r rhain wedi eu hymgorffori yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol ac mae cyflawni neu fethu â chyflawni'r rhain yn cael ei adlewyrchu yn y tanwario/gorwario net sy'n cael ei ddangos.

5. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn rhoi'r sefyllfa gyffredinol gyda rheoli Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn hyd yn hyn.

## B – Ystyriaethau

**Balans Cyffredinol – y Sefyllfa Agoriadol a Chyfraniad a Gynlluniwyd yn 2013-14**

1. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin 2013, roedd y sefyllfa derfynol am 2012-13 yn sylweddol well na'r disgwyl, fel bod y balans cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol yn sefyll ar ychydig dros £6m. (Mae'r ffigwr hwn yn parhau i fod yn un dros dro hyd nes y caiff Datganiad Cyfrifon 2012-13 ei gymeradwyo yn nes ymlaen y mis hwn. Nid oes unrhyw newid wedi ei nodi iddo yn ystod y cynnydd gyda'r archwiliad blynyddol hyd yn hyn).

**Chwarter Un – Perfformiad Ariannol yn ôl Gwasanaeth**

2. Mae manylion am berfformiad ariannol y gwasanaethau am y tri mis cyntaf o'r flwyddyn a'r sefyllfa a ragamcanwyd i bob un, i'w gweld yn Atodiad A. Y rhagamcan cyffredinol yw y gwelir gorwariant net yn y gwasanaethau o £1.299m. Mae crynodeb sy'n nodi'r prif wahaniaethau i'w weld isod.

| **Crynodeb o'r Amrywiadau a ragwelir ar 31.3.14 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol yn Chwarter 1** | |
|---|---|
| | **Tan/(Gor) wariant £'000** |
| Addysg Ganolog | 593 |
| Gofal Cymdeithasol | (1,295) |
| Hamdden a Diwylliant | (184) |
| Priffyrdd | (112) |
| Cynllunio | (98) |
| Eiddo | (159) |
| Rheolaeth Gorfforaethol | (60) |
| Budd-daliadau a Ganiatawyd | (330) |
| Eraill | 346 |
| | **(1,299)** |

3. **Eglurhad ar yr amrywiadau sylweddol**

**Addysg Ganolog – rhagwelir tanwariant o £593k**
Mae'r tanwariant oherwydd yr incwm ychwanegol a ddisgwylir ar gyfer ôl-16 ac AAA. Nid oedd disgwyl yr incwm hwn pan osodwyd y gyllideb ac mae'n digwydd oherwydd adolygiad o'r fformiwla ar gyfer y grant. Mae'r gyllideb AAA yn un anwadal ac mae'n bosib felly y gallai'r tanwariant ostwng yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gorwariant o £1.295m ar Ofal Cymdeithasol**
Mae'r diffyg a ragwelir o £1.295m oherwydd gorwario o £363k ar Ofal Preswyl, £200k ar Ofal Preswyl Iechyd Meddwl , incwm o £232k na chafodd ei gyflawni yn y maes Teleofal a £500k mewn perthynas ag arbedion nad yw'r gwasanaeth wedi eu cyflawni ar hyn o bryd o'r rhaglen ar gyfer trawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion fel y nodwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith yn Chwefror 2013.

Mae swyddogion ar hyn o bryd yn datblygu cynlluniau i gyflawni'r arbedion a nodwyd ac i ostwng pwysau ariannol ar y gwasanaeth. Bydd cynnydd gyda'r materion hyn yn cael ei oruchwylio'n ofalus bob mis ac adroddir arno yn yr adroddiad monitro ariannol ar gyfer chwarter 2.

**Gorwariant o £184k yn y maes Hamdden a Diwylliant**
Mae'r Canolfannau Hamdden yn rhagweld gorwariant o £41k, ynghyd â gorwariant o £76k ar barciau a chyfleusterau awyr agored, £55k ar y cwrs golff a £34k ar yr Archifdy. Mae'r Swyddogion wrthi'n cynnal adolygiad llawn o'r maes Hamdden a Diwylliant gyda'r nod o sicrhau cyllideb gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Adroddir ar gynnydd yn yr adroddiad monitro ariannol ar gyfer chwarter dau.

**Gorwariant o £112k ar Briffyrdd**
Mae'r gorwariant oherwydd na lwyddwyd i ddenu'r incwm a gyllidebwyd ar gyfer parciau a rheoli datblygu yn chwarter un. Mae'n bosib y bydd cyllideb gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gorwariant o £98k ar Gynllunio**
Mae'r gorwariant hwn yn bennaf oherwydd na lwyddwyd i ddenu incwm a gyllidebwyd yn chwarter 1. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd modd denu'r incwm hwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gorwariant o £159k ar Eiddo**
Mae'r gorwariant yn bennaf oherwydd incwm na chafodd ei gyflawni.

**Budd-daliadau £330k (£250k ar gyfer y Dreth Gyngor; £80k mewn Taliadau Tai Dewisol)**
O Ebrill 2013 disodlwyd Budd-dal y Dreth Gyngor gan gynllun lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Hyd at Ebrill 2013 roedd adennill budd-daliadau'r Dreth Gyngor gan yr Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau yn cyfateb fwy neu lai i 100% o'r gwariant budd-dal. O Ebrill 2013 rhoddwyd grant sefydlog i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y baich achosion cyfartalog dros gyfnod o 3 blynedd h.y. 2009/10-2011/12.

Mae'n ymddangos nad yw'r grant gan Lywodraeth Cymru yn ddigon i gwrdd â'r cynnydd yn y baich achosion yn chwarter un a'r cymorth tuag at y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y diffyg yn £250k.

Nid oes darpariaeth yng nghyllideb 2013/14 ar gyfer taliadau tai dewisol sydd yn mynd y tu hwnt i'r grant gan DWP. Oherwydd newidiadau lles a gyflwynwyd yn Ebrill 2013 h.y. y cymhorthdal ystafell sbâr ("treth ystafell wely"), y cap ar fudd-daliadau, y newidiadau sy'n parhau yn y lwfans tai lleol a chyfyngu codiadau blynyddol mewn budd-daliadau i 1%, rhagwelir y bydd taliadau tai dewisol £80k yn uwch na'r grant £136k gan DWP.

Gall nifer yr hawliadau am fudd-dal godi neu ostwng erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n anodd rhagweld oherwydd y bydd hynny'n dibynnu ar yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol yn ogystal â demograffig, ymfudo a chyfleon i gael cyflogaeth yn Ynys Môn.

**Tanwariannau Net eraill £346k**
Mae hyn yn ymwneud â'r ystod o wasanaethau y mae amrywiadau'n cael eu rhagweld yn eu cyllidebau ond nad ydynt wedi eu dangos yn Atodiad A.

Y prif rai yw:

- *Tanwariant o £98k yn y maes Datblygu Economaidd.* Mae hyn yn ymwneud â'r proffil gwariant ynghylch cyllid cyfatebol mewn perthynas â Grantiau Ewropeaidd. Er bod disgwyl tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn, bydd yr arian wedi ei ymrwymo yn erbyn gwariant ym misoedd cyntaf 2014-15.
- *Tanwariant o £150k yn y maes Gwastraff.* Mae £100k yn ymwneud â chyllid wrth gefn ar gyfer cyfleuster rheoli nwy Penhesgyn a £64k mewn perthynas ag arbedion gyda'r contract Casglu Gwastraff. Mae'r gweddill oherwydd amrediad o amrywiadau llai.
- *£128k o orwariant ar TGCh.* Mae hyn yn ymwneud ag arbedion staffio.

**4.** Yn yr adran 'Cyllidwyd Gan' yn Atodiad A, dangosir incwm Treth Gyngor fel gwastad yn erbyn y gyllideb. Mae yna rai arwyddion y gallai fod yna beth gorgyflawni mewn incwm, ond unwaith yn rhagor, nid yw'r rhain yn ddigon cadarn ar hyn o bryd i'w hymgorffori hwy o fewn y canlyniad terfynol a ragwelir.

| C – Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

**CH – Crynodeb**

Yn yr adroddiad hwn, ceir manylion am berfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor yn ystod chwarter cyntaf 2013-14 ac, yn seiliedig ar hyn, rhagamcenir gorwariant o £1.299m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae ffynonellau'r gorwariant yn cael eu henwi a'r brif ffynhonnell yw'r gorwariant sy'n parhau yn y maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion sydd, ar £1.295m, yn cyfrif am y cyfan bron o'r diffyg net a ragamcenir. Nodir nifer o'r gwasanaethau eraill sy'n gorwario ynghyd â rhai sy'n tanwario ac sydd, o'r herwydd, yn gwrthbwyso'r gorwariant. Y prif danwariant yw'r un a geir yn sgil yr incwm grant ychwanegol o £ 600k i'r gwasanaeth Addysg.

Dangosir dadansoddiad o'r prif feysydd gorwariant ynghyd â'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw iddynt.

**D – Argymhelliad**

Argymhellir:

- Nodi'r sefyllfa o ran perfformiad ariannol hyd yma, y diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn a'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i hyn.
- Cadw llygad ar effaith y cynnydd yn nifer yr hawlwyr.
- Cymeradwyo defnyddio 60K o'r Arian Wrth Gefn ar gyfer Gwella Perfformiad i gyllido swydd y Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol yn 2013-14. **(B5)**
- Bod cyllid ar gyfer y swydd hon i'r dyfodol yn destun bid twf ym mhroses gyllidebol 2014-15.

**Enw Awdur yr adroddiad: Clare Williams, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151**

| Atodiadau: |
|---|
| |

| Papurau Cefndir |
|---|
| |

| PERFFORMIAD ARIANNOL EBRILL - MEHEFIN 2013 A'R CANLYNIADAU RHAGAMCANEDIG AR GYFER 2013-14 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfadran** | **Gwirioned dol + Ymrwymia -dau Ch1 £'000** | **Proffil Ch1 £'000** | **Amrywiad Ch1 £'000** | **Projected Outurn Expenditure £'000** | **Cyllideb am y Flwyddyn £'000** | **Amrywiad a ragamcenir am y flwyddyn £'000** |
| | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| Y Gyllideb sydd wedi'i dirprwyo i'r ysgolion | | | | 43,354 | 43,354 | 0 |
| Addysg Ganolog | 588 | 782 | 194 | 7,370 | 7,963 | 593 |
| | **588** | **782** | **194** | **50,724** | **51,317** | **593** |
| | | | | | | |
| **Ymrwymiadau** | | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 5,470 | 5,761 | 291 | 31,410 | 30,115 | -1,295 |
| Hamdden a Diwylliant | 811 | 753 | -58 | 4,897 | 4,713 | -184 |
| Tai | 1,575 | 1,573 | -2 | 1,206 | 1,204 | -2 |
| | **7,856** | **8,087** | **231** | **37,513** | **36,032** | **-1,481** |
| | | | | | | |
| **Datblygiad Cynaliadwy** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,206 | 1,274 | 68 | 1,504 | 1,602 | 98 |
| Y Fflyd | 125 | 0 | -125 | 0 | 0 | 0 |
| Priffyrdd | 2,264 | 2,182 | -82 | 10,740 | 10,628 | -112 |
| Cynllunio | 328 | 246 | -82 | 1,710 | 1,612 | -98 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 355 | 353 | -2 | 1,478 | 1,476 | -2 |
| Eiddo | 78 | -33 | -111 | 979 | 820 | -159 |
| Gwaith y gellir codi amdano | 109 | 52 | -57 | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli Cyfadran | 15 | 14 | -1 | 57 | 57 | 0 |
| Gwastraff | 1,979 | 2,004 | 25 | 8,437 | 8,587 | 150 |
| | **6,459** | **6,092** | **-367** | **24,905** | **24,782** | **-123** |
| | | | | | | |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 377 | 384 | 7 | 2,009 | 2,016 | 7 |
| Archwilio | 57 | 56 | -1 | 1 | 1 | 0 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 242 | 245 | 3 | 2,150 | 2,154 | 4 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 273 | 258 | -15 | 1,045 | 985 | -60 |
| Cyllid – ac eithrio Budd-daliadau a gafwyd | 708 | 693 | -15 | 980 | 966 | -14 |
| Cyllid – Budd-daliadau a gafwyd | 2,489 | 2,230 | -259 | 5,643 | 5,313 | -330 |
| Adnoddau Dynol | 158 | 143 | -15 | 33 | 0 | -33 |
| TGCh | 401 | 425 | 24 | -128 | 0 | 128 |
| Cyfreithiol a Gweinyddol | 394 | 443 | 49 | 397 | 437 | 40 |
| Polisi | 167 | 149 | -18 | 30 | 0 | -30 |
| Cyllid Corfforaethol | 2,808 | 2,808 | 0 | 4,750 | 5,250 | 500 |
| | **8,074** | **7,834** | **-240** | **16,910** | **17,122** | **212** |
| | | | | | | |
| | **22,977** | **22,795** | **-182** | **130,052** | **129,253** | **-799** |
| | | | | | | |
| **ARIANNWYD GAN** | | | | | | |
| Incwm o'r Dreth Gyngor | | | | 28,023 | 28,023 | 0 |
| Grantiau Arbennig | | | | 458 | 458 | 0 |
| Grantiau Cytundebau Canlyniadau | | | | 545 | 545 | 0 |
| Grant Cymorth Refeniw | | | | 22,024 | 22,024 | 0 |
| Cronfa Trethi Cenedlaethol Annomestig | | | | 78,203 | 78,203 | 0 |
| | | | | **129,253** | **129,253** | **0** |

| CYSONI GYDA PAPUR F, TABL B A GYFLWYNWYD I'R CYNGOR AR 0503013 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwreiddiol** | | **Incwm Ychwanegol o'r Dreth Gyngor** | **Symud y Grant Cytundebau Canlyniadau i TNSGI** | **Diwygiedig** |
| Gofyniad Cyllidebol | 128,492 | | 166 | 545 | 129,203 |
| Cymorth Dewisol i Dalu'r Dreth | 50 | | | | 50 |
| Cyfanswm Terfynol | 128,542 | | 166 | 545 | 129,253 |
| | | | | | |
| Incwm o'r Dreth Gyngor | 27,857 | | 166 | | 28,023 |
| Grantiau Arbennig | 458 | | | | 458 |
| Grant Cytundebau Canlyniadau | 0 | | | 545 | 545 |
| Grant Cymorth Refeniw | 22,024 | | | | 22,024 |
| Cronfa Trethi Cenedlaethol Annomestig | 78,203 | | | | 78,203 |
| | 128,542 | | 166 | 545 | 129,253 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODD I:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 28 Hydref, 2013 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **TEITL:** | Ffioedd Gwasanaeth i Denantiaid a Lesddeiliaid |
| **CYFARWYDDWR:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | Cynghorydd Kenneth Hughes |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mae'r adroddiad yn amlinellu trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer codi am wasanaethau, y sgôp ar gyfer cyflwyno ffioedd am wasanaeth ac, yn ogystal, mae'n dwyn sylw at rai o'r materion cysylltiedig.<br><br>Gofynnir i Aelodau graffu'r Adroddiad a bydd y sylwadau yn cael eu hadrodd i drafodaeth gyda Phwyllgor Gwaith y Cyngor, sy'n cwrdd ar y 4ydd o Dachwedd, 2013 i ystyried yr Adroddiad. |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Ffi Gwasanaeth yw'r swm a delir gan denant am wasanaeth ychwanegol gan y landlord megis gwres a goleuni mewn ardaloedd cyffredin sydd ddim wedi ei gynnwys yn y rhent. Gellir cwrdd â'r rhan fwyaf o'r ffioedd gwasanaeth, ac eithrio'r rheiny sy'n ymwneud ag eiddo unigol, o'r Budd-dal Tai os yw'r Tenantiaid yn gymwys i dderbyn cymorth.

1.2 Mae pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig arall ac Awdurdodau Lleol ar draws Cymru sy'n berchen ar stoc eisoes yn codi ar eu tenantiaid am wasanaethau. Rŵan yw'r amser iawn i edrych ar gyflwyno ffioedd gwasanaeth fel rhan o brosiect cydweithio gyda Chynghorau Sir Ddinbych, Sir Y Fflint a Wrecsam a thrwy rannu cost cymorth a chefnogaeth arbenigol gan HQN (Housing Quality Network), bydd y broses o ddatblygu hyn yn unffurf ac yn dryloyw.

1.3 Tan fis Mawrth 2012, roedd y gwaith o dorri gwair ar gyfer holl denantiaid y Cyngor dros 60 oed a'r rheiny sydd wedi eu cofrestru fel pobl anabl yn cael ei gyllido o grant penodol, sydd bellach wedi dod i ben. Roedd hynny'n golygu bod y Gwasanaethau Tai wedi talu am dorri gwair yn ystod 2013/14 o'i incwm rhent. Mae'n amlwg nad yw gwneud hyn i'r dyfodol yn gynaliadwy. I'r perwyl hwn, bydd y gwaith hwn yn edrych ar gyfyngu'r gwasanaeth torri gwair am ddim i bobl dros 70 oed a'r rheiny sydd wedi eu cofrestru'n anabl.

1.4 Cyn cyflwyno unrhyw ffioedd gwasanaeth, ymgynghorir yn ffurfiol gyda'n Tenantiaid a'n Lesddeiliaid [os bydd unrhyw ffioedd newydd neu ychwanegol yn cael eu cyflwyno ar gyfer Lesddeiliaid].

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae gan y Cyngor 3,805 o denantiaethau a 120 o lesddeiliaid sy'n derbyn amrywiaeth o wasanaeth, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Carthffosiaeth
- Cyfleustodau eraill
- Cynnal tiroedd
- Torri Gwair
- Glanhau
- Lifftiau
- Systemau mynediad
- Erialau teledu
- Offer diogelwch tân

2.2 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn codi ffioedd gwasanaeth ar 61 o lesddeiliaid am wasanaethau cynnal tiroedd. Mae ffioedd gwasanaeth ar gyfer lesddeiliaid yn rhan o gyfrifoldeb Gwasanaeth Cyllid y Cyngor.

2.3 Yr amserlen bosib ar gyfer cyflwyno ffioedd gwasanaeth ar gyfer torri gwair yw yn Ebrill 2014 a Medi 2014 ar gyfer gwasanaethau eraill.

2.4 Gweithredir fel a ganlyn:
Rhennir y Prosiect yn dri cham:

Cam Un – adolygu ac asesu'r dogfennau sydd ar gael, strwythurau a TG [pwnc yr adroddiad hwn]

Cam Dau – gweithredu a chyflwyno

Cam Tri – adolygiad ar ôl gweithredu

## 3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae Cam Un y Prosiect Ffi Gwasanaeth wedi nodi'r materion isod i'w hystyried:

### 3.1.1 Polisi Rhent

Mae'r rhenti cyfredol yn is na'r rhent targed ac o'r herwydd, ychydig o sgôp sydd ar gyfer gostwng rhenti cyn cyflwyno'r ffioedd gwasanaeth. Mae HQN yn dweud y bydd polisi rhent newydd Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi yn y pythefnos nesaf. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud nad yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r polisi rhent newydd yn derfynol hyd yma. Yn ogystal, nid yw'n glir a fydd y polisi rhent newydd yn cynnwys canllawiau ar gyfer codi ar y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth yn unig.

### 3.1.2 Cytundebau Tenantiaeth

Mae gan bob tenant drefniadau tenantiaeth tebyg iawn ar gyfer tenantiaethau diogel, tenantiaethau nad ydynt yn rhai diogel a thenantiaethau rhagarweiniol.

Mae'r cytundebau tenantiaeth yn caniatáu codi ffioedd gwasanaeth dan gymal 4.1 ac nid ydynt yn cyfyngu'r Cyngor i gynnydd blynyddol yn y ffioedd.

**3.1.3 Gweithrediad Ymarferol**
Mae ffioedd gwasanaeth yn cael eu hychwanegu at gytundebau tenantiaeth yn faniwal gan swyddogion tai ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Rheoli Tai Orchard. Nid yw'r modiwl Ffioedd Gwasanaeth ar Orchard wedi ei weithredu hyd yma. Bydd gweithredu'r modiwl ffioedd gwasanaeth yn allweddol ar gyfer cwrdd â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cyflwyno ffioedd gwasanaeth.

Yn y dyfodol, bydd y system gyllid Civica yn rhyngweithio gyda'r system Orchard. Bydd angen adolygu polisi drafft y Cyngor ar gyfer dyledion – sydd heb ei weithredu hyd yma – i sicrhau ei fod yn cynnwys ffioedd gwasanaeth.

**3.1.4 Cynnal tiroedd a thorri gwair**

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor dri chontract (gydag un contractwr) ar gyfer cynnal a chadw tiroedd a thorri gwair:

*Tai Gwarchod* – torri gwair mewn 491 o erddi preifat a gerddi cymunedol 13 gwaith y flwyddyn

*Cyngor* – torri gwair 10 gwaith y flwyddyn i erddi 700 o denantiaid sydd dros 60 oed neu'n anabl neu lle nad oes neb ar yr aelwyd a fyddai'n gallu torri'r gwair

*Trefol* – gwasanaeth torri gwair ar briffyrdd a llecynnau cymunedol.

Codir dros 100k ar y Gwasanaethau Tai am y contract uchod.

3.1.5 Mae contract gwasanaeth y Cyngor ar gyfer gerddi preifat tenantiaid yn seiliedig ar faich gwaith o 700 o erddi. Mae cyflwyno ffioedd ar gyfer y gwasanaeth hwn, sy'n cael ei ddarparu am ddim ar hyn o bryd, yn debygol o olygu y bydd rhai tenantiaid yn penderfynu nad ydynt angen y gwasanaeth mwyach / yn methu fforddio'r gwasanaeth. Gall hyn effeithio ar gost y gwasanaeth fesul gardd, a fydd yn codi os bydd nifer fawr o denantiaid yn penderfynu nad ydynt angen y gwasanaeth mwyach, neu efallai y bydd angen ail-drafod y contract pan geir y cyfle cyntaf i wneud hynny yn unol ag amodau'r contract. Bydd angen i'r Cyngor adolygu'r contract trefol i nodi pa dir sy'n dod dan y Cyfrif Refeniw Tai a pha dir sy'n dod o dan y gronfa gyffredinol. Bydd hyn hefyd yn golygu nodi'r eiddo sy'n cael budd o dir CRT ac y byddai angen eu cynnwys yn y ffioedd gwasanaeth.

3.1.6 Mae'r gallu i godi ar lesddeiliaid a rhydd-ddeiliaid eiddo a brynwyd gan y Cyngor dan y Ddeddf Hawl i Brynu am gynnal tiroedd a thorri gwair yn dibynnu ar y brydles neu'r trefniadau trawsgludo. Mae'r Cyngor wedi rhoi copi o'r brydles HIB gyfredol i HQN i'w hadolygu gyda hyn. Bydd angen i'r awdurdod gael cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ynghylch a fydd modd codi ffioedd ar eiddo y prynwyd eu rhydd-ddaliadaeth.

### 3.1.7 Boddhad Tenantiaid

Roedd arolwg boddhad tenantiaid 2012 yn dangos fod 5.4% ohonynt yn anfodlon gyda gwerth am arian y gwasanaethau stadau a ddarperir gan y Gwasanaethau Tai ac mae'r un ganran yn anfodlon gyda'r rhent o ran gwerth am arian. Yn ogystal, mae 11.9% yn anfodlon gyda'r gwasanaeth glanhau a chynnal ardaloedd cyffredin, 9.9% yn anfodlon gyda'r gwasanaeth trwsio ardaloedd cyffredin, 10.5% yn anfodlon gyda sut mae eu hardal yn edrych yn gyffredinol.

Yn y rhan o'r arolwg a oedd yn ymwneud â 'eich ardal', sbwriel a gwastraff oedd yr ail uchaf o ran problemau y soniwyd amdanynt, gyda 14.9% yn credu fod hon yn broblem fawr. Dywedodd 16% nad oeddent yn fodlon gyda'r gwasanaeth cynnal tiroedd a 7.4% eu bod yn anfodlon gyda'r gwasanaeth stadau yn gyffredinol. Mae'r canlyniadau hyn yn her i'r Cyngor wrth gyflwyno ffioedd gwasanaeth. Cynhaliwyd yr arolwg boddhad hwn pan nad oedd tenantiaid yn talu am y gwasanaethau hyn yn uniongyrchol ac mae'n dangos bod anfodlonrwydd gyda gwasanaethau cyfredol.

### 3.1.8 Dull gweithredu

Canlyniad cam un fydd datblygu dull a model ariannol y gallai'r Cyngor ei ddefnyddio i weinyddu a gweithio allan y costau gwasanaeth a gweinyddol i denantiaid a lesddeiliaid i'w cynnwys yng nghyfrifon tybiedig 2014/15.

Datblygir cynllun gweithredu manwl i gyflwyno'r ffioedd yn gyffredinol. Bydd hyn yn seiliedig ar gasgliadau yng ngham un ac yn bwysicaf oll, yr asesiad risg. Un o'r pethau y bydd angen i'r gwasanaeth eu hystyried a'u cytuno yw a ddylid cynnal cynllun peilot cyn cyflwyno'r trefniadau i bawb. Mae sawl mantais i gynllun peilot. Bydd HQN yn darparu gwasanaeth rheoli prosiect ar gyfer y pedwar awdurdod lleol. Mae tîm prosiect wedi ei sefydlu yn y Gwasanaethau Tai sydd hefyd yn cynnwys y Cyfrifydd Tai a swyddog o'r Adain Refeniw a Budd-daliadau.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i Aelodau Pwyllgor Sgriwtini i:
A1 – graffu casgliadau ac argymhellion cam un [sef yr adroddiad hwn].
A2 - rhoi sylwadau ymlaen i Bwyllgor Gwaith y Cyngor sydd yn cwrdd ar y 4ydd o Dachwedd, 2013 i drafod symud ymlaen i gam dau, sef gweithredu a chyflwyno.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD: | PWYLLGOR GWAITH |
| DYDDIAD: | 28ain HYDREF 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | SGORFWRDD CORFFORAETHOL CH 2 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN: | PENNAETH POLISI |
| GWEITHREDIAD: | ER GWYBODAETH A SGRWTINI O'R SGORFWRDD CORFFORAETHOL |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r sgorfwrdd yma wedi'i lunio gyda'r nod o hysbysu'r darllenwr o gynnydd y gorfforaeth yn erbyn dangosyddion priodol sydd yn cydnabod llwyddiant y gorfforaeth yn cyflawni ei waith dydd i ddydd.

## 2. SGORFWRDD PERFFORMIAD

**2.1** Y mae'r sgorfwrdd yn parhau i fod mewn amser o ddatblygiad. Y mae newidiadau arwyddocaol mewn systemau a ffyrdd o weithio traddodiadol yn digwydd. O ganlyniad, bydd angen amser pellach cyn y gall gwybodaeth tu ol i bob ddangosydd cael ei gyfathrebu.

**2.2** Y mae'r sgorfwrdd presennol (Atodiad 1) yn dangos ac yn datgan sefyllfa'r gorfforaeth ar ddiwedd chwarter 2 ac fe fydd y ddogfen yn cael ei gysidro 'mhellach (gan gynnwys sylwadau'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol) gan y Pwyllgor Gwaith.

**2.3** Y mae'r sgorfwrdd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn heddiw i'w ystyried – Atodiad 1.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor gysidro'r sgorfwrdd ac adnabod y meysydd hynny a all godi fel elfen o bryder perfformiad y gorfforaeth.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor adnabod y mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig a'r meysydd hyn fel y gallent gael eu cyfathrebu i'r Pwyllgor Gwaith yn eu cyfarfod ar y 4ydd o Dachwedd, 2013.

**GETHIN MORGAN – RHEOLWR CYNLLUNIO BUSNES A RHAGLENNI**
**19 HYDREF 2013**

## People Management

| Title | Actual | Target | RAG |
|---|---|---|---|
| 01) Sickness absence - average working days/shifts lost | 4.94 | 4.00 | Red |
| 02) No of staff with attendance of 100% | Available November | | |
| 03) Short Term sickness (days) | 7051.65 | | |
| 04) Long Term sickness (days) | 4595.21 | | |
| 05) % of RTW interview held | 39.41 | 90.00 | Red |
| 06) % of stress related sickness | 5.11 | | ↑ |
| 07) No. of occupational health referrals | 179.00 | | |
| 08) No. or workplace injuries | 146.00 | | |
| 09) % of PDR's completed within timeframe | | 80.00 | |
| 10) Number of staff authority wide, including teachers and school based staff (FTE) | 2347.36 | | |
| 11) Number of staff authority wide, excluding teachers and school based staff(FTE) | 1408.48 | | |
| 12) Local Authority employees leaving (%) (Turnover) Annual | Annual | | |
| 13) No. of formal grievances (proved / upheld) | 0.00 | | |
| 14) No. of formal grievances (not proved / not upheld) | 0.00 | | |
| 15) No. of disciplinary investigations (proved) | 4.00 | | |
| 16) No. of disciplinary investigations (not proved) | 0.00 | | |
| 17) Local Authority employees made redundant | 3.00 | | |
| 18) No. of Agency Staff | 22.00 | | ↑ |
| 19) No. of Permanent grant funded posts | 26.00 | | |
| 20) No. of Temporary grant funded posts | 120.75 | | |
| 21) No. of collaborative posts supported (not hosted) | 16.00 | | |
| 22) No. of collaborative posts (hosted) | 20.00 | | |
| 23) Designated home workers | 1.00 | | |
| 24) % of staff with email facility | 48.00 | | |

## Financial Management

| Title | Spend (£000) | Variance (£000) | RAG |
|---|---|---|---|
| 01) Projected end of year position (over spend) | | 62 | Green |
| 02) Spend v Profile (Over spend) Highways | | 520 | |
| 03) Spend v Profile (Over spend) Planning & Public Protection | | 102 | |
| 04) Spend v Profile (Under spend) Childrens Services | | -265 | |
| 05) Achievement against efficiencies (over/under) Service 1 | Report is being developed for these indicators | | |
| 06) Achievement against efficiencies (over/under) Service 2 | | | |
| 07) Achievement against efficiencies (over/under) Service 3 | | | |
| 08) Income v Targets – Under / Overachieving | | | |
| 09) Spend on externally commissioned services (£) | 10607 | | |
| 10) Spend on externally commissioned services (% of budget) | Report is being developed for these indicators | | |
| 11) Spend v Salary (£) | | | |
| 12) Spend v Salary (% of budget) | | | |
| 13) Cost of agency staff (£) | 407 | | |
| 14) Cost of sickness absence (Notional cost) | Available Quarter 3 | | |
| 15) Grants Income – Welsh Government | 1788 | | |
| 16) Grants Income - European | 74 | | |
| 17) Grants Income – Other | 11 | | |

## Performance Management

| Title | Actual | Target | RAG | Frequency |
|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002a: The rate of older people (aged 65 or over) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31st March | 53.09 | 55.00 | Green | MONTHLY |
| 02) SCA/002b: The rate of older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | 19.45 | 20.00 | Green | |
| 03) SCA/018b: The percentage of carers of adults who had an assessment or review of their needs in their own right during the year | 82.90 | 85.00 | Amber | |
| 04) SCA/018c: The % of carers of adults who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service | 66.60 | 75.00 | Amber | |
| 05) SCA/019: The % of adult protection referrals completed where the risk has been managed | 89.74 | 95.00 | Amber | |
| 06) SCC/006: the % of referrals during the year on which a decision was made within 1 working day | 99.82 | 100.00 | Amber | |
| 07) SCC/011a: The % of initial assessments that were completed during the year where there is evidence that the child has been seen by the Social Worker | 91.02 | 90.00 | Green | |
| 08) SCC/042a: The % of initial assessments completed within 7 working days | 93.88 | 85.00 | Green | |
| 09) SCC/014: The % of initial child protection conferences due in the year which were held within 15 working days of the strategy | 91.23 | 100.00 | Amber | |
| 10) SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations | 84.85 | 95.00 | Red | |
| 11) SCC/43a: The % of required core assessments completed within 35 working days | 84.44 | 75.00 | Green | |
| 12) HHA/002 The average number of days between homeless presentation and discharge of duty for households found to be statutorily homeless | 560.00 | 500.00 | Amber | |
| 13) HHA/016 The average number of days all homeless families with children spent in bed and breakfast. | 0.00 | 50.00 | Green | |
| 14) HHA/017b the average number of days that all homeless households spent in other forms of temporary accommodation | 638.20 | 600.00 | Amber | |
| 15) Council Tax collection rate | 57.80 | 57.30 | Green | |
| 16) Closure of accounts according to Schedule | Yes | Yes | Green | |
| 17) Budget information to Services monthly | Partly | Yes | Amber | |
| 18) No of corrections made to Payroll during period | 13.00 | 20.00 | Green | |
| 19) LCL/001b: The no. of visits to public libraries during the year, per 1,000 per population | 125892.00 | 145000.00 | Red | |
| 20) LCL/004: The no. of library materials issued, during the year per 1,000 population | 162977.00 | 150000.00 | Green | |
| 21) No. of attendances (young people) at sports development / outreach activity programmes | 50308.00 | 45000.00 | Green | QUARTERLY |
| 22) LCS/002b: The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year where the visitor will be participating in physical activity, per 1,000 population | 272910.00 | 260000.00 | Green | |
| 23) £X private investment secured | 187798.00 | 150000.00 | Green | |
| 24) £X public investment secured | 605000.00 | 500000.00 | Green | |
| 25) 3% increase in tourism visits (%) | -1.50 | 3.00 | Red | Annual |
| 26) Attendance - Primary (%) | 94.40 | Annual Data for 2012/13 Data in the process of being verified by Welsh Government Q3 scorecard to show Autumn term 13/14 | | TERMLY |
| 27) Attendance - Secondary (%) | 93.20 | | | |
| 28) No. of Permanent Exclusions | 0.00 | | | |
| 29) No. of days lost to temp exclusion - Primary | 104.00 | | | |
| 30) No. of days lost to temp exclusion - Secondary | 223.50 | | | |
| 31) KS3 - % pupils achieving CSI | 77.90 | | 3rd Wales | ANNUAL |
| 32) KS4 - % 15 year olds achieving L2+ | 52.20 | | 10th | |
| 33) KS4 - % 15 year olds achieving L2 | 73.90 | | 13th | |
| 34) KS4 - % 15 year olds achieving L1 | 92.60 | | 11th | |
| 35) KS4 - % 15 year olds achieving CSI | 50.70 | | 11th | |
| 36) THS/012: The % of principal roads (A), non-principal (B) roads and non-principal (C) roads that are in an overall poor condition | 11.20 | 11.50 | Green | |
| 37) CMT/001: The % of total length of Rights of Way which are easy to use by members of the public | 59.00 | 55.00 | Green | |

## Customer Service

| Title | Actual | Target | RAG |
|---|---|---|---|
| 01) No. of Successful complaints | 11.00 | | ↑ |
| 02) No. of unsuccessful complaints | 19.00 | | ↑ |
| 03) % of Complaints responded to within timescale | 80.00 | 100.00 | Red |
| 04) No of compliments | 1712.00 | | ↑ |
| 05) No of Concerns | 43.00 | | ↑ |
| 06) No of customer focus groups held | TBD | | |
| 07) No. of Ombudsman referrals | 1.00 | 1.00 | Green |
| 08) Customer satisfaction rating | Not enough data to calculate - from April 2014 | | |
| 09) Rate of reduction in telephone calls received (channel switching) | | | |
| 10) Rate of reduction in letters received (further channel switching) | | | |
| 11) Average time taken to answer telephone (seconds) | 10.00 | | ↓ |
| 12) % of telephone calls abandoned | 14.53 | | ↑ |
| 13) Customer response times (up to 3 for each service) | TBD | | |
| 14) Efficiency gains by channel switching | | | |
| 15) No of incidents of a physical or verbal nature towards employees (H&S) | 75.00 | | ↓ |

## Notes

### Performance Management

Please note that the RAG score doesn't show benchmarking against other local authorities only the score in comparison with the local target

### People Management

Sickness Absence related figures are for April to August only

Ref 1. Sickness Absence over target - Provider Unit (9.79), Adult Services (6.46), Childrens Services (5.95), Property (5.11), Education (4.30), ICT (4.14)

Ref 5. % RTW interviews calculation is marginally incorrect due to issues with long term sickness - Education (1%), Childrens Services (40%), Adult Services (51%), Provider Unit (57%)

Ref 19-22. Grant Funded Posts and Collaborative Posts - excludes data from Schools

### Financial Management

Ref 9 - Spend on external commissioned services - excludes data from Economic Development, Highways, Property and Planning

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODD I:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 28/10/2013 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| **TEITL:** | Perfformiad Gwasanaethau Oedolion - Chwarter 1 |
| **CYFARWYDDWR:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | Cynghorydd Kenneth Hughes |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | 1. Adrodd ar gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd gwasanaeth lle mae'r Statws CAG yn Goch;<br>2. Darparu'r Sgorgerdyn Gwasanaeth ochr yn ochr â'r Sgorgerdyn Corfforaethol. |

**1. CYD-DESTUN**

1.1 Bydd yr Aelodau'n gwybod i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2013 ystyried Sgorgerdyn Corfforaethol Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin 2013). Roedd y Sgorgerdyn wedi ei ddatblygu i nodi ac i roi gwybodaeth am gynnydd yn erbyn dangosyddion o dan 4 maes allweddol:-

- Rheoli Pobl;
- Rheolaeth Ariannol;
- Rheoli Perfformiad;
- Gwasanaeth i'r Cwsmer.

Roedd y dangosyddion hyn yn darparu ar gyfer un rhan o'r naratif cyffredinol ar berfformiad o fewn y Gwasanaeth.

1.2 Roedd y dangosyddion perfformiad Gwasanaeth Oedolion canlynol yn cario statws CAG coch ar ddiwedd Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2013):-

- Y ganran o Ofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn (SCA / 018b);
- Lefelau salwch a % y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith (RTW) a gwblhawyd yn unol ag amserlenni corfforaethol a gyhoeddwyd.

**2. TRAFODAETH**

2.1 Bydd y Pwyllgor Sgriwtini yn cofio iddo ofyn am:-

- Adroddiad ar gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd Gwasanaeth gyda statws CAG Coch;
- Y Gwasanaeth i ddarparu ei Sgorgerdyn Gwasanaeth mewnol ochr yn ochr â'r fframwaith Gorfforaethol.


## 2.2 Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol i Gefnogi Gofalwyr Anffurfiol

2.2.1 Mae perfformiad Awdurdod Lleol o ran cefnogi gofalwyr anffurfiol yn cael ei fesur yn erbyn cyfres o 3 Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Mae rhyngberthynas rhwng y 3 dangosydd. Mae'n ddoeth felly edrych ar draws y gyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â'n cefnogaeth ni i ofalwyr anffurfiol er mwyn ffurfio safbwynt cyfan o'n perfformiad lleol a chyfeiriad ein taith. Nodir y dangosyddion hyn isod:-

- Y ganran o ofalwyr oedolion y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u anghenion yn ystod y flwyddyn (SCA/018a);
- Canran gofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn (SCA/018b);
- Y ganran o ofalwyr oedolion a aseswyd neu a ailaseswyd yn ystod y flwyddyn ac a gafodd wasanaeth (SCA/018c).


2.2.2 Mae Perfformiad Gwasanaeth Chwarter 1 i'w weld isod yng nghyd-destun perfformiad cyfartaleddog cenedlaethol y flwyddyn ddiwethaf (h.y. 2012/13):-

**SCA/018a: Canran y gofalwyr oedolion gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn**





| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 74.2 | 70.1 | 81.7 | 82.4 |
| Cymru | 77.1 | 76.1 | 86.8 | |
| Targed Môn | 85 | 85 | 77 | 85 |

**SCA/018b: Canran y gofalwyr oedolion gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn**




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 88.5 | 78 | 75 | 82.9 |
| Cymru | 43.9 | 41.5 | 38.7 | |
| Targed Môn | 80 | 80 | 80 | 85 |




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 80.2 | 72.9 | 72 | 66.6 |
| Cymru | 58.3 | 61.6 | 62.8 | |
| Targed Môn | 80 | 80 | 80 | 85 |

### 2.2.3 Ein Siwrne i Wella Hyd yn Hyn

Mae cefnogi gofalwyr yn un o brif feysydd blaenoriaeth y Gwasanaethau Oedolion. Yn dilyn ymarfer ymgynghori yn ddiweddar, (a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref, 2013 gyda Gofalwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr) fe ddywedwyd yn glir bod cefnogi gofalwyr anffurfiol yn gydran allweddol gyda sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn parhau'n annibynnol ac yn dal i fyw yn eu cartrefi. Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dweud bod dros 7000 o bobl yn darparu gofal di-dâl ond dim ond 1000 o ofalwyr sy'n wybyddus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr (mudiad 3ydd Sector sy'n cynnig cefnogaeth i ofalwyr).

Mae ein Sgorgerdyn Perfformiad Gwasanaeth mewn perthynas â'r dangosyddion perfformiad hyn ynghlwm (**ATODIAD 1**). Hwn yw ein model Rheoli Gwasanaeth mewnol sy'n cynnwys y naratif/stori leol y tu ôl i'r data. Mae Sgorgardiau Gwasanaeth yn arf pwysig ar gyfer monitro perfformiad i reolwyr yn ogystal â diagnostig i roi gwybodaeth ar gyfer camau gwella/adfer.

### 2.2.4 Cynnydd Hyd yn Hyn

Rydym wedi atgyfodi'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr gyda golwg ar wella gweithio ar y cyd rhwng asiantaethau a chyd-gynhyrchu gwasanaethau a chyfleon i gefnogi gofalwyr anffurfiol. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi penodi Eiriolydd Gofalwyr fydd yn cynrychioli'r Awdurdod pan fo angen hyrwyddo materion Gofalwyr ar lefel leol a hwyluso gweithio cydweithredol rhwng Adrannau'r Cyngor er mwyn cynnig cefnogaeth i ofalwyr.

Rydym wedi cynnal rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr gyda gofalwyr gyda dros 100 gofalwyr yn ymateb i holiadur a grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr. Bydd y wybodaeth hon yn bwydo i mewn i ddatblygu strategaeth gomisiynu i ofalwyr fydd hefyd yn cael ei hystyried a'i chymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) a'r Pwyllgor Gwaith yn y Flwyddyn Newydd.

Rydym wedi nodi rhai anawsterau posibl yn y ffordd yr ydym yn casglu data yn electronig, ac rydym wedi cyflwyno mesurau o fewn ein systemau cofnodi

electronig sy'n annog ymarferwyr i gofnodi ac egluro'r amgylchiadau lle nad yw asesiadau gofalwyr wedi cael eu cynnig.
Yn ogystal, rydym wedi dechrau deialog gyda chydweithwyr iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau bod data am ofalwyr mewn timau Iechyd Meddwl yn dod ar gael i ni. Mae hyn yn fater sy'n derbyn sylw yn lleol a hefyd yn rhanbarthol.

<u>CAMAU NESAF WEDI'U BLAENORIAETHU–CHWARTER 3 (Medi – Rhagfyr 2013)</u>

- Cynhyrchu pecyn gwybodaeth sy'n rhoi i ofalwyr yr wybodaeth y maent ei hangen, y gallant ei deall yn hawdd, ac sy'n gwneud y cysylltiadau angenrheidiol rhwng gwasanaethau ac yn dweud wrthynt faint fydd y gwasanaeth yn ei gostio.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr 3ydd sector i ddatblygu gwasanaethau yn unol â bwriadau comisiynu.
- Sefydlu fforwm gofalwyr ac ystod o grwpiau cefnogi cymheiriaid, meithrin rôl "gofalwr arbenigol" i roi cyfleon i rannu profiad.
- Hyrwyddo rôl y Pencampwr Gofalwyr a datblygu cysylltiadau clir gyda gofalwyr fel bod y rôl yn cael ei hystyried fel llais ar faterion gofalwyr.
- Hyrwyddo mabwysiadu polisi 'Gofalwyr yn y Gwaith' gan yr Awdurdod.

## 2.3 PERFFOMIAD Y GWASANAETHAU OEDOLION PARTHED ABSENOLDEB SALWCH

2.3.1 Mae'r Awdurdod Lleol yn monitro dwy agwedd benodol ar absenoldeb salwch drwy gyfrwng ei Sgorgerdyn Corfforaethol:-

- Nifer y dyddiau o salwch i bob gweithiwr yn erbyn targed corfforaethol
- Graddfa cwblhau'r Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith (RTW).

2.3.2 Mae'r tabl canlynol yn dangos Perfformiad Gwasanaeth Chwarter 1 yn erbyn y targedau Corfforaethol sydd wedi eu cyhoeddi-

**Tabl 1: Perfformiad gwasanaeth yn erbyn targedau Corfforaethol - Chwarter 1**

| Mesur Perfformiad | Chwarter 1 Gwirioneddol | Chwarter 1 Targed | Nodyn |
|---|---|---|---|
| Nifer dyddiau salwch yn ôl y gweithiwr | **4.1 dydd** / gweithiwr | **2.4 dydd** / gweithiwr | 71% dros darged |
| % Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gwblhawyd | 39% | 90% | |

### 2.3.3 <u>Ein Siwrne Wella Hyd yn Hyn</u>

Mae Gwasanaethau Oedolion wedi cynnal adolygiad o'r holl system yng nghyswllt ei brosesau monitro absenoldeb salwch. Cymerwyd y camau canlynol yn ystod Awst a Medi 2013:

- Rhoi negeseuon i atgoffa staff am yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch (h.y. y prosesau hysbysu) ac ar eu dychwelyd i'r gwaith wedi hynny;
- Cyngor yn cael ei ail roi i reolwyr ar gydymffurfio gyda'r polisïau absenoldeb salwch Corfforaethol;
- Proses fewnol symlach yn cael ei chyflwyno ar gyfer cwblhau cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith;
- Atgyfnerthu pwysigrwydd cwblhau'r cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith mewn da bryd (h.y. targed corfforaethol cyhoeddedig – o fewn 5 diwrnod gwaith);
- Gwell atebolrwydd drwy rannu data perfformiad absenoldeb salwch pob tîm gyda rheolwyr;
- Gwell fonitro perfformiad absenoldeb salwch e.e. rhannu absenoldebau tymor byr a hirdymor mewn data a gyhoeddir;
- Sicrhau bod pawb yn deall y gweithdrefnau ar gyfer rheoli absenoldebau hirdymor;
- Annog rheolwyr i wneud defnydd llawn o'r cyfleuster Amdanaf i ar y Mewnrwyd Corfforaethol fel arf pwerus i reolwyr fonitro cofnodion absenoldeb salwch staff unigol yn ogystal ag amlygu patrymau o absenoldeb.

2.3.4 Y cynnydd hyd yn hyn:

Er ei bod yn rhy fuan i allu gweld effaith lawn y camau uchod, mae'r hyn a welwyd yn barod yn galonogol gyda chyfeiriad clir i'r daith a chyda gosod y Gwasanaeth ar siwrne i wella. Mae'r data dangosol o Ebrill i Awst fel a ganlyn:

**Tabl 2: Perfformiad gwasanaeth yn erbyn targedau Corfforaethol - Ebrill i Awst**

| **Mesur Perfformiad** | **Ebrill i Awst Gwirioneddol** | **Ebrill i Awst Targed** | **Nodyn** |
|---|---|---|---|
| Nifer dyddiau salwch y gweithiwr | **6.5 dydd** / gweithiwr | **4 dydd** / gweithiwr | 63% dros y targed |
| Nifer dyddiau absenoldeb salwch **ac eithrio hirdymor** | **3.7 dydd /** gweithiwr | **4 dydd /** gweithiwr | 8% dan y targed |
| % cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd | **51%** | **90%** | Chwarter 1 = 39% gwirioneddol |
| % cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i ddychwelyd i'r gwaith | **30%** | **90%** | Chwarter 1 = 26% gwirioneddol |

**Tabl 3: Perfformiad gwasanaeth yn erbyn targedau Corfforaethol - Awst yn unig**

| **Mesur Perfformiad** | **Awst yn unig Gwirioneddol** | **Awst yn unig Targed** | **Nodyn** |
|---|---|---|---|
| Nifer dyddiau salwch y gweithiwr | **0.86 dydd** / gweithiwr | **0.8 days** / gweithiwr | 8% dros y targed |
| Nifer dyddiau absenoldeb salwch **ac eithrio** | **0.5 dydd** / gweithiwr | **0.8 days** / gweithiwr | 38% dan y targed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **hirdymor** | | | |
| % cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd | **75%** | **90%** | Chwarter 1 = 39% gwirioneddol |
| % cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i ddychwelyd i'r gwaith | **67%** | **90%** | Chwarter 1 = 26% gwirioneddol |

CAMAU NESAF A FLAENORIAETHWYD – CHWARTER 3 (Medi – Rhagfyr 2013)

Gyda golwg ar sicrhau siwrne wella fydd yn un gynaliadwy, mae'r camau canlynol wedi eu blaenoriaethu gan y Tîm Rheoli Gwasanaeth yn ystod Chwarter 3:-

- Parhau i fonitro data perfformiad yn fisol;
- Cyfathrebu parhaol a rheolaidd gyda rheolwyr llinell – fel dull o atgyfnerthu negeseuon allweddol
- Gweld gwelliant pellach yn y Gwasanaeth o ran % y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gwblheir o fewn 5 diwrnod gwaith.

**3 ARGYMHELLION**

Ffurfio barn sgriwtini o amgylch y camau gweithredu a gymerwyd gan Wasanaethau Oedolion i gyfarch y meysydd canlynol lle mae statws CAG yn GOCH:-


3.1.1 Cefnogaeth i Ofalwyr Anffurfiol – canran y gofalwyr sydd wedi derbyn asesiad neu adolygiad o'u anghenion (SCA/018b)

3.1.2 Absenoldeb salwch a chanran cwblhau cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith


# SCA/018a: The percentage of carers of adults who were offered an assessment or review of their needs in their own right during the year

| | |
|---|---|
| Perchennog / Owner: | Anwen Davies |
| Mesurydd yma yn berthnasol i / Measure relevant to: | Iola Richards and Barbara Williams |
| Amlder Casglu / Collection Frequency: | Monthly |
| Chwartil / Quarter: | 2 |
| Dyddiad Adrodd / Report Date: | 31/09/2013 |


| Anglesey Target 2013 / 14 | Performance in comparison with previous quarter | Performance compared to 2012/13 | Performance in comparison with target |
|---|---|---|---|
| 85.00% PI Target - High number | ←→ | ↑ | |




| | Apr-Jun | Apr-Sept | Apr-Dec | Apr-Mar |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 - Q2 | 78.8 | 82.4 | | |
| Targed Môn 13/14 | 85 | 85 | 85 | 85 |




| | Apr-Jun | Apr-Sept | Apr-Dec | Apr-Mar |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 - Q2 | 78.8 | 82.4 | | |
| 2012/13 | 75.1 | 87.7 | 90.1 | 81.7 |
| 2011/12 | 53.3 | 63.9 | 64.5 | 70.1 |




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 74.2 | 70.1 | 81.7 | 82.4 |
| Cymru | 77.1 | 76.1 | 86.8 | |
| Targed Môn | 85 | 85 | 77 | 85 |

## Stori y tu ol i'r Perfformiad

Mae asesu a chefnogi gofalwyr anffurfiol yn bwysig i ni. Rydym yn disgwyl gallu tystioli perfformiad wedi'i gynnal yn ystod 2013.

Rhwng Ebrill a diwedd Medi gwelwyd 82.4% o ofalwyr anffurfiol yn cael cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain. Mae hyn ychydig yn well na'n perfformiad 0 81.7% yn ystod 2012/13 ond yn parhau i fod o dan gyfartaledd Cymru ar gyfer 2012/13 - 86.8%.

Cyfrifir y dangosydd perfformiad yma - 351/426*100. O ganlyniad yn dangos nad yw 75 o glientau wedi cael cynnig asesiad.

## Gweithredu Gwella Pellach

• ymdrechion wedi'u targedu pellach i wella perfformiad ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr Oedolion

• Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i wella mewnbwn data trwy ofyn am esboniad paham nad yw asesiad wedi'i gynnig. Rhagdybiwn y bydd hyn yn cael effaith bositif ar ganlyniadau chwarter 3 a chwarter 4 gan y byddem yn gallu uchafu data sydd wedi'i fewnbynnu'n anghywir i'r systemau trwy edrych ar y rhesymau dros beidio a chynnig asesiad. Enghraifft o ddata anghywir wedi'i fewnbynnu i'r system fyddai gostyngiad ar y sgrin yn dangos fel "Ni gynigwyd asesiad gofalwyr" yn lle'r gostyngiad ar y sgrin yn dangos "Nid yw'n berthnasol" gan nad oes gofalwr gan y client.

## Description

Numerator: The number of carers (of adults) aged 18 or over known to social services who were offered an assessment or review of their needs in their own right during the year

Denominator: The number of carers (of adults) aged 18 or over known to social services

Formula: Numerator x 100
Denominator

# SCA/018b: The percentage of carers of adults who had an assessment or review of their needs in their own right during the year

| | |
|---|---|
| Perchennog / Owner: | Anwen Davies |
| Mesurydd yma yn berthnasol i / Measure relevant to: | Iola Richards and Barbara Williams |
| Amlder Casglu / Collection Frequency: | Monthly |
| Chwartil / Quarter: | 2 |
| Dyddiad Adrodd / Report Date: | 31/09/2013 |

Anglesey Target 2013 / 14


85.00%

PI Target - High number


Performance in comparison with previous quarter

Performance compared to 2012/13


Performance in comparison with target




| | Apr-Jun | Apr-Sept | Apr-Dec | Apr-Mar |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 - Q2 | 65.7 | 82.9 | | |
| Targed Môn 13/14 | 85 | 85 | 85 | 85 |




| | Apr-Jun | Apr-Sept | Apr-Dec | Apr-Mar |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 - Q2 | 65.7 | 82.9 | | |
| 2012/13 | 70.7 | 81.2 | 84.8 | 75 |
| 2011/12 | 81.4 | 71.9 | 76.1 | 78 |




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 88.5 | 78 | 75 | 82.9 |
| Cymru | 43.9 | 41.5 | 38.7 | |
| Targed Môn | 80 | 80 | 80 | 85 |

## Stori y tu ol i'r Perfformiad

Rhwng Ebrill a diwedd Medi gwelwyd bod 82.9% o ofalwyr a gafodd gynnig asesiad wedi derbyn yr asesiad sy'n uwch na'n perfformiad yn ystod 2012/13 o 75%. Mae'r perfformiad yma hefyd yn sylweddol uwch na'r gyfartaledd yng Nghymru ym 2012/13 o 38.7%

Cyfrifir y dangosydd yma - 290/350*100.
Canlyniad oedd 60 client nad oedd wedi derbyn yr asesiad a gynigwyd iddynt. O rain, gwelwyd 50 o glientau a gynigwyd asesiad iddynt yn gwrthod a 10 client wedi nodi dymuniad i dderbyn asesiad ond heb ei dderbyn hyd yma.

## Gweithredu Gwella Pellach

- Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i sicrhau y cwblheir asesiadau ac adolygiadau swyddogion gofalwyr yn ystod cyfnodau salwch gan weithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaeth oedolion
- Ymdrechion wedi'u targedu i wella perfformiad ymhellach ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr oedolion
- monitro misol parhaus o berfformiad gydag unrhyw faterion data yn cael eu trosglwyddo i arweinyddion tim
- Rydym wedi cymryd camau i dracio'r 10 client yn disgwyl asesiad er mwyn cadarnhau a oes angen asesiad. Bydd canlyniad yr awdit yma'n rhoi gwybod i ni o'r angen i ddynodi asesiad a fydd yn cael ei olrhain yn gyflym er mwyn sicrhau ein bod yn cyfarch anghenion gofalwyr.

## Description

Numerator: The number of carers (of adults) aged 18 or over known to Social Services who were assessed or re-assessed in their own right during the year


Denominator: The number of carers (of adults) aged 18 or over known to Social Services who were offered an assessment or review of their needs in their own right during the year

Formula: Numerator x 100
Denominator


# SCA/018c: The percentage of carers of adults who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service

| | |
|---|---|
| Perchennog / Owner: | Anwen Davies |
| Mesurydd yma yn berthnasol i / Measure relevant to: | Iola Richards and Barbara Williams |
| Amlder Casglu / Collection Frequency: | Monthly |
| Chwartil / Quarter: | 2 |
| Dyddiad Adrodd / Report Date: | 31/09/2013 |


| Anglesey Target 2013 / 14 | Performance in comparison with previous quarter | Performance compared to 2012/13 | Performance in comparison with target |
|---|---|---|---|
| 75.00% | ↓ | ↓ | |
| PI Target - High number | | | |




| | Apr-Jun | Apr-Sept | Apr-Dec | Apr-Mar |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 - Q2 | 69.7 | 66.6 | | |
| Targed Môn 13/14 | 85 | 85 | 85 | 85 |




| | Apr-Jun | Apr-Sept | Apr-Dec | Apr-Mar |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 - Q2 | 69.7 | 66.6 | | |
| 2012/13 | 77.7 | 74 | 73.7 | 72 |
| 2011/12 | 73.4 | 67.2 | 71.3 | 72.9 |




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 80.2 | 72.9 | 72 | 66.6 |
| Cymru | 58.3 | 61.6 | 62.8 | |
| Targed Môn | 80 | 80 | 80 | 85 |

## Stori y tu ol i'r Perfformiad

Rydym wedi parhau i dystioli ein buddsoddiad a chefnogaeth i ofalwyr ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr a cheisir sicrhau y rhoddir cyfleoedd i ofalwyr ymgymryd a gweithgareddau ystyrlon y tu allan i'r rol ofalu. Un maes sy'n heuddu sylw arbennig ydy'n ymdrechion wrth geisio sicrhau ymgysylltiad mwy ystyrlon o ofalwyr fel cyfranogwyr hyfforddi a hyfforffwyr. Mae cydnabod rol arbenigol amhrisiadwy gofalwyr a hwyluso cyflwyno eu negeseuon pwerus i'n grwpiau staff wedi bod yn flaenoriaeth i ni.

Rhwng Ebrill a diwedd Medi gwelwyd 66.6% o ofalwyr anffurfiol a oedd wedi'u hasesu neu ail-asesu yn derbyn gwasanaeth sydd uwchben y Gyfartaledd Genedlaethol (62.8%). Mae hyn fodd bynnag islaw ein perfformiad yn ystod 2012/13 o 72%

Cyfrifir y dangosydd yma - 193/290*100
Canlyniad yw 97 o ofalwyr nad oeddent wedi derbyn gwasanaeth yn sgil asesiad. O rain, darparwyd gwybodaeth am wasanaethau y gallai fod o gymorth i 51 - a hynny yn lle gwasanaeth fel y diffinir gan y dangosydd. Roedd 46 wedi'u dyrannu i'r tim gofalwyr ond nid oedd y canlyniadau ar gael ar adeg adrodd ar gyfer y dangosydd perfformiad.

## Gweithredu Gwella Pellach

- monitro misol parhaus o berfformiad - mae'n debygol y byddai oedi wrth fewnbynnu data wedi cael effaith negyddol ar y data a adroddwyd

- wedi adnabod yr angen i adolygu ac addasu'r daenlen gofalwyr i hyrwyddo mewnbynnu amserol y data sy'n adlewyrchu canlyniad penodol i ofalwyr

- Datblygu ymhellach ein fframwaith strategol lleol i gefnogi gofalwyr trwy sicrhau bwriadau comisiynu a blaenoriaethau datblygu wedi'u cyhoeddu

- Grymuso a gwella sgiliau gofalwyr wedi'u blaenoriaethu yn ein Strategaeth Datblygu'r Gweithlu.

## Description

Numerator: The number of carers (of adults) aged 18 or over known to Social Services who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service

Denominator: The number of carers (of adults) aged 18 or over known to Social Services who were assessed or re-assessed in their own right during the year

Formula: Numerator x 100
Denominator

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| PWYLLGOR | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| DYDDIAD | 28ain Hydref, 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD | Cynllun Gwella 2013/14 |
| ADRODDIAD GAN | Pennaeth Gwasanaeth Polisi |
| CYSWLLT | Rheolwr Cynllunio Busnes & Rhaglen |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | Cyflwyno'r Cynllun ar gyfer ei fabwysiadu |
| GWEITHREDU | Ystyried natur y cynllun a'r amcanion gwella sydd wed'i ymgorffori |

**Natur a rheswm dros adrodd**

Yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwelliant mae angen i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella blynyddol drwy gynllun gwella cyn gynted a bo'n ymarferol ar ôl dechrau Ebrill pob blwyddyn.

**A –Cyflwyniad/ Cefndir / Materion i'w hystyried**

1.1.1 Yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwelliant mae angen i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella blynyddol drwy gynllun gwella cyn gynted a bo'n ymarferol ar ôl dechrau Ebrill pob blwyddyn. Dylid dwyn sylw'r Pwyllgor Sgriwtini ein bod wedi dileu mabwysiadu'r rhain yn dilyn etholiad 2013. Yr oedd hyn yn dilyn esiampl amryw o Gynghorau Sir yng ngogledd Cymru y llynedd.

**B – Ystyriaethau**

1.1.2 Y mae'r Cyngor Sir eisoes wedi yn 2012, ac mi fyddent eto eleni yn cymeradwyo ddrafft pellach o Gynllun Corfforaethol tymor canol (13-17) fel rhan o'r fframwaith polisi sydd yn gosod y canllawiau yr ydym fel corfforaeth yn gweithio oddi mewn iddynt.

1.1.3 Ymgynghorwyd gyda Rhanddeiliaid ar gynnwys drafft cychwynnol o'r Cynllun Busnes Corfforaethol 2012/15 rhwng Ionawr a Mawrth 2012. Adroddwyd ar ganlyniadau hyn i Fwrdd y Comisiynwyr ar y pryd a phenderfynwyd argymell y dylid mabwysiadu'r Cynllun Busnes Corfforaethol yn amodol ar gynnwys rhai

newidiadau i’r ddogfen derfynol.

1.1.4 Yn ychwanegol i’r ymgynghoriad cychwynol yma, lluniwyd adroddiad perfformiad blynyddol a oedd cyflwyno hanes perfformiad y Cyngor yn ystod 2011/12 ac yn adnabod meysydd gwella I’r dyfodol. Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan y Cyngor ym mis Hydref 2012.

1.1.5 Yn dilyn y penderfyniad i beidio â mabwysiadu'r cynllun corfforaethol a gwella hyd at adeg pan roedd y Cyngor newydd wedi sefydlu ei drefniadau gwaith, cynhaliodd y Cyngor waith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid gan ofyn i ddinasyddion Ynys Môn am eu blaenoriaethau.

1.1.6 Y prif feysydd blaenoriaeth a nodwyd drwy 'Gwneud Gwahaniaeth' - sy'n atgyfnerthu'r blaenoriaethau nodwyd mewn Arolwg tebyg yn 2012 - oedd:

- Cefnogi'r y bobl mwyaf bregus
- Datblygu'r Economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion .

1.1.7 Gwnaed newidiadau pellach i’r cynllun gwella yn dilyn yr ymgysylltiad o fis Awst i Fedi 2013 fel ein bod fel corfforaeth mewn sefyllfa i fabwysiadu’r cynllun atodol.

**D – Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini:

Ystyried a chynnig sylwadau ar gynnwys y Cynllun Gwella o ran adnabod prif flaenoriaethau’r Cyngor o fewn fframwaith y cynllun busnes corfforaethol cyfredol fydd yn weithredol hyd at y 31ain o Fawrth, 2014.

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad:** | Gethin Morgan |
| **Teitl y Swydd:** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen |
| **Dyddiad:** | Hydref 2013 |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# CYNLLUN GWELLA 2013/14

## Medi 2013

DRAFT

**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7TW**
**Ffôn: (01248) 752111**

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad a Chyd-destun 3**

**2. Cynnal a Moderneiddio Gwasanaethau Plant**

2.1. Cefndir a Chyflwyniad
2.2. Beth fydd yn ei le gennym
2.3. Beth mae ein Dinasyddion yn ei ddweud wrthym
2.4. Amcanion Gwella 2013/14
2.5. Mesur Llwyddiant

**3. Gwella ein Darpariaeth Addysg**

3.1. Cefndir a Chyflwyniad
3.2. Beth mae ein Dinasyddion yn ei ddweud wrthym
3.3. Amcanion Gwella 2013/14
3.4. Mesur Llwyddiant

**4. Trawsnewid ein Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

4.1. Cefndir a Chyflwyniad
4.2. Beth mae ein Dinasyddion yn ei ddweud wrthym
4.3. Amcanion Gwella
4.4. Mesur Llwyddiant

DRAFT

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Yn ôl ein Cynllun Trawsnewid, erbyn  2016, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn …

> ***… "gyngor proffesiynol a threfnus sydd ag ymagwedd iach ac arloesol, sydd wedi ymrwymo i ddatblygu pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o safon a werthfawrogir yn fawr gan gwsmeriaid"***

Ar 1 Hydref 2012, bu i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau adfer rheolaeth ddemocrataidd i'r Cyngor gan ddirwyn i ben yn 'eithaf llwyddiannus' gyfnod adfer y broses ymyrryd lle bu i brif rôl y Comisiynwyr droi'n rôl monitro ac asesu.  Ers hynny, rydym wedi gallu dangos ein bod, fel Cyngor, yn gallu rheoli ein busnes ein hunain yn annibynnol ar ymyrraeth allanol, a hynny trwy arwain ar yr elfennau hanfodol y disgwylir o sefydliad aeddfed yn y sector cyhoeddus a datblygu ar yr elfennau hynny. O'r herwydd, ar 31 Mai 2013, daeth ymyrraeth Llywodraeth Cymru ym Môn i ben a rhoddwyd i'r Cyngor newydd gyfrifoldeb cyffredinol am lywodraeth leol ar yr Ynys.

Mae'r Cynllun Gwella hwn yn rhan bwysig o gynnal y momentwm hwnnw yn ogystal â symud ymlaen gyda'r rhaglen trawsnewid gyffredinol gan fod hon yn nodi beth fydd ein prif flaenoriaethau o ran cyflawni gwasanaeth a gwella corfforaethol dros y deuddeg mis nesaf.  Proses flynyddol a statudol barhaus yw hon sy'n ei gwneud yn bosibl i'r Awdurdod grynhoi a greddfu'r mantra 'gwelliant parhaus' trwy'r sefydliad ac, i'r perwyl hwn, mae'n cyflawni ein dyletswydd gyffredinol dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009) i wella o flwyddyn i flwyddyn.

Nodwyd yr Amcanion Gwella sydd yn y ddogfen hon trwy broses gwerth a gynorthwywyd ac a luniwyd gan –

- Meysydd allweddol y Pwyllgor Gwaith a'r Cyn-gomisiynwyr ar gyfer gwella
- Meysydd gwella a nodwyd gan reoleiddwyr allanol
- Meysydd gwella a nodwyd yn adroddiad blynyddol 2012 (sy'n edrych yn ôl) y Cyngor
- Meysydd gwella a nodwyd fel rhan o'r cylch blynyddol o adolygiadau perfformiad gwasanaeth
- Meysydd gwella a nodwyd trwy ymgysylltu â dinasyddion ac ymgynghori â nhw

DRAFT

Mewn cyd-destun ehangach a mwy diweddar, dylanwadwyd ar yr Amcanion Gwella hefyd a'u cynorthwyo trwy ddadansoddi canlyniadau a gwendidau Cynllun Gwella 2011/2012 oedd yn edrych yn ôl a chan ein hunanasesiad cyntaf erioed a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2013. Nododd hwn y chwe thema allweddol a fydd yn cynnal y modd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol, sef:-

**Thema 1 – Proffesiynol a threfnus**

**Thema 2 – Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**

**Thema 3 – Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**

**Thema 4 – Gwerthfawrogi ac yn datblygu ein pobl**

**Thema 5 – wedi ymrwymo i bartneriaeth**

**Thema 6 – Cyflawni**

Mae'r Amcanion Gwella a amlinellwyd yn dangos nifer o sialensiau sylweddol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei wynebu ac ymdrin â nhw'n effeithiol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a thu draw i hynny fel bod modd dangos ein bod yn gallu gwella a'n bod yn benderfynol o wneud hynny. Ymhlith y sialensiau hyn mae adfer ein darpariaeth Addysg yn sgil yr arolwg rheoleiddiol diweddar, cynnal ein gwelliannau a moderneiddio gwasanaethau plant, a moderneiddio a thrawsnewid ein gwasanaethau oedolion a'n model o ddarparu. At hyn, bydd creu Cyngor newydd ynghyd â datblygiadau'r Ynys Fenter yn sialens wrth bennu safle'r Cyngor yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd raid cwrdd â'r holl sialensiau hyn wrth weithredu mewn hinsawdd ariannol dynn iawn gyda goblygiadau sylweddol yn sgil y diwygiad lles.

Mae'r rhain yn feysydd gwaith sylweddol a byddant yn gyrru trawsnewid arwyddocaol yn y Cyngor ac ym Môn. O'r herwydd, maent yn ganolog i'r Cynllun Trawsnewid ac i'r meysydd penodol sy'n canolbwyntio ar y canlyniad. Dyma'r Amcanion Gwella ar gyfer y flwyddyn gyfredol nesaf:-



DRAFT

## Cynnal gwelliannau a moderneiddio Gwasanaethau Plant i sicrhau y caiff plant eu gwarchod rhag niwed a chamdriniaeth ac y caiff eu lles, eu hannibyniaeth a'u sefydlogrwydd eu hyrwyddo

Yn ôl adroddiad Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd yn 2011 o amgylch trefniadau i asesu a rheoli gofal am blant mewn angen ym Môn, roedd gwendidau difrifol ynghylch diogelu plant oedd yn cyfiawnhau ymchwilio i mewn ymhellach iddynt. Ym mis Hydref 2011, canfu archwiliad dilynol bod angen i'r cyngor gynyddu cyflymder a maint y gwella er bod rhaglen o welliannau wedi ei rhoi yn ei lle. Mewn ymateb, bu i ni sefydlu Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant y cefnogwyd ei waith gan dîm cefnogi annibynnol y gwasanaethau cymdeithasol a bu iddo roi sialens barhaus ac annibynnol; ailstrwythuro Gwasanaethau Plant, penodi pennaeth newydd i Wasanaethau Plant yn ogystal â phenodi Cyfarwyddwr Cymunedau newydd (sy'n cynnwys cylch gorchwyl y Gwasanaethau Cymdeithasol).

Mae'r gweithredoedd hyn yn cyfrannu at raglen o newid diwylliannol i ymrymuso'r gweithlu a rhoi sylw i berfformiad. Cynhaliwyd cynnydd a chryfhawyd mwy ar obaith o welliant parhaus trwy'r broses recriwtio lwyddiannus ar gyfer staff rheng flaen gwaith cymdeithasol. At hyn, mae Gwasanaethau Plant, bellach, yn perfformio'n dda pan gânt eu meincnodi yn erbyn data perfformiad yng Nghymru (2011/12). Yn ogystal, bwriwyd ymlaen gyda gwaith recriwtio rheolwyr canol / uwch reolwyr. Ar gyfer 2013/14 rydym yn dymuno cysoni'r gwelliannau mewn perfformiad wrth, hefyd, wella ansawdd darpariaeth gyda'r bwriad o adolygu faint o rannau o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae hwn yn amser o newid mewn darpariaeth gofal cymdeithasol a rhaid i Wasanaethau Plant fod yn fodern, bod â sgiliau a bod yn wasanaeth y mae modd ei addasu er mwyn cwrdd ag anghenion plant a theuluoedd Môn

Roedd Gwasanaethau Plant yn rhan o Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012/13 ac, o'r herwydd, bydd hwn yn barhad o waith y cychwynnwyd arno eisoes.

## Gwella ein darpariaeth Addysg fel bod modd i blant yr Ynys, ble bynnag y bônt, waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni eu llawn botensial

Daeth adroddiad ac archwiliad Estyn yn 2012 i'r casgliad bod ein gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn 'anfoddhaol' a bod y gobaith o welliant hefyd yn 'anfoddhaol'. Sefydlwyd Bwrdd Adfer a datblygwyd Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg (PIAP) a'i fabwysiadu i roi sylw i saith argymhelliad Estyn dan arweiniad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes oedd newydd ei benodi. O'r herwydd, bydd yr Amcanion Gwella ar gyfer Addysg yn parhau ac yn adeiladu ar gynnydd i ddarparu'r PIAP. Yn ystod y deuddeng mis nesaf bydd yr agenda Addysg yn sialens i ni ganolbwyntio arni wrth gyflawni gwelliant ym mhob un o'r argymhellion, gyda phwyslais arbennig ar ddangos gwelliant ar hanes blaenorol o ran -

- codi safonau ymhob cyfnod allweddol
- gwell graddfeydd presenoldeb



DRAFT

- moderneiddio ysgolion

**Trawsnewid ein darpariaeth Oedolion i ymrymuso pobl hŷn ym Môn trwy roi iddynt gymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth â phosib yn y gofal y byddant yn ei gael yn y dyfodol**

Rydym yn cydnabod bod gofyn i ofal Cymdeithasol i Oedolion drawsnewid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn cwmpasu agenda llawer ehangach na'r hyn y mae wedi'i wneud hyd yn hyn - symud tu draw i ddarparu gofal cymdeithasol a thuag at ddarparu gweledigaeth i oedolion ym Môn a honno'n weledigaeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, sy'n gyfannol ac yn gydgysylltiedig. Gwnaed cynnydd yn barod i gryfhau'r seilwaith ar gyfer y trawsnewid gofynnol mewn Gwasanaethau Oedolion trwy adolygu ar y cyd y sustemau ariannol a busnes gofynnol er mwyn bod o gymorth gyda'r newidiadau gofynnol. Bellach mae'r ymgynghoriad cyntaf gyda'r cyhoedd yng nghyswllt trawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion wedi'i gwblhau gyda'r cyhoedd a'r aelodau'n ymgysylltu'n dda.

Mae hyn wedi bod o gymorth gyda'r cyfnod gweithredu nesaf y mae'r Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth wedi ei ddatblygu a chytuno iddo. Prif fyrdwn yr amcanion gwella hynny fydd:

- Ailddatblygu ein gwasanaeth ailalluogi i gefnogi a chynorthwyo pobl sydd wedi cael salwch tymor byr i gadw eu hannibyniaeth
- Gwella ystod gwasanaethau yn y cymunedau a pha mor aml y maent ar gael i bobl hŷn. Fel hyn, ni fydd cymaint o angen ar gartrefi gofal preswyl
- Gwneud gwaith paratoadol i arwain penderfyniadau a'u cynorthwyo ynghylch modelau darparu gwasanaethau newydd a fydd yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Er cydnabod mai'r amcanion hyn yw ein blaenoriaeth fwyaf ar gyfer 2013/14, mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i gynyddu meysydd gwaith eithriadol a ddaw o Gynllun Busnes Corfforaethol 2012-15, ynghyd ag argymhellion gan reoleiddwyr fel y nodir yn ein Hadroddiad Gwella 2012/13. Cynhelir y meysydd gwaith hyn ac adroddir arnynt yn rheolaidd trwy'r fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2012/13.



DRAFT

## Cynnal Gwelliannau i Wasanaethau Plant i sicrhau y caiff plant eu gwarchod rhag niwed a chamdriniaeth a bod eu lles, eu hannibyniaeth a'u sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo

### Y Cefndir a'r Pwysigrwydd

Rydym yn credu mewn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc ym Môn yr ydym yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer. Yn hyn o beth, rydym yn credu y cawn ein barnu, nid yn unig am yr hyn yr ydym yn ei wneud, ond am yr effaith yr ydym yn ei chael ar ganlyniadau i blant. Golyga hyn y gellir disgwyl i blant, oherwydd ein hymyrraeth:

- Fod yn ddiogel
- Fod yn iach
- Gael sefydlogrwydd yn eu bywydau.
- Gyflawni eu potensial
- Gael llais a chymryd rhan mewn penderfyniadau allweddol ynghylch eu bywydau



Rydym wedi sefydlu bwrdd gwella gwasanaethau plant amlasiantaethol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynyddu nifer y gweithwyr cymdeithasol a buddsoddi mewn datblygu sgiliau a gallu staff i gyflawni eu rolau statudol. Cafodd y prosesau rheoli ac asesu achosion o fewn y gwasanaeth eu gwella a chafwyd mwy o waith sgriwtini rheoli ac arwain y gwasanaeth. Yn gryno, y dull gweithredu oedd cymryd pob cam angenrheidiol i wella perfformiad mewn meysydd allweddol wrth asesu a rheoli gofal wrth gynnal perfformiad da ar draws y bwrdd. Golygodd hyn y bu i ni ganolbwyntio ar:

- Sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael ymateb da ac amserol i'w hanghenion
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu gwarchod gan y bobl gywir, yn y swyddi cywir, gyda'r hyfforddiant, gallu a'r cymwysterau cywir i wneud y gwaith.
- Ymdopi y tu mewn i'r gyllideb a recriwtio a chynnal gofalwyr maeth sydd â'r sgiliau a'r profiad addas.

Mae perfformiad wedi gwella ar draws y Gwasanaeth ym mhob maes bron yn ddieithriad a bron iawn mewn 100% o'r meysydd ar gyfer ein dangosyddion Perfformiad Allweddol.

### Beth fydd yn ei le gennym?

Ar gyfer 2013/14 mae gennym Gynllun Busnes cynhwysfawr yn ei le sy'n cynnwys amcanion darparu datblygiadol a 'beunyddiol' a gânt eu darparu gan weithlu sydd wedi ei ymestyn o'i sefyllfa flwyddyn yn ôl ac sy'n newydd o ran ei amser ym Môn ac o ran profiad cyffredinol. Rhydd

hyn i ni ddau gyfle sy'n codi o weithlu newydd ifanc a llawn egni ond, hefyd, risgiau i sicrhau ein bod yn gallu ymdopi â bod yn ddibrofiad. Fodd bynnag, rydym yn datblygu gwell cefnogaeth gan staff o ran hyfforddiant a datblygu rheolwyr.

Ar gyfer 2013/14 rydym yn dymuno cysoni'r gwelliannau mewn perfformiad wrth, hefyd, wella ansawdd y ddarpariaeth a bwriadu adolygu faint o rannau o'r gwasanaeth sy'n cael eu darparu. Mae hwn yn amser o newid o ran darparu gofal cymdeithasol a rhaid i Wasanaethau Plant fod yn fodern, bod â sgiliau a bod yn wasanaeth y mae modd ei addasu i gwrdd ag anghenion plant a theuluoedd Môn.

## Beth y mae ein Dinasyddion yn ei ddweud wrthym?

Rydym yn gwrando ar farn y plant, pobl ifanc a'r teuluoedd yr ydym yn gweithio â nhw ac yn gofyn am y farn honno ond mae'n faes yr ydym (yn 2013/14) yn bwriadu gwella arni i sicrhau ein bod yn cael mwy o adborth ac ymgysylltiad. Ar hyn o bryd, rydym yn casglu sylwadau ac adborth trwy wahanol ffyrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol; ffurflenni adborth o gynadleddau ac adolygiadau; grwpiau ffocws pobl ifanc; adborth gan bartneriaid darparu ac mewn trafodaethau efo nhw; trafodaethau anffurfiol gyda rhieni, gofalwyr a, thrwy adolygiadau, gyda phlant; grwpiau rhieni maeth; prosesau canmol a chwyno ffurfiol. O'r rhain, rydym wedi dysgu bod yn rhaid i ni barhau i wella o ran gwrando ar ddefnyddwyr ein gwasanaeth, ymateb yn well i bryderon a godwyd, gweithio i atal materion rhag gwaethygu, gweithio gyda mwy o bartneriaid a'i gwneud yn haws i bobl ddod atom, a hyn i gyd er ein bod yn gwella'r hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud

## Amcanion Gwella Arfaethedig 2013/14

| *Blaenoriaeth Datblygu* | *Amcanion Gwella* |
|---|---|
| Byddwn yn cynnal ac yn cysoni perfformiad a gafwyd yn 2012/13 mewn perthynas â dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n sicrhau y bydd plant, lle bônt yn gymwys, yn cael ymateb da ac amserol i'w hanghenion. | Penderfyniadau ar bob cyfeiriad o fewn pedair awr ar hugain |
| | Bydd plant a theuluoedd yn cael asesiad cychwynnol o fewn saith niwrnod i gael eu cyfeirio |
| | Os ydynt yn gymwys, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael asesiad Craidd o fewn pymtheg diwrnod gwaith ar hugain |
| | Bydd plant yn cael eu gweld gan weithiwr cymdeithasol yn ystod y broses asesu gyntaf |
| | Gostyngiad mewn ailgyfeiriadau |
| Byddwn yn cynnal ac yn cysoni perfformiad a gafwyd yn 2012/13 mewn perthynas â dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n | Bydd adolygiadau o Gynadleddau Gwarchod Plant yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen |

DRAFT

| | |
|---|---|
| sicrhau y bydd gan blant gynlluniau gwarchod cyfredol a da sy'n sicrhau y bodlonir eu hanghenion. | |
| Byddwn yn cynnal ac yn cysoni perfformiad a gafwyd yn 2012/13 mewn perthynas â dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n sicrhau y bydd gan blant gynlluniau gofal cynaliadwy, cyfredol o ansawdd da sy'n sicrhau y bodlonir eu hanghenion. | Bydd pob plentyn sydd mewn gofal yn cael adolygiad statudol fel y nodir mewn cyfarwyddiadau ac yn statudol |
| | Cynhelir ymweliadau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth |
| Byddwn yn cynnal ac yn cysoni perfformiad a gafwyd yn 2012/13 mewn perthynas â dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n sicrhau y bydd plant yn cael cefnogaeth yn y gymuned leol neu gan deulu yn hytrach nag mewn gofal sefydliadol, lle bo hynny'n bosib. | Ni fydd plant yn newid lleoliad onid yw wedi ei gynllunio mewn ymateb i'w hanghenion |
| | Byddwn yn ailfodelu strategaeth lleoliadau gan gynnwys recriwtio ugain o ofalwyr maeth newydd ac ychwanegol yn ystod y flwyddyn a chynnal digon o ofalwyr maeth i gwrdd ag anghenion lleol |
| Ailstrwythuro'r Gwasanaeth i wella gwaith darparu gwasanaethau | Cynllun ar gyfer ailstrwythuro wedi ei orffen a'i weithredu |
| Gwella sefydlogrwydd o fewn y gweithlu | Bydd trosiant staff yn gostwng 15% yn ystod y flwyddyn |
| | Bydd absenoldeb oherwydd salwch yn gostwng 15% yn ystod y flwyddyn |
| Datblygu'r sgiliau a'r capasiti o fewn y gweithlu | Gweithredu'r Strategaeth Datblygu Gweithlu, gan gynnwys y Cynllun Hyfforddi cysylltiedig |
| Arfarnu effeithiolrwydd y model cyfredol o ddarparu gwasanaeth | Dylanwadu ar waith datblygu mwy o wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar trwy Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc gan gynnwys cefnogi gwaith gweithredu'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.<br><br>Datblygu trefniadau cefnogi teuluoedd dwys fel bod gwella ar gyfleoedd i sicrhau canlyniadau da yn y tymor hir i blant mewn teuluoedd sydd mewn argyfwng a lle mae diogelwch y plentyn yn bryder a'u parhad yno mewn amheuaeth.<br><br>Ailfodelu'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc gydag anableddau i greu gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ac sydd yn darparu o fewn adnoddau cyfredol ac sy'n cael ei gydnabod gan blant, pobl ifanc, |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | rhieni a gofalwyr fel un sy'n cwrdd â'u hanghenion.<br><br>Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a'r partneriaid i ddarparu'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) ar y cyd |
| Gweithredu a gwreiddio'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd | Sefydlu a gweithredu rhaglen archwilio gynhwysfawr, adroddiadau a chynllluniau gwella |
| Byddwn yn cryfhau gwaith datblygu a deall aelodau/uwch reolwyr sydd â chyfrifoldebau corfforaethol i ddeall rôl a swyddog y gwasanaethau Plant a pha mor dda y maent yn cwrdd ag anghenion yn lleol a rhoi iddynt y flaenoriaeth briodol | Gweithredu Protocol Laming a'r broses adrodd |

**Mesur ein Llwyddiant**

| Cyfeirnod | Teitl | Allbwn 12/13 | Mewnbwn 13/14 |
|---|---|---|---|
| 006 | Penderfyniadau ar bob cyfeiriad yn cael eu gwneud cyn pen pedair awr ar hugain<br>Cyfeiriadau lle gwneir penderfyniad achos cyn pen pedair awr ar hugain | 98.47% | 100% |
| O42a<br>O42b | Plant a theuluoedd yn cael asesiad cychwynnol cyn pen saith niwrnod gwaith i gael eu cyfeirio<br>Asesiadau cychwynnol cyn pen saith niwrnod<br>Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gwblhau Asesiadau Cychwynnol a gymerodd yn hwy na saith niwrnod | 80.37%<br>13.83 | 85%<br>13 |
| 043a<br>O43b | Defnyddwyr gwasanaeth yn cael asesiad craidd cyn pen pymtheg diwrnod gwaith ar hugain<br>Asesiad Craidd cyn pen pymtheg diwrnod ar hugain<br>Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gwblhau Asesiadau Cychwynnol a gymerodd yn hwy na phymtheg diwrnod ar hugain. | 89.43%<br>50.54 | 75%<br>45 |
| O11a | Plant yn cael eu gweld  gan weithiwr cymdeithasol yn ystod y broses asesu gychwynnol<br>% yr Asesiadau Cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle ceir tystiolaeth y gwelwyd y plentyn gan Weithiwr Cymdeithasol cymwys | 89.81% | 90% |
| 010 | Gostyngiad mewn ailgyfeiriadau<br>Canran y cyfeiriadau sy'n ailgyfeiriadau cyn pen 12 mis | 25.02% | 26% |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 014 | Nifer y Cynadleddau Gwarchod Plant sy'n cael eu cynnal o fewn yr amserlen<br>Canran y cynadleddau gwarchod plant cychwynnol y mae eu disgwyl mewn blwyddyn ac a gynhaliwyd cyn pen pymtheg diwrnod gwaith i'r drafodaeth strategaeth | 95.51% | 100% |
| 021 | Plant mewn gofal yn cael adolygiad statudol fel y nodir mewn cyfarwyddiadau ac yn statudol<br>Canran o'r adolygiadau o blant mewn gofal a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni statudol | 97.21% | 100% |
| 025 | Ymweliadau statudol a gynhaliwyd yn unol â'r ddarpariaeth<br>Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal | 90.54% | 95% |
| 004 | Newid heb ei gynllunio i leoliad plentyn<br>3 lleoliad neu fwy ac yn parhau mewn gofal | 8.75% | 8% |
| | Recriwtio gofalwyr maeth newydd ac ychwanegol yn ystod y flwyddyn | | 10 |

DRAFT

# Gwella ein darpariaeth Addysg fel bod modd i blant yr Ynys, ble bynnag y bônt, waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni eu llawn botensial

## Cefndir a Chyflwyniad

Mewn ymateb i adroddiad Estyn, dywedodd Cyngor Môn mai ein bwriad oedd gweithio gyda'r holl randdeiliaid i adeiladu ar y meysydd o arfer da a rhoi sylw llawn i'r ffaeleddau a nodwyd er mwyn gwella gwasanaethau addysg. Heb unrhyw amheuaeth, derbyniodd Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg Estyn (PIAP), y cytunodd y Cyngor iddo wedi hynny, bod angen cynllun gweithredu cadarn ac effeithiol sydd â'r nod o roi sylw i holl argymhellion Estyn o fewn yr amser byrraf ond cynaliadwy.

Mae'r Môn newydd yn dymuno i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y bo, waeth beth yw ei gefndir a'i amgylchiadau, gyflawni ei lawn botensial a bod yn barod i chwarae rôl weithgar fel dinesydd cyfrifol a phencampwr cymunedol y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, rydym yn derbyn bod angen codi safon addysg ym Môn trwy herio'r ffordd o feddwl, annog arloesedd a datblygu seilwaith ysgol a fydd yn:-

- Codi safonau dysgu a chyrhaeddiad,
- Gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc ac yn torri'r cysylltiad rhwng amddifadrwydd a chyrhaeddiad addysgol isel, ac yn
- Ymatebol i'n rhaglen gwella economaidd-gymdeithasol a chymunedol.

Rhennir y PIAP yn bump - argymhellion a ffaeleddau, amlinelliad o'r camau i'w cymryd, cynllun gweithredu manwl, matrics perfformio a Chynllun Rheoli Perfformiad. Mae'r rhain i gyd yn rhoi sylw i'r saith argymhelliad a wneir yn Adroddiad terfynol Estyn o'r Arolwg. Wrth roi sylw i'r ffaeleddau a'r gwendidau hyn, mae'r Môn newydd yn dymuno sicrhau bod ysgolion a safonau'n arwain y sector ym mhob cymuned. Caiff hyn ei gyflawni trwy gael ysgolion effeithiol a myfyrgar yn y lleoliad cywir, yn cael eu harwain gan brifathrawon ysbrydoledig gyda digon o arweinyddion ar bob lefel. Bydd yr ysgolion unfed ganrif ar hugain hyn, sy'n addas i'w pwrpas, yn cael eu gyrru gan yr agenda moderneiddio ac yn cael eu cynnal gan ddymuniad y Cyngor i sefydlu, yn y tymor hwy, gynlluniau mentrau cymdeithasol mewn cymunedau gyda golwg ar ddatblygu cymunedau prysur a chynaliadwy.

DRAFT

DRAFT

### Beth mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym?

Dangosodd canlyniadau ein Harolwg Preswylwyr 2012, a ategwyd gan ein gweithgaredd ymgysylltu yn 2013, bod ymatebwyr o’r farn mai’r ffactorau pwysicaf wrth wneud rhywle’n lle da i fyw ynddo oedd gwasanaethau iechyd, lefelau isel o droseddu, **cyfleusterau addysg**, a chefnogaeth i bobl hŷn a’r gobaith o gael gwaith. Yn wir, dywedodd 91% bod addysg / cyfleusterau addysgol da yn bwysig yn yr ystyriaeth hon. Fodd bynnag, mae’r Cyngor wedi ymrwymo i roi sylw i’r gwendidau a nodwyd yn adroddiad arolwg ESTYN, er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr grwpiau ffocws hefyd o’r farn bod y gwasanaeth ysgolion ac addysg gyffredinol ym Môn yn wych.

Fel y nodwyd ynghynt, bydd yr agenda moderneiddio hwn yn cael ei gynnal gan ein dymuniad i sefydlu, yn y tymor hwy, gynlluniau mentrau cymdeithasol mewn cymunedau gyda golwg ar ddatblygu cymunedau prysur a chynaliadwy. Mae ysgolion ac arweinyddion ysgol i’w gweld yn ganolog i wireddu’r weledigaeth tymor hwy hon.

### Ein Hamcanion Gwella 2013/14

| Blaenoriaeth Datblygu | Amcanion Gwella - |
|---|---|
| Ym mhob cyfnod allweddol, cynyddu nifer yr ysgolion sydd yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg a lleihau’r 25% o ddisgyblion Blwyddyn 7 sydd ag oed darllen dan lefel llythrennedd ffwythiannol yn y Gymraeg a’r Saesneg. | Perfformiad yr awdurdod mewn dangosyddion allweddol ym mhob un cyfnod allweddol ar y lefel a ddisgwylir yng nghyswllt Prydau Ysgol am Ddim neu uwch law’r lefel honno. |
| | Perfformiad yn y Dangosyddion Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 a TL2+ ac uchafswm sgôr pwyntiau yng nghyfnod Allweddol 4 ar fodel ystadegol Llywodraeth Cymru neu uwchlaw’r model hwnnw. |
| | Mwy na hanner yr ysgolion yn hanner uchaf dosbarthiad Prydau Ysgol am Ddim yn y dangosyddion allweddol ym mhob un cyfnod Allweddol a chynnydd yn y nifer yn y chwarter uchaf |
| | Dim ysgol mewn mesurau arbennig neu wella sylweddol a gostyngiad yn y nifer y nodwyd bod arnynt angen eu monitro gan Estyn |
| | Gostyngiad yn nifer y disgyblion nad ydynt yn cyflawni llythrennedd ffwythiannol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 |
| Gwella lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd a throi’r duedd sy’n mynd at i lawr yn y sector cynradd | Strategaeth cynhwysiad a phresenoldeb gynhwysfawr yn cael ei datblygu, ei chefnogi a’i gweithredu gan ysgolion, yr Awdurdod a’i bartneriaid |
| | Presenoldeb yr Awdurdod ym mhob un o’r ysgolion uwchradd ar linell atchwel disgwyliedig Prydau Ysgol am Ddim neu uwchlaw iddi |

| | |
|---|---|
| | Mwy na hanner yr ysgolion yn hanner uchaf dosbarthiad Prydau Ysgol am Ddim o ran presenoldeb |
| Gostwng gwariant fesul disgybl gydag ADY ym Môn Rheoli'n well gyllideb integredig ysgolion | Ymgynghori ynghylch Strategaeth Moderneiddio Ysgolion gynhwysfawr ac uchelgeisiol a'i mabwysiadu |
| | Gwariant integreiddio Cynradd i aros o fewn y gyllideb yn 2012/13, a chynlluniau clir yn eu lle i sicrhau llwyddiannau tebyg mewn perthynas â'r gyllideb integreiddio eilradd |
| | Bydd pob ysgol gyda chyllidebau â diffyg ac sydd â chynlluniau adfer cadarn yn dangos sut y rhoddir sylw i ddiffygion dros gyfnod penodol |
| | Gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd ar gyfer lleoliadau na chânt eu cynnal yn cael eu mireinio a rheolwyr yn cael gwybod ymlaen llaw y bydd hyn o gymorth wrth ddyrannu arian yn 2013/14. |
| | Datblygu meini prawf diwygiedig am fwy o arian AAA ar y cyd gydag ysgolion a'u hintegreiddio i fformiwlâu ar gyfer dirprwyo adnoddau |
| Gostwng canran y lleoedd gwegion yn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd y sir | Gostyngiad yn ôl-troed ysgolion a gostyngiad cysylltiedig yn nifer a % y lleoedd gweigion erbyn mis Medi 2014 [4% cynradd, 5% uwchradd]. |
| | Cytundeb ymhlith rhanddeiliaid allweddol ar egwyddorion allweddol y rhaglen moderneiddio ysgolion |
| | Cytundeb ar gynnwys y strategaeth moderneiddio ysgolion a'r arian cysylltiedig. |

DRAFT

**Mesur ein Llwyddiant**

| Cyfeirnod | Teitl | Allbwn12/13 | Mewnbwn 13/14 |
|---|---|---|---|
| CA2 | % o'r disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd<br>a / neu<br><br>Gostyngiad yn nifer y disgyblion nad ydynt yn cyflawni ffwythiant llythrennedd ar ddiwedd CA2<br>Yn y Saesneg<br>Yn y Gymraeg | <br>84.7%<br><br><br>I'w gadarnhau | <br>84.2%<br><br><br>I'w gadarnhau<br>19%<br>22% |
| CA3<br>CA4 | % o'r disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd<br>% o'r disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+<br>% o'r disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2<br>% o'r disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L1<br>% o'r disgyblion 15 oed sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd | 77.9%<br>52.2%<br>73.9%<br>92.6%<br>50.7% | 75.8%<br>59.8%<br>76.1%<br>98.4%<br>58.6% |
| | % y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd mewn ysgol gynradd<br>% y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd mewn ysgol uwchradd<br>Absenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd | 5.7%<br>7.8%<br>7.8% | 4.9%<br>7.5%<br>? |
| | Ysgolion mewn mesurau arbennig neu'n gwella'n sylweddol | ? | Dim |
| | Eithriadau Parhaol,<br>Eithriadau Dros Dro | *<br>41.7 | 5<br>45 |
| | Gostyngiad yn nifer a % y lleoedd gweigion erbyn mis Medi 2014<br>a/neu<br><br>% cyfanswm y lle na chafodd ei lenwi mewn ysgolion cynradd<br>% cyfanswm y lle na chafodd ei lenwi mewn ysgolion uwchradd | <br><br><br>?<br>? | 4% cynradd<br>5% eilradd<br><br>23.5%<br>27% |

*datgelir y data

DRAFT

## Trawsnewid ein darpariaeth Oedolion i ymrymuso pobl hŷn ym Môn trwy roi iddynt gymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth â phosib yn y gofal y byddant yn ei gael yn y dyfodol

### Cefndir a Chyflwyniad

Mae gofyn i ofal cymdeithasol i oedolion drawsnewid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i gwmpasu agenda ehangach nag y mae wedi ei wneud hyn yn hyn - symud tu draw i ddarparu gofal cymdeithasol a thuag at ddarparu gweledigaeth i oedolion ym Môn – a honno'n weledigaeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, sy'n gyfannol ac yn gydgysylltiedig. Mae gofyn i'r weledigaeth hon fod yn uchelgeisiol a chynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Bydd pobl ym Môn yn cael cefnogaeth i aros yn eu cartrefi eu hunain – gydag ystod o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael yn y gymuned;
- Oedolion annibynnol ac iach sy'n cael eu cynnwys yn gymdeithasol ac yn economaidd yng nghymuned yr Ynys;
- Cydnabyddiaeth bod cyflwr meddwl a lles iach cyn bwysiced â lles corfforol
- Oedolion sy'n gwybod am fanteision cyflogaeth ac yn gwneud yn fawr ohonynt
- Cydnabyddiaeth bod gan oedolion rolau gwahanol a chymhleth i'w cyflawni (gweithiwr, rhiant, gwirfoddolwr, gofalwr, model rôl i eraill) a chyfrifoldebau cymdeithasol gwahanol - gyda phob un o'r rhain yn cael effaith ar eu safon byw a'u dewisiadau ynghylch eu hiechyd;
- Bydd gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac ataliol yn cael lle amlwg gyda'n partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol;
- Sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Bydd yr egwyddorion a'r ymyraethau hyn yn parhau i lunio gwaith trawsnewid ac ailfodelu'r modelau gwasanaeth a chomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn 2013/14 a'r tu draw i hynny.

### Beth mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym?

Yn sgil ymgynghori helaeth â'r cyhoedd yn ail hanner 2012, mae Gwasanaethau Oedolion yn parhau i ymgysylltu'n eang ynghylch ein gweledigaeth ddiwygiedig gyda dinasyddion, defnyddwyr, gofalwyr, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid eraill ein Hynys. Ymhlith rhai o'r negeseuon allweddol sy'n datblygu o'r ymgysylltiad a'r ymgynghoriad hwnnw, mae:-

- Mae angen i ddewis gynnal pob ymyrraeth ac, fel y cyfryw, mae pobl yn gallu gwneud penderfyniadau cytbwys ac amserol
- Pobl yn dymuno aros adref a gallu defnyddio gwasanaethau yn y gymuned i'w cefnogi



DRAFT

- Angen sicrhau bod digon o wasanaethau cefnogi ar gael i ryddhau gofalwyr anffurfiol o'u cyfrifoldebau gofalu (e.e. gwasanaethau ysbaid a dydd i gwrdd ag anghenion gofal cymhleth)
- Sicrhau gwasanaethau o ansawdd a phobl yn dymuno gwybod beth fydd ffurf gwasanaethau yn y dyfodol
- Bydd wastad angen gofal pedair awr ar hugain ar rai pobl gydag anghenion cymhleth (yn y gymuned a gwasanaethau preswyl / cartref nyrsio tymor hir).

Yn ganolog i'r agenda trawsnewid bydd raid cael agwedd ragweithiol i adeiladu cymunedau cryf ac annibynnol gan ddwyn ynghyd y gwahanol strategaethau a chynlluniau sydd eisoes yn bodoli (e.e. Teleofal / Goriadau Diogel/ Codi Ymwybyddiaeth) er mwyn cefnogi mwy a mwy o bobl yn eu cartrefi / eu cymunedau eu hunain.

## Ein Hamcanion Gwella 2013/14

| ***Blaenoriaeth Datblygu*** | ***Amcanion Gwella*** |
|---|---|
| *Bydd pob oedolyn sy'n cael cefnogaeth, p'run ai gan wasanaethau statudol neu ei fod yn ei ariannu ei hun, yn cael dewis a rheolaeth dros fath y gefnogaeth honno ym mhob man y bydd yn byw* | Trawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion – gwasanaethau pobl hŷn – trwy fwrw ymlaen gyda'n Rhaglen Trawsnewid ar gyfer pobl hŷn – gan roi blaenoriaeth benodol i gryfhau gwasanaethau cymunedol lle ceir mwy o ddewis a llety ar gael i Bobl Hŷn ym Môn (Mawrth 2016) |
| | Gwella Dewis o ran Llety – Gostwng dibyniaeth ar ofal preswyl tymor hir a chynyddu dewisiadau ynghylch llety sydd ar gael i Bobl Hŷn ym Môn |
| *Bydd oedolion a'u gofalwyr yn medru cael mynediad i wasanaethau gofal a chefnogi yn y tymor byr a chanolig, gyda faint o'r gwasanaeth sydd ar gael yn dibynnu ar yr amser, y lle a'r pris* | *Mae gwybodaeth a chyngor parod a hawdd eu deall am wasanaethau Pobl Hŷn ar gael ac rydym wedi sicrhau bod gennym bwyntiau gwybodaeth effeithiol ar draws yr ynys (Mehefin 2014)* |
| | *Ailalluogi - adolygu'r gwasanaeth ailalluogi cyfredol i gefnogi pobl sydd wedi cael salwch tymor byr i gadw eu hannibyniaeth* |
| | *Byddwn yn cwblhau'r adolygiad o'r gwasanaethau eiriolaeth cyfredol* |
| | *Sefydlu Gwasanaeth Caffael / Broceriaeth sydd â'r gallu i brynu gwasanaethau Pobl Hŷn yn ôl y* |

Tudalen 92

| | |
|---|---|
| | *gofyn ac sy'n dangos gwerth am arian (Mawrth 2014)* |
| | *Cefnogi Pobl gyda Dementia – Er mwyn cwrdd â mwy o alw, bydd Gwasanaethau Oedolion yn datblygu mwy ar ei wasanaethau Dementia yn y gymuned iddynt gynnwys gofal dydd arbenigol a gofal pedair awr ar hugain y dydd gan gynhalwyr (Rhagfyr 2014)* |
| | *Cynnal adolygiad o wasanaethau anableddau dysgu ar y cyd gyda phartneriaid (defnyddwyr / gofalwyr, y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Tai)* gan gynnwys adolygu'r atodlen gyfraddau gyfredol ar gyfer Gofal Cartref yng nghyswllt Anabledd Dysgu gyda'n darparwyr |
| | *Egluro'r bwriadau a'r blaenoriaethau comisiynu ar draws sbectrwm y gwasanaethau oedolion gan sicrhau strategaethau comisiynu sy'n gyfoes ac sy'n galluogi'r gwasanaeth i fod mewn lle da i ymateb i ofynion Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2013* |
| *Bod â sustemau yn eu lle i sicrhau y caiff oedolion eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth lle bynnag y bo'n bosib a chael cefnogaeth a gwarchodaeth amserol sydd yn cydymffurfio gyda'r Polisi a'r Cyfarwyddyd Cenedlaethol* | *Byddwn yn gweithio y tu mewn i Fwrdd Cysgodol Diogelu Oedolion Gogledd-orllewin Cymru (sydd newydd ei sefydlu) er mwyn datblygu mwy ar fframwaith diogelu isranbarthol sy'n cydymffurfio gyda gofynion Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2013* |
| *Byddwn yn sicrhau bod ymyrraeth gynnar, ailalluogi ac atal yn ganolog i'n Gweledigaeth a byddwn yn sicrhau bod dinasyddion yn gallu defnyddio gwasanaethau ac adnoddau cymunedol cyffredinol* | *Ymgysylltu eto gyda defnyddwyr / gofalwyr, dinasyddion, partneriaid a rhanddeiliaid eraill ynghylch gweledigaeth ein gwasanaeth sy'n datblygu* |
| *Trwy weithio ar y cyd gydag Iechyd a'r Trydydd Sector, ein nod fydd gwella gwasanaethau cyhoeddus trwy gael mwy o* | *Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw ein partner. Yn unol â bwriadau Llywodraeth Cymru byddwn yn gweithio tuag at sefydlu'r seiliau ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Integredig. Bydd y rhaglen yn cael effaith ar sut y caiff gwasanaethau eu darparu, lle* |

DRAFT

| | |
|---|---|
| *effeithiolrwydd a chydweithio* | *caiff gwasanaethau eu darparu a bydd hyn yn cael effaith ar wasanaethau'r Bwrdd Iechyd hwn. Mae'n hanfodol gwneud y mwyaf o gyfleoedd i weithio ar y cyd.* |
| | *Negodi Cytundeb Adran33 gyda'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ein Storfa Offer Cymunedol Integredig (menter ar y cyd rhwng Gwynedd, Môn, Conwy a'r Bwrdd Iechyd) – erbyn mis Medi 2013* |
| | *Adolygu ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd sy'n cynnal gwasanaethau iechyd meddwl y tu mewn i ethos o welliant parhaus. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar briodoldeb datblygu cytundeb partneriaeth Adran 33 ffurfiol* |
| | *Cyfrannu at arfarniad ar draws Ogledd Cymru o drefniadau Gofal Uwch hyd yn hyn – gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaeth y Bwrdd Iechyd yn lleol a sut y byddwn yn cefnogi datblygu mwy ar Ofal Uwch Môn i osgoi anfon pobl i'r ysbyty - parhaus* |
| | *Gweithio tuag at drefniadau i gael Pwynt Mynediad Sengl ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd fel gweithgaredd prif lif* |
| | *Ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd werthuso ein trefniadau cyfredol ynghylch gwaith cymdeithasol mewn ysbytai* |
| | *Byddwn yn hyrwyddo gwaith ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Trydydd Sector trwy'r Grŵp Cyswllt Sector Gwirfoddol sy'n cwrdd yn chwarterol ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Medrwn Môn. Byddwn yn datblygu fforymau comisiynu a chaffael gyda darparwyr i hyrwyddo ymgysylltu, ymgynghori a chyd-gynhyrchu* |

DRAFT

**Mesur ein Llwyddiant**

| Cyfeirnod | Teitl | Allbwn12/13 | Mewnbwn 13/14 |
|---|---|---|---|
| SCA/002a | Cyfradd y bobl hŷn (65 blwydd oed neu'n hŷn) a gefnogir yn y gymuned fesul 1,000 poblogaeth ac sy'n 65 blwydd oed neu'n hŷn ar 31 Mawrth | 58.94 | 55.00 |
| SCA/002b | Cyfradd y bobl hŷn (65 blwydd oed neu'n hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi yn y gymuned fesul 1,000 poblogaeth ac sy'n 65 blwydd oed neu'n hŷn ar 31 Mawrth | 21.93 | 20.00 |
| SCA/003 | % y cleientiaid, yn y grwpiau oed a ganlyn, a gefnogir yn y gymuned yn ystod y flwyddyn:<br>a) 18-64;<br>b) 65+ | <br><br>93.91<br>80.83 | <br><br>94.0<br>81.0 |
| SCA/020 | % y cleientiaid sy'n oedolion ac a gefnogir yn y Gymuned trwy gydol y flwyddyn. | 84.22 | 85.0 |
| SCA/019 | Canran y cyfeiriadau gwarchod oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg | 92.78 | 95.0 |
| SCA/001 | Cyfradd y trosglwyddiadau gofal a ohiriwyd am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 poblogaeth 75 mlwydd oed neu'n hŷn | 2.53 | 1.75 |
| SCA/018a | Canran gofalwyr i oedolion a gynigiwyd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu rhinwedd eu hunain yn ystod y flwyddyn | 81.73 | 85.0 |
| SCA/018b | Canran gofalwyr i oedolion a gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu rhinwedd eu hunain yn ystod y flwyddyn | 75.00 | 85.0 |
| SCA/018c | Canran gofalwyr i oedolion a gafodd eu hasesu neu eu hailasesu yn eu rhinwedd eu hunain yn ystod y flwyddyn ac a gafodd wasanaeth | 72.00 | 75.0 |

DRAFT

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 28 Hydref, 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Gofalwyr Anffurfiol mewn perthynas ag oedolion – Bwriadau Comisiynu Lleol a Blaenoriaethau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Ceisio safbwyntiau ynglŷn â'r bwriadau comisiynu arfaethedig a'r blaenoriaethau fel sail i'n Strategaeth Comisiynu Gofalwyr sy'n esblygu. |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Brian Jones, Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn |
| **ADRODDIAD GAN:** | Anwen Davies, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL:** | Gwen Carrington, Cyfarwyddwr Cymuned |

## 1.0 CEFNDIR/CYD-DESTUN

### 1.1 Pwy sy'n Ofalwr?

Gall gofalwr fod yn unrhyw un o unrhyw oed, sy'n darparu gofal a chefnogaeth yn ddi-dâl i berthynas, ffrind neu gymydog sydd yn anabl, yn gorfforol neu'n feddyliol wael, neu sy'n cael ei effeithio gan gamddefnyddio deunyddiau[1].

(Strategaeth Gofalwyr Llywodraeth Cymru 2013)

Mae rhai o nodweddion gofalwyr anffurfiol yn cael eu crynhoi yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

Ni ddylid drysu rhwng gofalwr a rhywun sy'n weithiwr gofal neu'n gymhorthydd gofal.

## 2.0 TRAFODAETH

### 2.1 Paham fod gofalwyr angen cefnogaeth?

- Gall gwneud rôl ofalu olygu wynebu bywyd o dlodi, unigedd, rhwystredigaeth, iechyd gwael ac iselder.
- Mae llawer o ofalwyr yn rhoi i fyny incwm, rhagolygon gwaith yn y dyfodol a hawliau pensiwn i ddod yn ofalwr.
- Mae llawer o ofalwyr hefyd yn gweithio y tu allan i'r cartref ac yn ceisio cynnal eu swyddi yr un pryd â'u cyfrifoldebau fel gofalwyr.

[1] Mae Gofalwyr Adfywio Strategaeth Cymru yn darparu fframwaith y gall asiantaethau ledled Cymru weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau a chymorth i Ofalwyr.

- Mae'r rhan fwyaf o'r gofalwyr yn ymdrechu ar eu pennau eu hunain heb wybod bod help ar gael iddynt.
- Fe ddywed gofalwyr bod mynediad i wybodaeth, cefnogaeth ariannol a sail thoriadau oddi wrth ofalu yn hanfodol iddynt allu rheoli'r effaith a gaiff gofalu ar eu bywydau.
- I atal effeithiau niweidiol ar y teulu ehangach (yn cynnwys plant eraill a brodyr/chwiorydd) oherwydd galwadau gofalu.

### 2.2 Gweledigaeth

Mae'n debyg y bydd yna:

- Gynnydd sylweddol mewn gofalwyr hŷn yn edrych ar ôl gwr/gwraig neu bartner.
- Nifer sylweddol o oedolion o oed gweithio yn ymdrechu'n galed i gefnogi rhieni tra'n gwneud swydd arall.
- Gofalwyr o bob oed yn y rôl ofalu am gyfnodau hirach o amser
- Mwy o ofalwyr sy'n rhieni yn edrych ar ôl plentyn gydag anghenion dwys iawn am flynyddoedd.
- Mwy o rieni plentyn sy'n oedolyn gydag anabledd yn gofalu amdanynt ymhell i'w hwythdegau a nawdegau.

Y weledigaeth i ofalwyr ym Môn yw: - **Cymdeithas lle mae gofalwyr o bob oed nad ydynt yn derbyn tâl, yn cael eu cydnabod, a'u gwerthfawrogi a'u cefnogi.**

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth bydd angen cael cyfranogiad gofalwyr, cymunedau a sefydliadau. Y canlyniadau fydd yn dilyn o'r strategaeth yw :

- Dim rhagdybiaeth o gwbl yn cael ei gwneud ynglŷn â chapasiti neu barodrwydd y gofalwyr i gymryd cyfrifoldeb i barhau i ofalu.
- Gofalwyr yn cael eu parchu fel partneriaid gofal arbenigol y bydd iddynt fynediad i wasanaethau integredig a phersonol y maent eu hangen i'w cefnogi hwy yn y rôl o ofalu.
- Bydd gofalwyr yn gallu cael bywyd y tu allan i'w rôl ofalu.
- Bydd gofalwyr yn cael eu cefnogi fel nad ydynt yn gorfod wynebu caledi ariannol oherwydd eu rôl ofalu.
- Bydd gofalwyr yn cael eu cefnogi i barhau'n iach yn feddyliol ac yn gorfforol a chael eu trin gydag urddas.

## 2.3 Proffil Gofalwyr

### 2.3.1 Y rôl a chwaraeir gan ofalwyr anffurfiol

Mae'r ugain mlynedd diwethaf wedi gweld llawer mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd yn gyffredinol, ymysg gwleidyddion a rhai sy'n cynllunio ac yn comisiynu gwasanaeth am y rôl sy'n cael ei chwarae gan ofalwyr di-dâl. Mae yna gydnabyddiaeth fwy o'r angen i gefnogi gofalwyr ac o'r manteision o wneud hynny. Gyda niferoedd cynyddol o bobl hŷn a chynnydd yn y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus mae yna fanteision cymdeithasol ac economaidd amlwg o alluogi gofalwyr i barhau yn eu rôl o ofalu.


### 2.3.2 Gofalwyr yng Nghymru

Roedd Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 370,230 o ofalwyr yng Nghymru sy'n darparu cefnogaeth i'w cyfeillion a'u perthnasau. Ers 2001 fe welwyd cynnydd o tua 30,000 yn y rhai sy'n darparu gofal di-dâl yng Nghymru a hynny'n cynrychioli cynnydd o 3% yn y gyfran sy'n darparu gofal. Roedd y twf mewn gofal di-dâl i'w weld uchaf yn y rhai sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal yr wythnos. Yng Nghymru yn 2011, roedd 103,748 o bobl yn disgyn i'r categori hwn.

### 2.3.3 Gofalwyr ar Ynys Môn.

Cyfanswm poblogaeth Ynys Môn o gyfrifiad 2011 oedd 69,700. **Yn y ffigwr hwn, fe nododd 7,220 o bobl eu hunain fel gofalwyr, sydd yn 10.35% o boblogaeth Ynys Môn**, fodd bynnag, gofalwr sy'n hysbys i'r Adran a Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yn gyfanswm o ychydig o dan 1000 o bobl. Mae hyn yn dangos bod nifer fawr o bobl nad ydynt wedi cael eu hadnabod fel gofalwyr neu sydd ddim yn gweld eu hunain fel gofalwyr anffurfiol. Mae hyn yn amlwg yn un o'r prif flaenoriaethau i nodi a darparu cymorth i'r garfan hon o bobl. Mae dadansoddiad o'r gofalwyr cofrestredig yn dangos bod 62% yn darparu rhwng 1-19 oriau/wythnos, 16% yn darparu rhwng 20-49 oriau/wythnos a 22% yn darparu 50 awr neu fwy yr wythnos.[2] Fe welir graff o'r proffil hwn isod: **Diagram 1**

**Proffil o'r Gofalwyr Anffurfiol ar Ynys Môn**




### 2.4 Sut rydym ni'n Cefnogi Gofalwyr ar hyn o bryd?

2.4.1 Mae'r Tim Gofalwyr yn cefnogi gofalwyr dros 18 oed sy'n cefnogi rhywun dros 18 oed. Mae dau swyddog gofalwyr yn darparu cefnogaeth i ofalwyr. Maent yn cwblhau oddeutu 500 o asesiadau gofalwyr ac adolygiadau y flwyddyn. Mae yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gyllideb bwrcasu hyblyg sydd wedi ei hen sefydlu ac sy'n galluogi'r Swyddogion Gofalwyr i ymateb i anghenion gofalwyr mewn ffordd arloesol a hyblyg.

2.4.2 Mae ein cefnogaeth leol, ein harferion a'n peirianwaith i ofalwyr anffurfiol yn amlochrog:-

---


[2] Cyfleuster lawrlwytho lluosog yw Daffodil i fonitro rhagamcanion yn yr angen am wasanaethau gofal yng Nghymru. Mae'r cyfleuster yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'i letya gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- Mae'r gefnogaeth a ddarperir i ofalwyr yn ymwneud ag ystod eang o wasanaethau ac adnoddau. Tra bod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n uniongyrchol i ofalwyr, mae gwasanaethau eraill yn cael eu darparu i'r person sydd ag anghenion cefnogi ac fe ddylai fod o fudd i ofalwyr trwy leihau'r effaith o ofalu ac/neu y nifer o oriau y maent yn darparu gofal.
- Mae arferion asesu a rheoli gofal yn cymryd anghenion gofalwyr i ystyriaeth pan fo anghenion pobl ag anghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu hasesu.
- Un nod allweddol yw atgyfnerthu os yw gofalwyr i'w cydnabod a'u cefnogi fel partneriaid mewn gofal, fe ddylid ymgynghori â hwy pan fo anghenion y sawl y gofelir amdano yn cael eu hasesu a chynlluniau gofal yn cael eu llunio neu eu hadolygu.
- Mae'r gefnogaeth uniongyrchol a ddarperir i ofalwyr yn cynnwys cyngor a gwybodaeth, cyngor ariannol ac am fudd-daliadau, hyfforddiant gofalwr, datblygiad personol ac adeiladu capasiti, cefnogaeth emosiynol a chwnsela a seibiant byr oddi wrth ofalu. Cefnogir gofalwyr hefyd i ymgysylltu gydag asiantaethau sy'n cefnogi gofalwyr i gael hyfforddiant, cyfleon am addysg a chyflogaeth.
- Mae'n bwysig hefyd bod gan ofalwyr fynediad i wasanaethau cynhwysol fel tai, cludiant, dysgu gydol oes a chyfleon diwylliannol a hamdden a chefnogaeth o fewn ac i mewn i waith, addysg a hyfforddiant.

## 2.5 Pa mor dda ydym ni yn perfformio?

Mae'r maes hwn o'n busnes awdurdod lleol yn destun un o'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n sylfaenol i fframwaith mesur perfformiad Llywodraeth Cymru o safbwynt gofal cymdeithasol i oedolion.


- Mae asesu a chefnogi gofalwyr annffuriol yn bwysig i ni. Yn ystod 2012/13 cafodd 81.7% (10% yn fwy na 2011/12) o ofalwyr anffurfiol i oedolion gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion (o gymharu gyda'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru o 86.8% yn ystod 2012/13).




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Apr - Sept |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 74.2 | 70.1 | 81.7 | 82.4 |
| Cymru | 77.1 | 76.1 | 86.8 | |
| Targed Môn | 85 | 85 | 77 | 85 |


- Aseswyd 75% o ofalwyr y cynigiwyd asesiad iddynt sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol. Er hynny, rydym yn parhau i fod yn llawer gwell na'r cyfataledd cenedlaethol (38.7% yn ystod 2012/13). Mae ein dadansoddiad lleol

o'r data yn dod i gasgliad bod y lleihad hwn mewn perfformiad wedi digwydd yn ystod chwarter 4 y flwyddyn ddiwethaf ac mai'r rheswm pennaf am hynny oedd absenoldeb salwch tymor hir.




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 88.5 | 78 | 75 | 82.9 |
| Cymru | 43.9 | 41.5 | 38.7 | |
| Targed Môn | 80 | 80 | 80 | 85 |

- Cafodd 72% o ofalwyr anffurfiol a aseswyd neu a ailaseswyd wasanaeth oedd fwy neu lai yn adlewyrchu lefelau perfformiad y flwyddyn flaenorol ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (62.8% yn 2012/13).




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 - Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 80.2 | 72.9 | 72 | 66.6 |
| Cymru | 58.3 | 61.6 | 62.8 | |
| Targed Môn | 80 | 80 | 80 | 85 |

Mae ein siwrne wella dros y cyfnod sydd i ddod yn destun adroddiad ar wahân i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini gyda'r teitl Perfformiad Gwasanaethau Oedolion – Chwarter 1.

Rydym wedi parhau i weld tystiolaeth o'n buddsoddiad a'n cefnogaeth i ofalwyr ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr ac yr ydym yn ceisio sicrhau bod gofalwyr yn cael cyfleon i ymgysylltu mewn gweithgareddau ystyrlon y tu allan i'w rôl ofalu.  Un maes sydd yn werth ei grybwyll yn arbennig yw ein hymdrech i sicrhau ymgysylltiad mwy ystyrlon i ofalwyr fel hyfforddwyr a rhai'n cyfranogi mewn hyfforddiant.  Bu cydnabod

rôl arbenigol a gwerthfawr gofalwyr yn hwyluso darparu eu negeseuon pwerus i'n grwpiau staff yn flaenoriaeth i ni.

### 2.6 Deddfwriaeth

Mae yna lawer o ddeddfau sy'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd i ddarparu cefnogaeth o ansawdd dda i ofalwyr. Y diweddaraf yw'r **Strategaeth Gofalwyr Newydd i Gymru**[1]**.** Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith cydlynus, fel y gall asiantaethau ar draws Cymru weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i ofalwyr.

Mae'r meysydd blaenoriaeth allweddol yn y strategaeth yn cynnwys :

- Gofal Iechyd a Chymdeithasol
- Gwybodaeth, adnabod ac ymgynghori
- Gofalwyr ifanc a gofalwyr oedolion ifanc
- Cefnogaeth a bywyd y tu allan i'r rôl ofalu

Mae'r prif fframweithiau cyfreithiol eraill yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 2**

### 2.7 Pencampwr Gofalwyr (Aelod Etholedig)

Yn ddiweddar mae'r Awdurdod Lleol wedi penodi Pencampwr Gofalwyr – y Cynghorydd Llinos Medi Huws. Bydd y Pencampwr Gofalwyr yn:

- Arwain Strategaeth Gofalwyr amlasiantaeth effeithiol fel sydd ei angen o dan y Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010.
- Cynrychioli'r Awdurdod pan fo angen i hyrwyddo materion gofalwyr ar lefel leol a hwyluso gweithio ar y cyd rhwng adrannau'r Cyngor er mwyn cynnig cefnogaeth i ofalwyr.
- Sicrhau bod gan ofalwyr fynediad rhwydd i ffyrdd lle gallant gael eu clywed pan fo'r Awdurdod yn gwneud cynlluniau ynglyn â chomisiynu a datblygu gwasanaeth a hyfforddi staff. Yn arbennig, sicrhau y gallant gymryd rhan yn y broses sgriwtini a bod y Cabinet yn clywed safbwyntiau gofalwyr ynglyn â chynnydd ac/neu adolygiadau o'r Strategaeth Ofalwyr.

### 2.8 Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr

Mae Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr wedi'i sefydlu ac ar hyn o bryd mae'n cael ei gadeirio gan Cynnal Gofalwyr. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Gwasanethau Cymdeithasol a'r Eiriolydd Gofalwyr, sefydliadau trydydd sector sy'n darparu gwasaneth i ofalwyr a chynrychiolwyr gofalwyr sy'n darparu llais i ofalwyr. Pwrpas y Bwrdd Partneriaeth yw:

- Rhannu gwybodaeth a chryfhau cysylltiadau rhwng yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i ofalwyr.
- Sicrhau bod gwasanaethau i ofalwyr yn cael eu cynllunio'n effeithiol, eu darparu a'u hadolygu a sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael.
- Gosod cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau i oedolion ym Môn mewn ymateb i angen lleol ac mewn ymateb i bolisiau lleol a chenedlaethol a fframweithiau strategol.

**2.9 Beth y mae Gofalwyr yn ei ddweud y maent ei eisiau**

Mae gofalwyr ym Môn yn gyson wedi dweud mai'r peth pwysicaf y maent ei angen yw cefnogaeth ddibynadwy o ansawdd dda i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, a digon ohono i'w galluogi i gael cyfleon iddynt eu hunain. Er mwyn gallu gwneud eu rôl ofalu, mae pobl wedi dweud mai'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy yw:

- Cydnabyddiaeth a pharch
- Gwybodaeth a chyngor
- Asesiadau clir a hygyrch o'u hangen
- Cyfleon i gael seibiant o'r rôl ofalu
- Datblygu mwy o wasanaethau ysbaid.

**2.10 Tuag at Strategaeth Gomisiynu**

2.10.1 Bydd gofalwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Strategaeth ar gyfer Gofalwyr a bydd hyn yn bwydo i mewn i strategaeth gomisiynu'r Awdurdod Lleol. Mae 'Cynnal Gofalwyr' wedi anfon holiaduron i oddeutu 900 o ofalwyr sydd wedi cofrestru gyda nhw a rhoddwyd holiadur ar-lein hefyd ar wefan y Cyngor. Mae aseswyr gofalwyr hefyd wedi casglu gwybodaeth am faterion mewn perthynas â gofalwyr. Yn ogystal, defnyddiwyd tystiolaeth ystadegol o waith ymchwil cenedlaethol a wnaed gan Carers UK ac Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr. Roedd cyfrifiad 2011 hefyd yn gofyn i bobl am eu swyddogaethau gofalu. Rydym wedi defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael i edrych ar yr hyn y mae pobl ei angen a datblygu dewis o wasanaethau i sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer Gofalwyr fel y gellir eu cefnogi yn eu swyddogaethau gofalu.

2.10.2 Blaenoriaethau Strategol Ynys Môn

- Integreiddio Strategaeth Gofalwyr Ynys Môn i'n cynlluniau gwasanaeth a chomisiynu.
- Hyrwyddo iechyd a lles gofalwyr.
- Hyrwyddo hawliau gofalwyr i dderbyn asesiad ar wahân o'u hanghenion.
- Hyrwyddo gwaith i adnabod anghenion gofalwyr yn fuan fel eu bod yn cael gwasanaethau cefnogaeth priodol ac amserol.
- Datblygu llwybrau cyfeirio effeithiol ac effeithlon.
- Parhau i ddatblygu ystod o wasanaethau cefnogaeth mewn partneriaeth gydag Iechyd a'r 3ydd Sector i roi seibiant gwirioneddol i ofalwyr i'w galluogi i barhau yn eu swyddogaethau gofalu.
- Parhau i ddatblygu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor fel ffordd o gefnogi gofalwyr.

- Parhau i hyrwyddo'r ystod o wasanaethau gofal ysbaid sydd ar gael i gynorthwyo gofalwyr.
- Cefnogi cyfleon i alluogi gofalwyr i barhau mewn cyflogaeth neu ddychwelyd i'r gwaith.
- Parhau i ddatblygu gwasanaethau cymorth a chyfleon adloniant cymdeithasol i wella ansawdd bywyd gofalwyr.
- Cefnogi gofalwyr gyda chyngor ariannol da.
- Datblygu datrysiadau tai hyblyg.
- Nodi a chytuno trefniadau rheoli perffomiad, polisïau a gweithdrefnau cefnogol.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer gofalwyr dros y misoedd nesaf – i'w hystyried a'i chymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) a'r Pwyllgor Gwaith yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Mae Cynllun Gwella amlinellol ar gyfer y tymor canol wedi ei ddatblygu **(ATODIAD 3)** fel sail ar gyfer trafodaeth a chymeradwyaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr a'r Awdurdod Lleol.

**3.0 ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn ynghylch:-

3.1 Y weledigaeth arfaethedig sy'n sail ar gyfer ein cefnogaeth i Ofalwyr Anffurfiol (paragraff 2.2 uchod)

3.2 Perfformiad Lleol yn erbyn y Fframwaith Perfformio Cenedlaethol (paragraff 2.5 uchod)

3.3 Y blaenoriaethau strategol arfaethedig ar gyfer Ynys Môn (paragraff 2.10 uchod)

3.4 Y Cynllun Gwella amlinellol ar gyfer y tymor canol **(ATODIAD 3)**

**ATODIAD 1**

**Rhai Nodweddion Gofalwyr Anffurfiol**

- Mae llawer o Ofalwyr yn byw yn yr un cartref â'r sawl y maent yn gofalu amdanynt. Mae eraill yn byw'n gyfagos ac yn ymweld yn rheolaidd. Mae rhai yn byw cryn bellter i ffwrdd ac yn ymweld yn wythnosol neu'n fisol. Mae rhai yn rhoi gofal am gyfnod cyfyngedig neu fel rhan o rwydwaith anffurfiol o gefnogaeth i'r teulu. Mae rhai yn gofalu am fwy nag un person. Yn aml mae gofalu yn cael effaith ar y teulu cyfan, nid dim ond ar un person, ac nid oes ffasiwn beth â Gofalydd nodweddiadol.

- Pobl yw gofalwyr nad ydynt efallai yn gweld eu hunain fel Gofalwyr, ond sy'n gweld eu hunain fel rhiant, plentyn, gwraig, gŵr, partner, ffrind neu gymydog. Mae amgylchiadau gofalwyr yn amrywio'n fawr iawn, fel sy'n wir am y math o gefnogaeth a gynigir ganddynt, a all fod yn gefnogaeth ymarferol, emosiynol neu ariannol. Er enghraifft, gall Gofalwyr sy'n cynorthwyo rhywun sydd â phroblem iechyd meddwl cyfnewidiol roi cymorth emosiynol. Gall rhywun sy'n gofalu am unigolyn sy'n sâl, yn anabl neu'n fregus roi gofal personol (h.y. cymorth gydag ymolchi) a chynorthwyo gyda thasgau ymarferol.

- Gall bod yn ofalydd ddigwydd yn raddol neu dros nos. Er enghraifft, gall rhywun fynd yn ofalydd heb unrhyw rybudd o gwbl pan fo partner wedi cael damwain car neu strôc. Mae rhai pobl yn symud i swyddogaethau gofalu yn fwy graddol pan fo iechyd perthynas yn dirywio dros amser, rhywbeth y maent yn ei weld fel rhan annatod o fywyd teuluol. .Nid ydynt yn sylweddoli eu bod yn ymgymryd fwyfwy â swyddogaethau gofalu wrth i'r sawl y maent yn gofalu amdanynt fod angen mwy a mwy o gefnogaeth. Nid yw pobl yn sylweddoli pob amser eu bod wedi ymgymryd â mwy a mwy o gyfrifoldebau gofalu a bod ganddynt hawl i gael cymorth fel Gofalwyr. Mae'r angen i gefnogi Gofalwyr nad oes ganddynt gyfrifoldeb gofalu mwyach yr un mor bwysig. Yn aml iawn mae'r bobl hyn wedi colli anwyliaid ar ôl blynyddoedd o ofalu amdanynt a byddant angen cefnogaeth a chwnsela neu gyngor ynghylch gyrfaoedd/cyfleon dysgu.

- Mae llawer o Ofalwyr yn gweithio hefyd, neu'n mynd i'r ysgol neu'n magu eu teuluoedd eu hunain. Yn ogystal â gofalu, efallai bod Gofalwyr hefyd yn gorfod delio gydag heriau eraill yn eu bywydau, er enghraifft, efallai bod ganddynt anabledd eu hunain neu efallai eu bod yn gofalu am riant neu rywun gyda phroblemau iechyd meddwl. Efallai eu bod yn ceisio cydbwyso galwadau gwaith, astudio a gofalu. Nid oes raid i'r Gofalwyr fyw gyda'r sawl y maent yn gofalu amdanynt i gael eu hystyried yn Ofalwyr ac mae'r gofal a roddir ganddynt yn ddi-dâl. Mae Gofalwyr yn grŵp amrywiol o bobl ac mae ganddynt anghenion gwahanol a galwadau gwahanol ar eu hamser. Mae Gofalwyr yn dod o bob rhan o'r gymdeithas; gallant fod o unrhyw oed, yn wrywod neu'n fenywod, neu ddod o unrhyw ddiwylliant.

**ATODIAD 2**

**Prif Fframweithiau Cyfreithiol Eraill – Gofalwyr Anffurfiol**

Mae **Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2013** yn ddeddfwriaeth newydd a fydd, ymysg pethau eraill, yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i asesu anghenion gofalwyr am gymorth os yw'n ymddangos i'r awdurdod y gall bod ganddynt anghenion cefnogaeth.

**Mae Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gwarchod gofalwyr os ydynt yn cael gwasanaeth gwaeth na rhywun sydd ddim yn gofalu am berson anabl. Mae hefyd yn gwarchod gofalwyr sy'n cael eu rhwystro rhag defnyddio gwasanaeth neu sydd ddim yn cael eu hannog i ddefnyddio gwasanaeth oherwydd eu bod yn gofalu am berson anabl.

**Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Pobl Hŷn (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006),** mae'r fframwaith hwn yn argymell cynnwys gofalwyr yn y broses Asesu Unedig a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

**Law yn Llaw at Iechyd (Llywodraeth Cymru 2011),** mae'r weledigaeth bum mlynedd hon ar gyfer y GIG yng Nghymru yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r 3ydd sector i gynorthwyo gofalwyr.

## Cynllun Gwella Amlinellol ar gyfer y Tymor Canol – Cefnogi Gofalwyr Anffurfiol

| **Nodau Strategol**<br><br>**Gwybodaeth, Adnabod ac Ymgynghori.** | **Camau Gweithredu** | **Dangosydd Perfformiad** | **Bwriadau Comisiynu** |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo darparu gwasanaethau cynghori a gwybodaeth i gefnogi gofalwyr.** | • Gweithio i gynhyrchu pecyn gwybodaeth sy'n rhoi'r wybodaeth y mae gofalwyr ei hangen ac sy'n hawdd i'w deall, gan wneud y cysylltiadau angenrheidiol rhwng gwasanaethau a dweud wrth ofalwyr faint y bydd y gwasanaeth yn ei gostio.<br>• Sicrhau bod yr holl Ofalwyr yn cael cynnig asesiad o'u hanghenion eu hunain.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr 3ydd sector i ddatblygu gwasanaethau yn unol â'r bwriadau comisiynu a'r ddogfen bwriadau'r gwasanaeth<br>• Sefydlu fforwm Gofalwyr ac ystod o grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid, gan feithrin rôl "gofalwyr arbenigol" i roi cyfleon i rannu profiadau (cyfeiriad i gefnogi gofalwyr am bobl sydd â dementia). | Nifer y Gofalwyr sy'n cael pecynnau gwybodaeth a chefnogaeth trwy wahanol wasanaethau.<br><br>Nifer y gofalwyr y cynigiwyd asesiad iddynt o'u hanghenion eu hunain. | Cryfhau trefniadau gyda 'Cynnal Gofalwyr' i ddatblygu model canolbwynt gofalwyr i roi cyngor a chefnogaeth a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau teleofal ac offer cymunedol.<br><br>Comisiynu ailsefydlu Fforwm Gofalwyr ac ystod o grwpiau cymorth gan gymheiriaid.<br><br>Comisiynu datblygu pecynnau gwybodaeth i ofalwyr a sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael ar wefannau sefydliadau partner. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo gwaith i adnabod gofalwyr yn gynnar fel eu bod yn cael gwasanaethau cefnogaeth priodol.** | • Gwybodaeth ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd gan gynnwys ar wefan y Cyngor gyda chysylltiadau i sefydliadau 3ydd sector.<br>• Cael gwared ar y stigma a'r unigedd y gall gofalwyr eu teimlo.<br>• Hyrwyddo rôl Eiriolydd Gofalwyr a datblygu cysylltiadau clir gyda Gofalwyr fel bod y rôl yn cael ei hystyried yn llais ar gyfer Gofalwyr.<br>• Datblygu drafft o Ffurflen hunanasesu ar gyfer Gofalwyr.<br>• Datblygu Siarter Gofalwyr – angen i wasanaethau a gomisiynwyd gytuno i'r siarter a'i harwyddo.<br>• Gweithio gyda Meddygon Teulu a phartneriaid i ddatblygu protocol i adnabod Gofalwyr yn Ynys Môn a datblygu ffyrdd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn well i gefnogi Gofalwyr.<br>• Staff rheng flaen yn gallu adnabod Gofalwyr ac yn ymwybodol o sut i'w | Grŵp Partneriaeth Gofalwyr i adolygu sut y gellir codi ymwybyddiaeth o faterion gofalwyr fel bod modd torri rhwystrau i lawr.<br><br>Nifer y Gofalwyr sy'n cysylltu â'r Eiriolydd Gofalwyr.<br><br>Trafod gyda'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr.<br><br>Nifer y Meddygfeydd yn Ynys Môn sydd â chofrestr o Ofalwyr.<br><br>Hyfforddiant i staff rheng flaen i godi ymwybyddiaeth o Ofalwyr. | Comisiynu Cynnal Gofalwyr i gysylltu gyda Meddygfeydd ac ysbytai i annog cyfeiriadau at wasanaethau statudol ar gyfradd briodol.<br><br>Ei ymgorffori mewn hyfforddiant cynefino a rhaglenni parhaus - o fewn cyllidebau hyfforddi cyfredol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfeirio am gymorth yn effeithiol ac yn amserol. | | |
| ***IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL*** | | | |
| **Hyrwyddo iechyd a lles Gofalwyr**. | • Rhaglen archwiliadau iechyd fel cynllun peilot ar gyfer Gofalwyr o fewn y Rhaglen Heneddio'n Dda<br><br>• Ehangu'r ystod o wasanaethau cefnogaeth hyblyg sydd ar gael gyda'r nos ac ar y penwythnos i roi seibiant i Ofalwyr.<br>• Hyrwyddo hyfforddiant iechyd a lles ar gyfer Gofalwyr drwy amryfal ddarparwyr.<br>• Hyrwyddo argaeledd taliadau uniongyrchol ar gyfer gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth a rhoi cymorth a chefnogaeth i hyrwyddo mynediad i'r cynllun taliadau uniongyrchol a'u helpu i reoli eu pecynnau gofal eu hunain.<br>• Datblygu mecanwaith i sicrhau bod yr holl ofalwyr yn cael cynnig | Nifer y gofalwyr sy'n derbyn archwiliad iechyd.<br><br>Nifer y Gofalwyr a gofrestrwyd gyda'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr.<br><br>Nifer y gofalwyr sy'n mynychu gweithgareddau hyfforddiant.<br>Nifer y Gofalwyr ar y Rhaglen Gofalwyr Arbenigol.<br><br>Nifer y Gofalwyr sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. | Comisiynu rhaglen archwiliad iechyd ar gyfer gofalwyr.<br><br>Darparwyr i gynnig ystod o gyfnodau ysbaid mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys cymorth hyblyg gyda'r nos ac ar y penwythnos.  Gall cyfleon gynnwys gwyliau Livability ar gyfer gofalwyr a'r sawl y gofelir amdanynt.<br><br>Comisiynu datblygu rhaglen 'Shared Lives' yn  Ynys Môn.<br><br>Hyrwyddo taliadau uniongyrchol a chyllidebau personol ar gyfer gofalwyr.<br><br>Comisiynu hyfforddiant iechyd a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | archwiliad/asesiad iechyd blynyddol i nodi eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol eu hunain.<br>• Cynyddu argaeledd a mynediad i wasanaethau cwnsela ar gyfer Gofalwyr. | | lles ar gyfer gofalwyr trwy amryfal ddarparwyr.<br><br>Comisiynu gwasanaethau cefnogaeth sy'n darparu cefnogaeth wedi ei deilwrio i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr a darparu cefnogaeth emosiynol trwy ddrysfa o opsiynau. |
| ***Gofalwyr a Chyflogaeth*** | | | |
| Hyrwyddo cyfleon i Ofalwyr aros mewn cyflogaeth neu ddychwelyd i'r gwaith. | • Darparu gwasanaethau cefnogaeth.<br>• Darparu cyfleon hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer Gofalwyr trwy sefydliadau addysg bellach.<br>• Hyrwyddo gwybodaeth a chyngor ynghylch sut i gynyddu incwm a manteisio ar y budd-daliadau sydd ar gael.<br>• Hyrwyddo mabwysiadu polisi Gofalwyr ymysg pob cyflogwr. | Nifer y gofalwyr a gyfeiriwyd i asiantaethau cefnogaeth priodol.<br><br>Nifer y Gofalwyr a gefnogwyd trwy arferion gwaith sy'n cefnogi gofalwyr gan yr holl asiantaethau a phartneriaid statudol. | Comisiynu gwasanaeth cynghori cyfannol i sicrhau bod gofalwyr yn cael cymaint o opsiynau â phosib ar gyfer cynnal eu ffyrdd o fyw tra'n darparu gofal.<br><br>Sicrhau cymorth i ofalwyr yn y lle gwaith trwy'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth cyfredol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Cefnogaeth a Bywyd y tu allan i'r Swyddogaeth Ofalu.* | • Darparu cyfleon cymdeithasol/hamdden ar gyfer Gofalwyr trwy'r 3ydd Sector.<br>• Hyrwyddo cyfleon hyfforddiant ar gyfer gofalwyr mewn partneriaeth gyda darparwyr addysg/hyfforddiant. | Nifer y gofalwyr a gefnogir i gael at gyfleon cymdeithasol/hamdden.<br><br>Nifer y gofalwyr sy'n cael cyfleon hyfforddi. | Ymgorffori hyrwyddo cyfleon cymdeithasol/hamdden ar gyfer gofalwyr o fewn cytundebau lefel gwasanaeth cyfredol. |

This page is intentionally left blank

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| Dyddiad: | Hydref 28ain, 2013 |
| Deilydd Porffolio: | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol: | Gwynne Jones |
| Teitl: | Adroddiad cynnydd y cynllun gweithredu ôl-arolygiad |

1 **Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Diweddaru aelodau ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad [CGOA/PIAP]

2 **Cefndir**

2.1 Ym Mai 2012, arweiniodd arolygiad Estyn o wasanaethau addysg yr Awdurdod ar gyfer plant a phobl ifanc at y farn gyffredinol o anfoddhaol ac arweiniodd at osod yr awdurdod mewn mesurau arbennig. Roedd y prif resymau am y penderfyniad anfoddhaol yn cynnwys

- bod safonau ar gyfer plant a phobl ifanc islaw'r hyn y gellid ei ddisgwyl ym mhob cyfnod allweddol;
- bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn annerbyniol o isel;
- bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn annigonol;
- nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud i gynllunio ar gyfer lleoedd mewn ysgolion;
- nad yw arweinyddiaeth weithredol wrth gyflwyno addysg wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd o danberfformio, ac nid yw ysgolion a swyddogion wedi cael eu dwyn i gyfrif; ac
- nid yw prosesau cynllunio busnes ac asesu risg wedi bod yn ddigon trylwyr i nodi a mynd i'r afael ag arafwch y cynnydd mewn gwasanaethau addysg ac ysgolion.

Nododd adroddiad Estyn eto bod y gallu i wella hefyd yn anfoddhaol am y rhesymau a ganlyn:

- tanberfformiad hirdymor ar lefel gwasanaeth;
- mae'r camau i ysgogi gwelliant wedi bod yn rhy araf yn y gorffennol i sicrhau arolygwyr y gall gwelliant ddilyn yr arolygiad hwn heb her allanol;
- bod prosesau hunanarfarnu wedi bod yn dameidiog, a chynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed mewn arolygiadau blaenorol wedi bod yn gyfyngedig;
- nad yw arweinwyr ysgol wedi cael eu dwyn i gyfrif; a
- bod llinellau atebolrwydd ar lefel gwasanaeth yn aneglur.

Cyflwynodd Estyn yr argymhellion a ganlyn ar gyfer gwella.

A1 Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny gyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

A2 Cynllunio'n fwy effeithiol gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion.

A3 Sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg i broffesiynoli cyflwyno gwasanaethau addysg yn weithredol.

A4 Cynllunio effeithlonrwydd gwell wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes.

A5 Sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb yn y gofynion ar gyfer hunanarfarnu yn weithredol ac yn strategol.

A6 Cymryd camau i leihau nifer y lleoedd dros ben.

A7 Ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion.

2.2 Dangosir ymateb yr Awdurdod i'r uchod ar ffurf CGOA/PIAP yn atodiad 1. Tynnir sylw'r aelodau at y ffaith bod y CGOA/PIAP wedi ei gymeradwyo gan Estyn.

2.3 Mae'r cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn y CGOA/PIAP wedi eu monitro gan nifer o grwpiau wedi eu lleoli'n fewnol fel y nodwyd isod.

- Pwyllgor Sgriwtini Addysg [cyn etholiad Llywodraeth Leol ym mis Mai].
- Bwrdd Trawsnewid Addysg a'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth [ôl-etholiad]
- Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd

2.4 Mae'r Bwrdd Adfer, a sefydlwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn dilyn canfyddiadau'r arolygiad, hefyd wedi monitro cynnydd y CGOA/PIAP yn eu cyfarfodydd misol.

2.5 Datblygwyd cyfundrefn cyfrifiadur-seiliedig [Sycle], ar y cyd â swyddogion o'r Uned Perfformiad, i reoli perfformiad y cynnydd. Mae'r adroddiad o gyfundrefn Sycle yn manylu ar y gweithredu a wnaed a'i effaith ac mae'n ddogfen sylweddol. Cyflwynir crynodeb o adroddiad Sycle, wedi ei gyfateb â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y CGOA/PIAP, yn atodiad 2 [cynhwysir yr agweddau gaiff sylw gan Estyn yn ystod ymweliad mis Tachwedd].

Mae'r ddau argymhelliad cyntaf a nodwyd gan Estyn yn cyfeirio at godi safonau ym mhob un o'r cyfnodau allweddol, gan wella llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 a gwella graddfeydd presenoldeb ysgol. Mae Atodiad 3 yn amlinellu perfformiad presennol yr Awdurdod yn y meysydd allweddol hyn.

## 3 Argymhellion

3.1 Craffu ar gynnwys yr adroddiad a'i herio fel y bo'n briodol.

Adroddioad gan: Gwynne Jones
Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Adran: Dysgu Gydol Oes
Dyddiad: 11/10/13

---

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Cynllun gweithredu ôl-arolygiad [CGOA/PIAP]
Atodiad 2 - Cynnydd yn erbyn y CGOA/PIAP
Atodiad 3 - Adroddiad perfformiad presennol

# Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad

# mewn ymateb i

# adroddiad arolygiad Estyn Gorffennaf 2012

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**ATODIAD 1 - Sgriwtini Corfforaethol Atodiad 1 PIAP Draft 300912 Cymraeg**



| Agwedd i gael sylw | A1. Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny gyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. |
|---|---|
| Swyddog cyfrifol | WGJ |

| Pwyntiau gweithredu | Swyddog Arweiniol | Graddfa Amser | | Adnoddau / Cefnogaeth | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | | |
| Cytundeb Partneriaeth - Gwella dealltwriaeth/atebolrwydd Penaethiaid<br>○ Adolygu'r Cytundeb Partneriaeth i gynnwys<br>▪ disgwyliadau clir mewn perthynas â chyfrifoldeb ysgolion ar gyfer codi safonau;<br>▪ meini prawf clir ar gyfer targedu cefnogaeth ychwanegol a herio ysgolion a adnabuwyd fel rhai sy'n tanberfformio<br>▪ disgwyliadau clir ar Lywodraethwyr mewn ysgolion lle mae arwyddion o danberfformio.<br>▪ meini prawf clir i swyddogion gwella ysgolion ar gyfer herio, yr arfarniadau angenrheidiol a'r hyn a ddisgwylir.<br>○ Targedu cefnogaeth i ysgolion ar gyfer ysgolion sydd angen cefnogaeth a monitro ffocysedig ac ysgolion sydd angen cefnogaeth sylweddol. | WGJ<br><br><br><br><br><br><br><br><br>WGJ | 6/12<br><br><br><br><br><br><br><br><br>9/12 | 9/12<br><br><br><br><br><br><br><br><br>8/14 | Cefnogaeth y Consortiwm [mewn perthynas a chysondeb CP ar draws Consortowm y Gogledd]. | ○ Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu yn derbyn yn glir eu cyfrifoldebau mewn perthynas â gwella ysgolion a'r gefnogaeth sydd ar gael i'w gyflawni.<br>○ Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu yn ymwybodol o'r camau a gymerir gan yr Awdurdod os nad yw perfformiad ysgolion sy'n destun pryder yn gwella.<br>○ Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol unigol yn ymwybodol o gategori Cytundeb Partneriaeth yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill.<br>○ Cefnogaeth ac ymyriad yn arwain at welliant clir yng nghategori Cytundeb Partneriaeth ysgolion unigol sy'n destun pryder [symud o goch i oren, oren i felyn]. |
| Codi safonau diwedd cyfnod allweddol<br>○ Sicrhau bod pob data sydd ar gael [e.e. AWCDS, Bandio, chwartelau PYD, model ystadegol LlC] yn cael ei ddefnyddio i gytuno ar dargedau heriol ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd mewn perthynas â phob agwedd ar berfformiad [cyflawniad ar lefel ddisgwyliedig, lefel ddisgwyliedig +1, presenoldeb a gwaharddiadau] yn CA1, 2 a 3. Bydd targedau CA4, lle bo'n briodol, yn cael eu cyfunioni gyda dangosyddion cenedlaethol a disgwyliadau llinell atchweliad LLC.<br>○ Sicrhau bod gosod targedau yn seiliedig ar berfformiad disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion [e.e. PYD/dim PYD; Bechgyn/Genethod; PMG, AAA]. | EVJ [u]<br>GTR [c]<br>Penaethiaid uwchradd [u]<br>cynradd [c]<br><br><br>MR | 6/12 | 11/12<br>[yna adolygir yn dymhorol] | Adolygu'r daflen dargedau sydd ar y We.<br>[Cynnal] | ○ Ar lefekl Awdurdod, perfformiad ysgolion cynradd [DPC, lefel pwnc, lefel pwnc+1, presenoldeb] yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad PYD [safle'r Awdurdod yn gyfartal neu'n uwch na'i safle PYD].<br>○ Ar lefekl Awdurdod, perfformiad ysgolion uwchradd [DPC, lefel pwnc, lefel pwnc+1 yn CA3, TL2+, TL2, TL1 a'r sgôr bwyntiau wedi'i gapio] yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad PYD [safle'r Awdurdod yn gyfartal neu'n uwch na'i safle PYD].<br>○ Perfformiad yr awdurdod ar gyfer DPC yn CA3, TL2, y sgôr bwyntiau wedi'i gapio yn CA4 a phresenoldeb yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad PYD.<br>○ Cynnydd yn nifer yr ysgolion yn yr hanner uchaf ym mhob cyfnod allweddol, y lefelau pwnc disgwyliedig a'r lefelau disgwyliedig+1 yn CA3 a TL2+, TL2, TL1 a'r sgôr bwyntiau wedi'i gapio yn CA4. |
| Codi safonau diwedd cyfnod allweddol<br>○ Ymweliadau'n cael eu targedu at ysgolion sydd wedi bod yn y chwarter isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf neu fwy a sicrhau bod cynllun gweithredu clir ar gyfer gwella. Sicrhau bod Corff Llywodraethu'r ysgolion hyn yn ymwybodol o'r angen am welliant, cynnwys y cynllun gweithredu a bod â rhaglen fonitro addas yn ei lle. [Gweler yr adran ar Gytundeb Partneriaeth].<br>○ Cyflwyno proses ddwysáu gadarn i herio ysgolion nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol.<br>○ Gwneud defnydd o Benaethiaid 'ymgynghorol' i gefnogi ysgolion unigol | EVJ [u]<br>GTR [c] | 10/12 | 9/14 | CLG diwygiedig gyda Cynnal. | ○ Cynlluniau gweithredu wedi eu cytuno, eu cymeradwyo a'u cefnogi gan y Llywodraethwyr, a thystiolaeth eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau mewn ysgolion unigol.<br>○ Cyrff Llywodraethu'r ysgolion hyn yn ymwybodol o'r agweddau y mae angen mynd i'r afael â hwy i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol a dealltwriaeth glir o'r camau a gymerir gan yr Awdurdod os na fydd perfformiad yn gwella.<br>○ Proses esgynnol glir yn bodoli i ddelio ag enghreifftiau lle bwriedir herio'r cynnydd a wnaed gan ysgolion unigol. |
| Sicrhau bod dysgwyr mwy galluog a thalentog yn cyrraedd lefelau uwch.<br>○ Sicrhau bod gan bob ysgol bolisïau a gweithdrefnau eglur yn eu lle i adnabod, herio a monitro cynnydd dysgwyr mwy galluog a thalentog.<br>○ Datblygu deunyddiau cwricwlwm enghreifftiol i'w defnyddio gan ysgolion cynradd gyda dysgwyr mwy galluog a thalentog. | GTR/EVJ<br><br>GTE | 9/12<br><br>7/12 | 11/12<br><br>11/12 | <br><br>Cynnal – deunyddiau enghreifftiol. | ○ Perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig+1 ym mhob cyfnod allweddol, safle'r Awdurdod yn gyfartal neu'n uwch na'i safle PYD.<br>○ Cynydd yn yr her, ar draws yr ysgolion cynradd, i ddisgyblion mwy abl a thalentog. |
| Gwella prosesau cymedroli diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2 | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| o Adolygu prosesau er mwyn safoni asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2.<br>o Penaethiaid i sicrhau bod gan bob ysgol gynradd drefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer safoni mewnol asesiadau diwedd cyfnod allweddol.<br>o Yr Awdurdod i sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan mewn gweithdrefnau safoni'r Sir a gweithredu'r safonau'n gyson. | GTR | 11/12 | 2/13 | | o Perfformiad diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2 [lefel ddisgwyliedig a lefel ddisgwyliedig+1] yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad PYD. [Safle'r Awdurdod yn gyfartal neu'n uwch na'i safle PYD].<br>o Gwell dealltwriaeth o'r disgwyliadau ar draws yr ysgolion cynradd a gwell cysondeb asesu. |
| Gwella safonau llythrennedd gweithrediadol erbyn diwedd CA2 | | | | | |
| o Adolygu strategaeth Llythrennedd yr Awdurdod i gymryd ystyriaeth o'r strategaeth Llythrennedd Cenedlaethol. Cyflwyno strategaeth Llythrennedd yr Awdurdod i Benaethiaid. | EVJ [u]<br>GTR [c] | 6/12 | 6/12 | | |
| o Sicrhau bod Penaethiaid cynradd ac uwchradd yn deall y strategaeth ac yn derbyn y cyfrifoldeb dros ddatblygu a gweithredu strategaeth ysgol gyfan. | | | | | |
| Darllen | | | | | |
| o Casglu a dadansoddi data profion darllen a rhannu canfyddiadau gyda Phenaethiaid cynradd ac uwchradd. | EVJ [u]<br>GTR [c] | 6/12 | 12/12 | Cynnal – dadansoddiad o ddata, arweiniad ar ddatblygu darllen.<br>Hybu'r CauDP. | o Pob ysgol gynradd gyda chynllun clir i wella safonau darllen.<br>o Lleihad yn nifer y disgyblion [i 19% Saesneg; 22% Cymraeg] gydag oedran darllen llai na'u hoedran darllen gweithrediadol.<br>o Safonau darllen, yn nhermau asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad PYD. |
| o Sicrhau bod gan bob ysgol gynradd gynllun clir yn ei le i wneud defnydd effeithiol o ddata oed darllen a gwybodaeth o arfer effeithiol o wella safonau darllen. Bydd angen i hyn gynnwys hyfforddiant i athrawon ar addysgu darllen, arweiniad ar ddatblygu darllen ar draws y cwricwlwm, hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion dysgu i gefnogi darllen a'r defnydd effeithiol o raglenni ymyrryd a dal i fyny ar lefel ysgol unigol. | | 9/12 | 12/12 | | |
| o Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd gynllun clir ar gyfer gwella safonau darllen. Bydd angen i hwnnw gynnwys y defnydd o ddata ar gyfer targedu grwpiau o ddisgyblion, strategaethau cefnogi ac ymyrryd a datblygu darllen ar draws y cwricwlwm. | | 9/12 | 11/12 | | |
| Ysgrifennu | | | | | |
| o Datblygu cynllun gweithredu manwl i wella safonau ysgrifennu yn CA2 a CA3. Rhannu'r cynnwys gyda Phenaethiaid Cynradd ac Uwchradd. | EVJ [u]<br>GTR [c] | 9/12 | 11/12 | Canllawiau adolygedig Cynnal. | o Pob ysgol gynradd gyda chynllun clir i wella safonau ysgrifennu.<br>o Safonau ysgrifennu, yn nhermau asesiadau diwedd cyfnod allweddol, yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad PYD. |
| o Sicrhau bod gan bob ysgol gynradd gynllun manwl ar gyfer gwella safonau ysgrifennu, yn arbennig ysgrifennu estynedig. | | 12/12 | 3/13 | | |
| o Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd gynllun manwl i wella safonau ysgrifennu, yn arbennig ysgrifennu estynedig. | | 12/12 | 3/13 | | |
| Addysgu a dysgu | | | | | |
| o Sicrhau bod gan bob ysgol gymuned ddysgu broffesiynol [PLC] wedi ei chysylltu â datblygu llythrennedd. | GTR/EVJ | 9/12 | 12/12 | | |
| Arfarnu ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth | | | | | |
| o Gweithredu arweiniad y Consortiwm ar gyfer arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth [gan ddefnyddio arbenigedd o ALL eraill GC] a chysylltu'r deilliannau â'r Proffil Ysgol electronig. | GTR<br>EVJ | 9/12 | 11/12 | Cefnogaeth y Consortiwm i gwblhau canllawiau. | o Dealltwriaeth glir gan Benaethiaid o asesiad yr Awdurdod o ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.<br>o Pryderon yr Awdurdod mewn perthynas ag ansawdd arweinyddiaeth ysgolion unigol cyn cael ei rannu gyda'r Corff Llywodraethu a'r cynllun gweithredu dilynol yn arwain at welliant.<br>o Arfarniad mewnol ac allanol o lwyddiant rhaglenni cefnogi arweinyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd arweinyddiaeth.<br>o Ansawdd cyffredinol hunan-arfarnu yn y cynradd yn gwella. |
| o Yr Awdurdod i sicrhau bod cefnogaeth a ddarperir ar gyfer rheolwyr canol, dirprwyon a phenaethiaid yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd arweinyddiaeth e.e. hunan-arfarniad sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau. | GTR<br>EVJ | 9/12 | 8/14 | | |
| o Datblygu proffil data ysgolion fel y gall ysgolion ac arweinwyr gael eu herio'n effeithiol. | | | | | |
| Ansawdd rheolaeth ariannol | | | | | |
| o Adolygu arweiniad yr Awdurdod ar gysylltu niferoedd disgyblion amcanol, ystyriaethau cyllideb y Cyngor, arian wrth gefn ysgolion yn y cynllun datblygu ysgol [CDY]. | DGJ | 9/12 | 12/12 | | o Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu ysgolion unigol yn ymwybodol o werthusiad yr Awdurdod o ansawdd rheolaeth ariannol yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill<br>o Gwelliannau yn ansawdd rheolaeth ariannol mewn ysgolion unigol. |
| o Sicrhau bod ansawdd rheolaeth ariannol yn cael ei gynnwys yn eitem mewn ymweliadau gwella ysgolion ac yn cyfrannu at y penderfyniad ar ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth a'i gynnwys ym mhroffil yr ysgol. | GTR/EVJ | 9/12 | 11/12 | | |
| o Gweithredu'r adran briodol ar reolaeth ariannol ym matrics y Consortiwm i | GTR/EVJ | 9/12 | 11/12 | Cefnogaeth y Consortiwm | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| arfarnu Arweinyddiaeth a Rheolaeth. | | | | | |
| Arfer Dda mewn ALl eraill<br>○ Sicrhau bod arfer yr Awdurdod yn cael ei alinio â'r arfer orau o fewn y Consortiwm a thu draw mewn perthynas â<br>▪ y defnydd o ddata perfformiad i herio ysgolion,<br>▪ arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a<br>▪ system gyffredin ar gyfer proffilio ysgolion.<br>Bydd hyn yn caniatáu i Ynys Môn dynnu ar yr arfer dda drwy'r Consortiwm a thu hwnt. | WGJ | 9/12<br>12/12<br>12/12 | 3/13<br>3/13<br>3/13 | Cefnogaeth y Consortiwm. | ○ Gwell cysondeb ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd wrth ddefnyddio data perfformiad i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella.<br>○ Dealltwriaeth glir o'r agweddau arweinyddiaeth a rheolaeth sydd angen eu gwella mewn ysgolion sy'n destun pryder. |
| Swyddogaeth Cyrff Llywodraethu ysgolion<br>○ Sicrhau fod cyrff llywodraethu yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â gweithredu fel cyfaill beirniadol drwy herio Penaethiaid a sicrhau atebolrwydd ar gyfer y safonau a gyflawnwyd. | MWO | 7/12 | 3/13 | CLG diwygiedig gyda Cynnal. | ○ Hyfforddiant Llywodraethwyr yn arwain at welliant clir yn swyddogaeth y Llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol.<br>○ Lleihad yn nifer yr adroddiadau arolygiad sy'n nodi diffygion yn swyddogaeth herio y Corff Llywodraethu. |
| Swyddogaeth Craffu Addysg<br>○ Datblygu swyddogaeth Craffu Addysg mewn perthynas ag 'ysgolion sy'n peri pryder'. Sefydlu trefniadau effeithiol i gynnwys y Pwyllgor Craffu a'r Comisiynydd Addysg i adolygu cynnydd ysgolion sydd angen cefnogaeth a monitro ffocysedig ac ysgolion sydd angen cefnogaeth sylweddol ac mewn penderfynu ar lefel gweithgaredd dilynol, i gynnwys y defnydd o weithdrefnau ymyrryd ffurfiol. | WGJ | 9/12 | 7/13 | Cefnogaeth gorfforaethol. | ○ Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn ymwneud yn llawn ag adolygu cynnydd ysgolion sydd angen cefnogaeth a monitro ffocysedig ac ysgolion sydd angen cefnogaeth sylweddol.<br>○ Aelodau o'r Pwyllgor Craffu yn ymwneud yn llawn â'r penderfyniad i ymyrryd yn ffurfiol mewn ysgol.<br>○ Herio miniocach yn arwain at welliant clir yng Nghategori Cytundeb Partneriaeth ysgolion unigol sy'n destun pryder [symud o goch i oren, oren i felyn]. |
| Adroddiad blynyddol ar berfformiad i Aelodau Etholedig<br>○ Defnyddio gwybodaeth feincnodi a pherfformiad cymharol am ALL eraill wrth grynhoi perfformiad ar lefel ALL.<br>○ Sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Craffu yn gwbl ymwybodol o'r meysydd perfformiad sy'n gryfder a'r rhai sydd angen eu gwella. | WGJ | 9/12 | 12/12 | Fformat adolygedig ar gyfer yr adroddiad blynyddol. | ○ Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn gwbl ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen sylw ac yn defnyddio'r wybodaeth yn eu swyddogaeth fel Llywodraethwyr i herio perfformiad ysgolion unigol. |
| Achredu mewn lleoliadau anffurfiol<br>○ Cynnydd yn nifer achrediadau mewn lleoliadau anffurfiol drwy roi sylw i'r materion a ganlyn.<br>▪ Gosod targedau achredu heriol ar gyfer pob Clwb Ieuenctid gyda staff rhan-amser ym Mai-Gorffennaf 2012. Gweithwyr Datblygu Ardal ac Arweinyddion Ardal i fonitro perfformiad yn erbyn targedau.<br>▪ Diweddaru cynllun achredu'r Gwasanaeth Ieuenctid a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.<br>▪ Datblygu'r Gwasanaeth Ieuenctid fel canolfan gyflwyno ar gyfer Agored Cymru.<br>▪ Ailsefydlu gwobr Dug Caeredin yn ardal Caergybi ac mewn dwy ganolfan arall.<br>▪ Cytuno ar dargedau ar gyfer Gweithwyr Datblygu Ardal ac Arweinyddion Ardal mewn perthynas ag achredu drwy'r Brifysgol Plant a Phobl ifanc. | EW | 9/12 | 8/14 | | ○ Cynyddu nifer y clybiau sy'n cynnig achrediadau i 25 erbyn Mai 2013.<br>○ Cynyddu nifer yr achrediadau (cenedlaethol a lleol) i 700 erbyn Medi 2013.<br>○ Sicrhau bod pobl ifanc ym mhob ardal Ysgol Uwchradd yn gallu cael mynediad i gynllun Gwobr Dug Caeredin erbyn Mawrth 2014. |
| Cefnogaeth ehangach i ddisgyblion unigol<br>○ Parhau gyda strategaethau presennol i gynnal perfformiad da presennol mewn perthynas â % y disgyblion sy'n gadael addysg lawn amser heb unrhyw gymwysterau adnabyddedig, % NEET a % sy'n parhau mewn addysg lawn amser. | LlJ | 7/12 | 8/14 | | ○ Perfformiad ym mhob un o'r dangosyddion allweddol yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad ranc PYD. |
| Capasiti Gwella Ysgolion<br>○ Cynyddu'r capasiti ar gyfer gwella ysgolion o fewn y gyfarwyddiaeth drwy benodi swyddog ar y lefel briodol i arwain ar bob agwedd ar berfformiad | WGJ | 9/12 | 8/14 | Cyllid – c. £80.000 [Cytundeb 3 blynedd yn y | ○ Capasiti ychwanegol i arwain ar wella ysgolion a sefydlu systemau a gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu i gomisiynu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ysgol.<br>○ Ailstrwythuro'r gyfarwyddiaeth i gwrdd â gofynion Dysgu Gydol Oes, y pwyslais cynyddol ar wasanaethau difwlch a'r flaenoriaeth i safonau a chyflawniad. | WGJ | 3/14 | | lle cyntaf] | gwasanaethau o Wasanaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. |

| Gwelliant disgwyliedig | |
|---|---|
| | 1. Perfformiad yr Awdurdod mewn dangosyddion allweddol ym mhob cyfnod allweddol yn cyafteb neu'n uwch na'r disgwyliad PYD [fel y nodwyd yn y matrics perfformiad].<br>2. Perfformiad DPC yn CA3 a TL2+ a'r sgôr bwyntiau wedi'i gapio yn CA4 yn cyfateb neu yn uwch na model ystadegol LLC [fel y nodwyd yn y matrics perfformiad].<br>3. Mwy na hanner yr ysgolion yn rhan uchaf dosbarthiad PYD yn y dangosyddion allweddol ym mhob cyfnod allweddol a chynnydd yn y nifer yn y chwarter uchaf.<br>4. Dim un ysgol angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig a lleihad yn y nifer a nodwyd fel rhai angen eu monitro gan Estyn<br>5. Lleihad yn nifer y disgyblion nad ydynt yn cyflawni llythrennedd gweithrediadol ar ddiwedd CA2 [19% yn Saesneg a 22% yn y Gymraeg erbyn 2013]. |

| Rhaglen fonitro | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | Agwedd CGOA yr adroddir arni | Gwybodaeth ar gyfer craffu | Swyddog |
| 9/12 | Strategaeth Llythrennedd diwygiedig yr Awdurdod | ○ Sicrhau bod disgwyliadau'n glir a bod ysgolion yn deall yr hyn a ddisgwylir. | GTR |
| 9/12 | Cytundeb Partneriaeth diwygiedig | ○ Sicrhau bod disgwyliadau gwella a osodir ar ysgolion yn glir.<br>○ Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu yn derbyn eu cyfrifoldeb mewn perthynas â gwella ysgolion ac yn ymwybodol o'r camau a gymerir os yw nad yw perfformiad ysgolion sy'n destun pryder yn gwella.<br>○ Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol unigol yn ymwybodol o gategori Cytundeb Partneriaeth yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill.<br>○ Cefnogaeth ac ymyriad yn arwain at welliant clir yng nghategori Cytundeb Partneriaeth ysgolion unigol sy'n destun pryder [symud o goch i oren, oren i felyn]. | WGJ |
| 11/12 | Targedau a osodir gan ysgolion cynradd ac uwchradd. | ○ Enghreifftiau lle byddai'r targed yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf PYD am y drydedd flwyddyn yn olynol.<br>○ Targedau ysgol uwchradd ar gyfer DPC yn CA3, TL2+, sgôr pwyntiau wedi'i gapio a phresenoldeb yn cyfateb neu'n uwch na disgwyliadau model ystadegol LlC.<br>○ Mwy na hanner yr ysgolion yn hanner uchaf y dosbarthiad PYD ym mhob cyfnod allweddol. | GTR |
| 11/12 | Gweithdrefnau ysgol i herio dysgwyr mwy galluog a thalentog. | ○ Nifer yr ysgolion gyda pholisïau ac arferion clir ar gyfer herio dysgwyr mwy galluog a thalentog.<br>○ % y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch ym mhob cyfnod allweddol.<br>○ Ansawdd y deunyddiau cwricwlwm enghreifftiol | GTR |
| 11/12 | Cynllun Datblygu Achrediadau'r Gwasanaeth Ieuenctid. | ○ Ansawdd cyffredinol y Cynllun.<br>○ Y targedau a osodwyd ar lefel Clwb unigol ac ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yn ei gyfanrwydd | EW |
| 12/12 | Ysgolion a fu yn y chwarter isaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf. | ○ Pob ysgol yn y chwarter isaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chynllun gweithredu clir ar gyfer gwella.<br>○ Ymwybyddiaeth llywodraethwyr o'r angen i wella.<br>○ Llywodraethwyr gyda chynllun manwl i fonitro gweithrediad y cynllun gwella. | GTR |
| 12/12 | Cynlluniau darllen yr ysgol. | ○ Nifer yr ysgolion gyda strategaethau clir ar gyfer gwella safonau darllen. | GTR |
| 12/12<br>a<br>3/13 | Cefnogaeth cytundeb Partneriaeth a chategorïau ymyriad. | ○ Craffu ar nifer yr ysgolion yn y gwahanol gategorïau ac ansawdd y cynlluniau gwella ar gyfer ysgolion sydd angen cefnogi a monitro ffocysedig ac sydd angen cefnogaeth sylweddol.<br>○ Nifer yr ysgolion sy'n dangos gwelliant. | WGJ |
| 12/12 | Gweithredu arweiniad y Consortiwm ar gyfer arfarnu ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth | ○ Nifer yr ysgolion yn y gwahanol gategorïau ansawdd arweinyddiaeth ysgol<br>○ Eglurhad bod pryderon yr Awdurdod ynghylch ansawdd arweinyddiaeth ysgolion unigol wedi cael ei rannu gyda'r Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu unigol a bod cynllun gweithredu clir i sicrhau gwelliant. | GTR |
| 1/13 | Prosesau adolygedig ar gyfer cymedroli asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2 . | ○ Manylder prosesau adolygedig ar gyfer safoni.<br>○ Ymateb ysgolion unigol i'r gefnogaeth a'r arweiniad a gynigir. | GTR |
| 3/13 | Cynlluniau ysgolion ar gyfer gwella safonau ysgrifennu. | ○ Nifer yr ysgolion gyda strategaethau clir ar gyfer gwella safonau ysgrifennu. | GTR/EVJ |
| 4/13 | Nifer y bobl ifanc sy'n ennill achrediad drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. | ○ Perfformiad Clybiau Ieuenctid unigol mewn cymhariaeth â'r targedau a osodwyd.<br>○ Perfformiad cyffredinol y Gwasanaeth Ieuenctid.<br>○ Adroddiad Archwiliad i Uned Ddata Llywodraeth Cymru ac adroddiad ar Gytundeb Deilliant a Chynllun Busnes i Uned Rheoli Perfformiad y Cygor. | LIJ |
| 7/13 | Y gefnogaeth a ddarperir ar gyfer rheolwyr canol, dirprwyon a Phenaethiaid i wella ansawdd arweinyddiaeth a hunanwerthuso. | ○ Craffu ar enghreifftiau er mwyn arfarnu effaith y gefnogaeth ar arweinyddiaeth ar bob lefel mewn ysgolion. | GTR |

**ATODIAD 1 - Sgriwtini Corfforaethol Atodiad 1 PIAP Draft 300912 Cymraeg**

| | |
|---|---|
| Agwedd i gael sylw | A2. Cynllunio'n fwy effeithiol gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion. |
| Swyddog â chyfrifoldeb | GP |

| Pwyntiau gweithredu | Swyddog Arweiniol | Graddfa amser | | Adnoddau/ Cefnogaeth | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Strategaeth gynhwysiad<br>o Adolygu strategaeth gynhwysiad yr Awdurdod a rhannu'r cynnwys gydag ysgolion. Y strategaeth i gynnwys<br>▪ arweiniad manwl i ysgolion;<br>▪ arweiniad manwl i staff yr awdurdod;<br>▪ defnydd o wybodaeth i fonitro perfformiad;<br>▪ arweiniad ar gytuno targedau gydag ysgolion;<br>▪ defnydd o rym i sicrhau cefnogaeth rieni;<br>▪ swyddogaeth partneriaid, yn arbennig y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â gwella presenoldeb a lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol<br>o Sicrhau bod arferion da ar lefel ysgol mewn perthynas ag ymwneud â rhieni, swyddogaeth y Swyddog Lles Addysg, gwaharddiadau mewnol, defnyddio staff cynhwysiad yr ysgol yn cael ei rannu rhwng ysgolion, staff yr awdurdod a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. | JM | 09/12 | 07/13 | | o Cytundeb ar lefel ysgolion, awdurdod a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r gweithdrefnau allweddol i'w dilyn i wella presenoldeb.<br>o Graddfeydd presenoldeb gwell yn y sectorau cynradd ac uwchradd (gweler isod).<br>o Lleihad mewn gwaharddiadau parhaol a thymor penodol (gweler isod) |
| Gwella presenoldeb – swyddogaethau a chyfrifoldebau<br>o Crisialu swyddogaethau, cyfrifoldebau a disgwyliadau staff ysgol, Llywodraethwyr a staff Awdurdod i wella presenoldeb megis polisïau, ymateb diwrnod cyntaf, darparu data presenoldeb i'r ALL, swyddogaeth y Swyddogion Lles Addysg, delio gydag absenoldeb parhaus.<br>o Darparu arweiniad clir i Lywodraethwyr mewn perthynas â'u swyddogaeth mewn monitro ac ymateb i faterion cysylltiedig â phresenoldeb.<br>o Sicrhau bod y SLlA yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau presenoldeb disgyblion unigol.<br>o Sicrhau bod y grŵp Cynhwysiad Uwchradd yn cymryd cyfrifoldeb strategol ar gyfer gwella presenoldeb ac y rhennir yr arfer dda mewn ysgolion unigol.<br>o Sicrhau bod rheoli perfformiad SLlA yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i wella presenoldeb. | JM<br><br><br><br>JM<br><br>JM<br>GP<br><br>GP/JM | 09/12<br><br><br><br>09/12<br><br>07/12<br>09/12<br><br>09/12 | 11/12<br><br><br><br>11/12<br><br>8/14<br>8/14<br><br>07/13 | Cynnydd yn nifer y SLlA clla [1 SLlA ar gyfer pob dalgylch – c £40k]. | o Eglurder mewn perthynas â swyddogaethau, cyfrifoldebau a disgwyliadau ysgolion, SLLA a swyddogion ALL mewn perthynas â gwella presenoldeb.<br>o Llywodraethwyr yn ymwybodol o'u swyddogaeth mewn perthynas â herio presenoldeb.<br>o SLlA yn deall eu swyddogaeth a'r flaenoriaeth i'w rhoi i wella presenoldeb disgyblion unigol. Dull cyson tuag at wella presenoldeb ymhlith y tîm SLlA – pob aelod o'r staff yn cyflwyno gwasanaeth rhagweithiol o ansawdd uchel.<br>o SLlA unigol yn ymwybodol o'u cyfraniad disgwyliedig tuag at gyflawni targed yr Awdurdod. |
| Gwella presenoldeb – defnyddio data<br>o Cytuno ar dargedau presenoldeb heriol ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd mewn perthynas â pherfformiad absoliwt a pherfformiad mewn perthynas â chwarteri PYD.<br>o Casglu a dadansoddi gwybodaeth am bresenoldeb o ysgolion ar sail hanner tymor i fonitro perfformiad a thargedu gwaith y SLlA.<br>o Sicrhau bod data presenoldeb ar gael ar gyfer ymweliadau tymhorol [cynradd ac uwchradd] i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd.<br>o Sicrhau bod disgyblion unigol sydd ag arwyddion o bresenoldeb gwael [mewn ysgolion cynradd ac uwchradd] yn cael eu hadnabod a'u cyfeirio'n gyflym.<br>o Monitro presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion yn cynnwys disgyblion ADY a grwpiau bregus. | JM<br><br>JM<br><br>JM<br><br>JM<br><br>MR/JM | 09/12<br><br>09/12<br><br>09/12<br><br>09/12<br><br>09/12 | 11/12<br><br>1/13<br><br>1/13<br><br>1/13<br><br>07/13 | Sicrhau bod systemau MIS yn caniatáu mynediad i ddata presenoldeb. | o Targedau ym mhob ysgol yn cael eu craffu a'u herio<br>o Targedau ysgol ar gyfer presenoldeb yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad PYD..<br>o Pob ysgol sydd wedi bod yn y chwarter isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chynllun gweithredu clir ar gyfer gwella<br>o Lleihad yn nifer rhai sy'n absennol yn barhaus |
| Gwella presenoldeb - cydweithredu gyda swyddogion proffesiynol eraill<br>o Sefydlu protocol i sicrhau bod addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb mewn | GP | 09/12 | 11/12 | Cefnogaeth o Adrannau Cyngor allweddol eraill | o Negeseuon a blaenoriaeth gyson mewn perthynas â phresenoldeb yn cael ei darparu gan swyddogion proffesiynol sy'n gweithio gyda |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| perthynas â gwella lefel bresenoldeb disgyblion unigol, yn arbennig mewn perthynas â chydweithio i ddelio ag achosion o absenoldeb parhaus.<br>○ Monitro presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion, yn cynnwys grwpiau bregus a rhannu eu canfyddiadau gyda swyddogion proffesiynol perthnasol eraill.<br>○ Sicrhau bod staff amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.<br>○ Sicrhau y rhennir enghreifftiau unigol o bresenoldeb gwael [<90%] gyda swyddogion proffesiynol eraill sy'n gweithio gydag ysgolion.<br>○ Sicrhau bod prosiect TAT yn ymroi i wella presenoldeb yn yr ysgol fel un o'i flaenoriaethau allweddol wrth weithio gyda theuluoedd unigol.<br>○ Gweithio gyda'r Heddlu i ymgymryd ag ysgubiadau triwantiaeth rheolaidd | JM<br><br>GP<br><br>GP<br><br>WGJ<br><br>GP<br><br>JM | 09/12<br><br>09/12<br><br>09/12<br><br>09/12<br><br>09/12<br><br>10/12 | 8/14<br><br>11/12<br><br>8/14<br><br>8/14<br><br>-<br><br>8/14 | | phlant.<br>○ Disgyblion gyda phatrymau gwael o bresenoldeb yn cael eu hadnabod, y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r asiantaeth gefnogi berthnasol a chamau cytunedig yn cael eu dilyn i wella presenoldeb plant unigol.<br>○ Cytundeb ymhlith yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant o'r camau a'r amserlenni angenrheidiol i gael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb y disgyblion hynny a gafodd eu hadnabod fel y rhai presennol yn fwyaf rheolaidd. |
| Gwella nifer y gwaharddiadau tymor penodol<br>○ Sicrhau cysondeb rhwng ysgolion mewn perthynas â gwaharddiadau tymor penodol a rhai parhaol, e.e. trafodaethau gyda Phenaethiaid Uwchradd a swyddogion cynhwysiad ysgol ynglŷn â'r trothwyon ar gyfer gweithredu sancsiynau mewn achosion unigol a'r strategaethau cefnogaeth ac ymyrraeth llwyddiannus a ddefnyddir mewn ysgolion eraill ym Môn a thu hwnt.<br>○ Monitro nifer a dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau tymor penodol a herio ysgolion unigol yn ôl yr angen. | JM<br><br>JM | 09/12<br><br>09/12 | 12/12<br><br>09/13 | Swyddog ymddygiad Uwchradd i weithio gyda disgyblion ac ysgolion | ○ Dealltwriaeth glir gan ysgolion a staff yr awdurdod mewn perthynas â lefelau/meini prawf goddefgarwch gwaharddiadau.<br>○ Lleihad yn nifer gwaharddiadau parhaol<br>○ Lleihad yn nifer gwaharddiadau 5 diwrnod a 6 diwrnod neu fwy islaw'r cyfartaledd Cymreig |
| Gwella ymddygiad<br>○ Adolygu strategaeth gefnogi ymddygiad yr Awdurdod i ysgolion. Mae hyn i gynnwys<br>▪ hyfforddiant/cefnogaeth i ysgolion cynradd/uwchradd ac<br>▪ astudiaeth ddichonoldeb mewn perthynas â defnydd posibl o unedau cyfeirio disgyblion [UCD /PRUs] yn CA3 a CA4. | JM | 10/12 | 02/13 | Cefnogaeth Gorfforaethol ynghylch astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer PRU a chostau sefydlu posibl. | ○ Strategaeth ymddygiad diwygiedig wedi ei rhannu ag ysgolion.<br>○ Adroddiad dichonoldeb busnes ar gyfer UCD CA3 a CA4 wedi'i ddatblygu. |

| Gwelliant disgwyliedig | |
|---|---|
| | 1. Strategaeth gynhwysiad cynhwysfawr wedi ei datblygu a'i deall gan bob cydranddaliwr.<br>2. Presenoldeb yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad ranc PYD.<br>3. Presenoldeb yn yr holl ysgolion uwchradd yn gyfartal neu'n uwch na'r disgwyliad llinell atchwel PYD.<br>4. Mwy na hanner yr ysgolion uwchradd yn hanner uchaf y dosbarthiad PYD mewn perthynas â phresenoldeb |

**Rhaglen fonitro**

| Dyddiad | Agwedd CGOA yr adroddir arni | Gwybodaeth i graffu arni | Swyddog |
|---|---|---|---|
| Tymhorol | Statws y strategaeth gynhwysiad - gwaith a gwblhawyd ac ymateb ysgolion a phartneriaid | ○ Eglurder mewn perthynas â disgwyliadau ac ymateb ysgolion a phartneriaid. Yn y tymor byr, canolbwyntir ar bresenoldeb a gwaharddiadau cyfnod penodol. | JM |
| Hanner- tymhorol | Graddfeydd presenoldeb a pherfformiad ysgolion unigol ar sail hanner-tymor. | ○ Craffu ar nifer yr ysgolion sydd un ai uwchlaw neu islaw'r targedau cytunedig a derbyn gwybodaeth ar weithredu adferol. | JM |
| 11/12 | Lefelau/meini prawf goddefiad gwaharddiadau a gytunwyd gan y grŵp cynhwysiad uwchradd a chyfranddalwyr eraill. | ○ Lefelau goddefiad cytunedig yn cael effaith gadarnhaol ar leihau gwaharddiadau (gweler– targedau). | JM |
| 12/12 | Ysgolion sydd wedi bod yn y chwarter isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf | ○ Adroddiad ar ysgolion sydd wedi bod yn y chwarter isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf yn nodi a oes cynllun gweithredu ar gyfer gwella a bod y Corff Llywodraethu yn ymwybodol o'r angen am wella (presenoldeb). | GP |
| 12/12 | Polisi Ymddygiad ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid . | ○ Craffu ar gynnwys y Polisi a bod y log hyfforddi yn dangos bod o leiaf un aelod o'r staff o bob clwb wedi mynychu hyfforddiant ar bolisi ac ar reoli ymddygiad heriol. | EW |
| Hanner-tymhorol | G raddfeydd presenoldeb disgyblion ADY ar lefel awdurdod ac ysgol unigol – i'r Tîm Rheoli Addysg ar sail fisol | ○ Cymharu presenoldeb disgyblion ADY, ar lefel awdurdod ac ysgol unigol gyda pherfformiad yr Awdurdod a Chymru gyfan mewn blynyddoedd blaenorol. | MR |
| Hanner-tymhorol | Gwaharddiadau parhaol a thymor penodol ar sail fisol . | ○ Rhannu gwybodaeth gydag ysgolion am drothwyon a sancsiynau a gytunwyd ar gyfer achosion unigol a strategaethau cefnogaeth ac ymyrraeth llwyddiannus a weithredwyd yn lleol a thu hwnt.<br>○ Craffu a yw strategaethau, arweiniad a lefelau goddefiad cytunedig yn cael yr effaith a ddymunir mewn ysgolion unigol ai peidio. | JM |

| Agwedd i gael sylw | A4. Cynllunio effeithlonrwydd gwell wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes |
|---|---|
| Swyddog sy'n gyfrifol | GP |

| Pwyntiau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Graddfa Amser | | Adnoddau/ Cefnogaeth | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | | |
| Rhaglen foderneiddio ysgolion<br>o Cynyddu cyflymder y rhaglen foderneiddio ysgolion (gweler argymhelliad A6). | GP/EB | | | | |
| Gorwariant yn y gyllideb integreiddio<br>o Parhau i fonitro gwariant y gyllideb integreiddio gynradd a gweithredu i leihau gwariant [nifer y cymorthyddion ysgol] os oes arwyddion bydd y gyllideb yn gorwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2012-13.<br>o Delio â'r gorwario ar y gyllideb uwchradd drwy gwblhau'r lleihad yng ngweithlu cymorthyddion uwchradd a defnyddio'r rhagamcan diwedd blwyddyn i lywio unrhyw weithredu pellach. | MR<br>MR | 9/12<br>7/12 | 3/13<br>12/12 | Cefnogaeth barhaus gan AD a swyddogion Cyllid | o Gwariant Cynradd i aros o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 12/13 (fel yn 11/12).<br>o Gorwariant yng nghyllideb uwchradd 2012-13 wedi ei leihau a chynllun clir yn bodoli i adnabod unrhyw fesurau angenrheidiol i resymoli'r gweithlu ymhellach er mwyn sicrhau fod gwariant 2013-14 yn aros o fewn y gyllideb. |
| Rheolaeth ariannol ysgolion<br>o Adolygu canllawiau ar gyfer ysgolion i ddangos yn glir yn eu cynlluniau datblygu ysgol [CDY] sut y defnyddir incwm ac arian wrth gefn er budd dysgwyr y presennol a'r dyfodol.<br>o Sicrhau bod gan ysgolion sydd â diffygion cyllidebol gynllun adfer cadarn, wedi ei gytuno gyda'r Pennaeth Cyllid, i fynd i'r afael â hynny. Y strategaeth i'w chytuno'n ysgrifenedig gyda'r ysgol<br>o Ansawdd rheolaeth ariannol mewn ysgol i gael ei fesur a'i gynnwys yn rhan o broffil data'r ysgol [gweler argymhelliad 1]. | GP<br>GP<br>GP | 6/12<br>9/12<br>9/12 | 11/12<br>11/12<br>1/13 | Cefnogaeth barhaus gan Adnoddau Dynol a swyddogion Cyllid<br><br>I'w gytuno gyda'r Pennaeth Cyllid | o Ysgolion gyda balansau o >£25,000 neu >£5% o ddyraniad yn cael eu herio ar eu cynlluniau arfaethedig ar gyfer defnyddio arian wrth gefn.<br>o Nifer yr ysgolion gyda chyllidebau diffygiol wedi lleihau fel bod yr ALl yn cymharu'n ffafriol gydag awdurdodau eraill.<br>o Pob ysgol gyda chyllidebau diffygiol i fod â chynlluniau adfer cadarn, wedi eu cymeradwyo gan Gyllid ac Addysg.<br>o Llywodraethwyr yn ymwybodol o unrhyw ddiffygion rheolaeth ariannol mewn ysgolion unigol. |
| Cyllido lleoliadau nas cynhelir<br>o Dadansoddi lleoliadau ar draws yr awdurdod a chysylltu â nifer y plant ac ansawdd y ddarpariaeth. Adnabod ardaloedd heb unrhyw ddarpariaeth, lleoliadau gyda niferoedd isel a lleoliadau a adnabuwyd fel rhai gyda safonau digonol, a gweithredu'n briodol.<br>o Trafod dadansoddiad o ganfyddiadau gyda Grŵp Monitro Blynyddoedd Cynnar i adnabod lleoliadau unigol o bryder a chytuno ar y gweithredu sy'n ofynnol. | DGJ | 9/12 | 1/13 | Ansawdd yr wybodaeth ar gyfer Tîm y Blynyddoedd Cynnar | o Ystyriaethau sicrhau ansawdd i gael eu mireinio a lleoliadau nas cynhelir i gael eu hysbysu (ymlaen llaw) cyn dyrannu arian yn 13/14.<br>o Tystiolaeth eglur bod ystyriaethau sicrhau ansawdd yn dylanwadu ar ddyrannu arian yn 13/14. |
| Rheoli adnoddau ADY<br>o Datblygu cynllun strategol manwl ar gyfer ADY yn seiliedig ar arolwg cyfnodol o ddarpariaeth ar gyfer pob categori o AAA o'r blynyddoedd cynnar hyd at ôl-16.<br>o Llunio map llwybr eglur i ddirprwyo arian AAA yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Dylai'r map dalu sylw dyledus i eglurder meini prawf ar gyfer dosbarthu arian sydd ar gael, gwneud defnydd llawn o ddangosyddion lefel angen [e.e. data CYBLD / PLASC] ac amlinellu sut y bydd y defnydd o arian a ddirprwywyd yn cael ei fonitro. | MR<br>MR | 9/12<br>9/12 | 11/12<br>3/13 | | o Cynllun strategol ADY cynhwysfawr, yr ymgynghorwyd arno a'i herio, wedi ei fabwysiadu a'i ddeall yn glir gan bob cydranddaliwr.<br>o Dealltwriaeth glir gan Benaethiaid o arian dirprwyedig ADY a'i gyfraniad at y raddfa ddirprwyo gyffredinol [80.4% (12/13) a tharged arfaethedig o 85% (13/14)].<br>o Meini prawf diwygiedig ar gyfer arian AAA ychwanegol yn ei le ac wedi ei gyfuno yn y fformiwla ar gyfer dirprwyo adnoddau. |
| Darpariaeth ôl-16<br>Parhau i weithio gyda Grŵp Partneriaeth Ôl-16 Ynys Môn/Gwynedd i:<br>o Leihau cystadleuaeth a dyblygu yn y ddarpariaeth ôl-16 ac adnabod | EVJ | 6/12 | 6/14 | Cefnogaeth drwy grŵp partneriaeth Ynys | o Cynnydd yn nifer cyrsiau ar y cyd yng Ngwynedd ac Ynys Môn i 38 erbyn 2014 (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Grŵp |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| effeithiolrwydd drwy gyflwyno cydweithredol<br>o asesu a gwerthfawrogi'n llawn anghenion a dyheadau pobl ifanc, yn ogystal ag anghenion a gofynion y farchnad lafur lleol;<br>o mwyhau'r defnydd o adnoddau ac isadeiledd sydd ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant ym maes 16-19;<br>o gwneud defnydd o gyllidebau a rennir yn ganolog ar gyfer addysg a hyfforddiant 16-19 i weithredu ar flaenoriaethau allweddol a gweithredu trefniadau cydweithredol. | | | | Môn/Gwynedd a Gweithgor 16+ | Partneriaeth llawn).<br>o Lleihad yn nifer cyrsiau anhyfyw - llai na 6 o ddysgwyr ar gyfer 2013-14, cyrsiau gyda llai na 8 o ddysgwyr ar gyfer 2014-15 ac o dan 10 o ddysgwyr ar gyfer 2015-16.<br>o Lleihad yn y costau addysgu yn ôl dysgwr ac yn ôl cwrs erbyn 2014. |

| Gwelliant disgwyliedig | 1. Cynllun Moderneiddio Ysgolion cynhwysfawr ac uchelgeisiol wedi'i ymgynghori a'i fabwysiadu (gweler A6).<br>2. Gwariant Integreiddio Cynradd i aros o fewn y gyllideb yn 2012/13, a chynlluniau clir yn eu lle i sicrhau llwyddiannau cyffelyb mewn perthynas â'r gyllideb integreiddio uwchradd.<br>3. Pob ysgol sydd â chyllidebau diffygiol i fod â chynlluniau adfer cadarn yn dangos sut yr ymatebir i'r diffygion dros gyfnod o flynyddoedd.<br>4. Mireinio gweithdrefnau sicrhau ansawdd a lleoliadau nas cynhelir yn cael eu hysbysu ymlaen llaw cyn dyrannu arian yn 13/14.<br>5. Datblygu meini prawf diwygiedig ar gyfer ariannu ADY mewn partneriaeth ag ysgolion, a chael ei integreiddio i'r fformiwla ar gyfer datganoli adnoddau |
|---|---|

Rhaglen fonitro

| Dyddiad | Agwedd CGOA yr adroddir arni | Gwybodaeth i graffu arni | Swyddog |
|---|---|---|---|
| Chwarterol | Adroddiadau ariannol yn ffurfio rhan o gynlluniau datblygu gwasanaeth. Adrodd ar wariant ar y gyllideb integreiddio yn chwarterol . | o Monitro gwariant (gorwariant/tanwariant ) ar sail chwarterol. | GP |
| 11/12 | Sefyllfa ariannol ysgolion unigol. | o Tystiolaeth bod gan ysgolion gyda diffygion cyllidebol gynllun adfer cadarn, wedi ei gytuno gyda'r Pennaeth Cyllid, i fynd i'r afael â hyn.<br>o Tystiolaeth bod gan ysgolion gydag arian sylweddol wrth gefn gynlluniau clir i ddangos sut y defnyddir arian wrth gefn er budd dysgwyr y presennol a'r dyfodol<br>o Tystiolaeth o ymyrryd ALl lle bo'n briodol. | GP |
| 1/13 | Ansawdd rheolaeth ariannol mewn ysgolion. | o Monitro canfyddiad yr awdurdod o ansawdd rheolaeth ariannol mewn ysgolion. | GP |
| 1/13 | Y cynllun arfaethedig i ariannu lleoliadau nas cynhelir yn 2013/14, yn seiliedig ar ystyriaethau sicrhau ansawdd. | o Sicrhau bod yr adroddiad yn rhoi sylw i ansawdd, ac ystyriaethau penodol eraill, mewn perthynas ag ariannu lleoliadau nas cynhelir. | DGJ |
| 12/12 | Cynnydd mewn perthynas â datblygu ac addasu Cynllun Strategol ADY a map llwybro i ddirprwyo arian. | o Craffu a yw'r Cynllun Strategol ADY yn addas i bwrpas ac a yw'r map llwybro yn gwneud defnydd priodol ai peidio o ddata perthynol i lefel angen a chost darpariaeth. | MR |

**ATODIAD 1 - Sgriwtini Corfforaethol Atodiad 1 PIAP Draft 300912 Cymraeg**

| | |
|---|---|
| Agwedd i gael sylw | A6. Cymryd camau i leihau nifer y lleoedd dros ben |
| Swyddog sy’n gyfrifol | GP |

| Pwyntiau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Graddfa Amser | | Adnoddau / Cefnogaeth | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Ymateb i’r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau<br>o Y Deilydd Portffolio Addysg i ddarparu i Lywodraeth Cymru ddatganiad o gynlluniau’r ALL i leihau lleoedd dros ben i lefel a fydd yn cyfarfod â disgwyliadau’r Gweinidog Addysg (erbyn Ionawr2015). | GP | 6/12 | 7/12 | Comisiynwyr, Pwyllgor Gwaith Cysgodol ar UDA | o Cytundeb gyda’r Comisiynwyr, aelodau etholedig allweddol a’r UDA ynghylch egwyddorion sylfaenol allweddol y rhaglen moderneiddio ysgolion. |
| Lleihad byrdymor mewn ôl troed ysgolion.<br>o Y Comisiynwyr a’r Pwyllgor Gwaith Cysgodol i gytuno ar gynllun byrdymor, yn seiliedig ar gydleoli gwasanaethau’r Cyngor, y defnydd o TGCh i hybu menter gymunedol a pheidio defnyddio ystafelloedd mewn ysgolion unigol *(mothballing)* i leihau maint ôl troed ysgolion unigol.<br>o Cynllun gweithredu, yn seiliedig ar yr uchod, ac wedi ei gyplysu â’r cyllid angenrheidiol [gweler isod ]wedi’i gytuno gyda’r Comisiynwyr, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol a’r ysgolion. | GP<br><br>GP | 6/12<br><br>1/13 | 12/12<br><br>9/14 | Cefnogaeth gorfforaethol [AD, Eiddo, Cyllid]<br><br>Cefnogaeth gorfforaethol Arian gweithredu | o Amlinelliad cyffredinol a chynllun gweithredu wedi eu cytuno gan y Comisiynwyr, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol yr UDA, Penaethiaid a Llywodraethwyr.<br>o Lleihad tymor byr o tua 4% cynradd a 5% uwchradd mewn lleoedd dros ben yn unol â dymuniadau’r Gweinidog i’w gyflawni erbyn Medi 2014. |
| Cwblhau’r broses ymgynghori bresennol<br>Cwblhau’r broses ymgynghori a ddechreuwyd yn ardaloedd Llangefni, Caergybi, Bodedern [Llannau] a De Ddwyrain Ynys Môn. | GP | 6/12 | 3/13 | | o Cytundeb ar y gweithredu i’w ddilyn yn yr ardaloedd unigol, gyda golwg ar leihau lleoedd dros ben a’r gost y pen. |
| Rhaglen foderneiddio ysgolion<br>o Y Comisiynwyr, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol, y Penaethiaid a’r aelodau etholedig i gytuno ar gynnwys y rhaglen moderneiddio i resymoli ei bortffolio eiddo, yn cynnwys ysgolion. Hyn i gynnwys<br>▪ cytundeb ar yr egwyddorion addysgol allweddol sydd i’w cynnwys yn y strategaeth moderneiddio ysgolion;<br>▪ datblygu achos busnes cadarn i ddarparu’r cyllid angenrheidiol i gefnogi’r rhaglen resymoli.<br>o Y Comisiynwyr, Pwyllgor Gwaith Cysgodol a’r UDA i ddefnyddio’r polisi moderneiddio ysgolion a’r cyfrwng ased-gefnogol lleol i gytuno ar gynllun moderneiddio manwl i’w ymgynhori arno a’i weithredu ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol yn Ebrill 2013. Bydd y cynllun moderneiddio’n cael ei yrru gan yr angen am ysgolion addas i bwrpas yn y lleoliadau cywir – ysgolion sector-arweiniol mewn cymunedau sector-arweiniol. | GP<br>BJ<br>GP | 9/12<br>9/12<br>1/13 | 1/13<br>5/13<br>5/13 | Cefnogaeth gorfforaethol<br><br>Local Partnerships dan arweiniad BJ<br>Cefnogaeth gorfforaethol | o Cytundeb ymysg rhanddeiliaid allweddol ar egwyddorion allweddol y strategaeth foderneiddio ysgolion<br>o Y Comisiynwyr a’r Pwyllgor Gwaith Cysgodol i gytuno ar gynllun amlinell manwl i’w dilyn wedi’r etholiad llywodraeth leol. Y cynllun i gynnwys:<br>▪ cynigion penodol ar gyfer ad-drefnu’r isadeiledd ysgolion, ac<br>▪ amlinelliad o’r cyllid angenrheidiol.<br>o Cytundeb rhwng y Comisiynwyr, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yr Aelodau Etholedig a’r UDA ar gompact i ymgymryd â’r rhaglen moderneiddio ysgolion . |

**Mae angen ystyried yr anghenion uchod mewn cydweithrediad â’r wybodaeth a ddarperir yn atodiad 1.**

| | |
|---|---|
| Gwelliant disgwyliedig | 1. Lleihad yn ôl troed ysgolion a lleihad cysylltiedig [4% cynradd, 5% uwchradd] yn nifer a % lleoedd dros ben erbyn Medi 2014.<br>2. Cytundeb ymhlith y rhanddeiliaid allweddol ar egwyddorion allweddol y rhaglen moderneiddio ysgolion.<br>3. Cytundeb rhwng y Comisiynwyr, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yr Aelodau Etholedig a’r UDA ar gynnwys y cynllun moderneiddio ysgolion i’w ymgynghori arno a’i ddilyn ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol. |

Rhaglen fonitro

| Dyddiad | Agwedd CGOA yr adroddir arni | Gwybodaeth i graffu arni | Swyddog |
|---|---|---|---|
| 12/12 | Lleihau ôl troed ysgolion | o Eglurder ac ymarferoldeb y cynllun i leihau ôl troed ysgolion. | GP |
| 11/12 | Egwyddorion y cynllun moderneiddio ysgolion | o Egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd y rhaglen moderneiddio ysgolion. | GP |
| 3/13 | Cynnydd, yn y cyfnod cyn-etholiad, gyda’r rhaglen moderneiddio ysgolion | o Ymarferoldeb y rhaglen; lleihad yng % y lleoedd dros ben; adnabod risgiau i’r rhaglen yn y cyfnod cyn-etholiad/ ôl-etholiad. | GP |

## ATODIAD 1 - Sgriwtini Corfforaethol Atodiad 1 PIAP Draft 300912 Cymraeg

| | |
|---|---|
| Agwedd i gael sylw | A3. Sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg i broffesiynoli cyflwyno gwasanaethau addysg yn weithredol;<br>A5. Sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb yn y gofynion ar gyfer hunan arfarnu yn weithredol ac yn strategol; |
| Swyddog sy'n gyfrifol | WGJ |

| Pwyntiau gweithredu | Swyddog Arweiniol | Graddfa Amser | | Adnoddau / Cefnogaeth | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | | |
| Cynlluniau busnes gwasanaeth unigol;<br>o Datblygu canllawiau, yn seiliedig ar bolisïau ac ymarfer corfforaethol, i benaethiaid gwasanaeth eu dilyn mewn perthynas â systemau cynllunio busnes, hunan-arfarnu [yn seiliedig ar ddata deilliannau] a monitro cyllidebol. Bydd y cynlluniau gwasanaeth<br>▪ wedi'u cysylltu â blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth;<br>▪ yn amser-benodol;<br>▪ yn ddeilliant-seiliedig;<br>ac yn cynnwys targedau penodol a fydd yn ffurfio sail rheoli perfformiad y swyddog sy'n gyfrifol am y gwasanaeth penodol ac aelodau unigol o'r staff o fewn y gwasanaeth. Bydd y cynlluniau hefyd yn cyfeirio at yr elfennau cyllidebol a reolir gan y gwasanaeth. | WGJ | 6/12 | 9/12 | Cefnogaeth gorfforaethol – cynllunio busnes ac asesu risg | o Cynlluniau busnes y man gwasanaeth wedi eu cynhyrchu i fformat cyffredin yn seiliedig ar ganllawiau hunan-arfarniad a chorfforaethol cadarn.<br>o Mesurau rheoli perfformiad, yn seiliedig ar arweiniad corfforaethol a chynlluniau man gwasanaeth, i'w defnyddio<br>▪ wrth arfarnu cynnydd ar lefel man gwasanaeth;<br>▪ ar gyfer hyrwyddo rheoli perfformiad aelodau o staff unigol;<br>▪ ar gyfer rheoli perfformiad adrannau unigol. |
| o Defnyddio arweiniad corfforaethol i gysylltu cynlluniau busnes gwasanaeth gyda chanllawiau asesu risg corfforaethol. | WGJ | 9/12 | 8/14 | | o Asesiad risg cynhwysfawr i werthuso cynnydd gyda'r gweithgareddau unigol a gafodd eu cynnwys ym mhob cynllun busnes gwasanaeth. |
| Hunan-arfarniad ac asesiad o effeithiau<br>o Sefydlu hunan-arfarniad ac asesiad o effaith fel egwyddor allweddol o fewn y gyfarwyddiaeth i arfarnu llwyddiant neu fel arall raglenni unigol a mentrau penodol. Bydd hyn yn cynnwys<br>▪ adolygiad rheolaidd o hunan-arfarniad y gwasanaeth [yn unol â chanllawiau Estyn] a<br>▪ chytuno ar ddeilliannau disgwyliedig ar gyfer mentrau a phrosiectau penodol. | WGJ a rheolwyr Gwasanaeth | 6/12 | 3/13 | Cefnogaeth Cynnal – hunan arfarnu | o Hunan-arfarniad ac asesiad o effeithiau wedi eu sefydlu'n gadarn fel sylfaen mesur cynnydd o fewn y gyfarwyddiaeth. O ganlyniad<br>▪ bydd gan y Bartneriaeth Plant a Phobl ifanc drosolwg wedi ei ddatblygu'n dda o effaith eu gwaith ar ddysgwyr er mwyn cydlynu gwasanaethau'n effeithiol;<br>▪ bydd gwybodaeth gynhwysfawr ar effaith datblygiadau 14-19;<br>▪ bydd cynnydd mentrau penodol, megis effaith gwasanaethau ADY ac argymhellion arolygiadau, yn cael eu hadolygu a'u hasesu risg yn erbyn deilliannau. |
| Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant pellach ar gyfer staff i ddefnyddio RBA i fesur deilliannau, adolygu'r Fframwaith Asesu Ansawdd a datblygu proffil data i herio perfformiad a monitro cynnydd rhaglenni gwaith penodol. | EW/LlJ | 10/12 | 3/13 | Cefnogaeth gorfforaethol | |
| o Cydweithredu gyda Phartneriaeth Pobl Ifanc unedig newydd Gwynedd a Môn i adnabod blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid ar draws y ddau awdurdod, a chytuno ar brosesau monitro ar gyfer mesur effeithiau | LlJ | 1/13 | 8/16 | | |

| | |
|---|---|
| Gwelliant disgwyliedig | 1. Cynlluniau busnes gwasanaeth wedi eu sefydlu ar fformat cyffredin sy'n rhoi sylw i hunan-arfarniad, asesiad effeithiau ac asesiad risg a fydd yn arwain at well effeithiolrwydd ac atebolrwydd.<br>2. Pob aelod o staff o fewn pob man gwasanaeth yn hollol gyfarwydd â chynnwys cynllun busnes adraloedd penodol o'r gwasanaeth, yn ymwybodol o'u cyfraniad tuag at sylweddoli'r blaenoriaethau a nodwyd ac yn deall y cyswllt â rheoli perfformiad.<br>3. Monitro cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd a graddfeydd amser a nodwyd ar lefel cyfarwyddiaeth a gwasanaeth penodol.<br>4. Rheoli perfformiad, ar lefel gwasanaeth a lefel aelod o staff unigol, yn rhan o'r cynllunio ac adolygu busnes o fewn pob man gwasanaeth.<br>5. Lefel gynyddol o her gan y Cyfarwyddwr i swyddogion sy'n gyfrifol am berfformiad gwasanaeth penodol er mwyn cynyddu eu disgwyliadau a sicrhau cysondeb. |

**ATODIAD 1 - Sgriwtini Corfforaethol Atodiad 1 PIAP Draft 300912 Cymraeg**

| Rhaglen fonitro | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | Agwedd CGOA yr adroddir arni | Gwybodaeth i graffu arni | Swyddog |
| 11/12 | Adroddiad ar gynlluniau busnes o fewn y gyfarwyddiaeth. | ○ Craffu ar<br>▪ argaeledd cynlluniau busnes ar gyfer pob maes gwasanaeth;<br>▪ ansawdd cynlluniau busnes mewn perthynas â chadernid hunan-arfarnu, mesur deilliannau ac asesu effeithiau,<br>▪ addasrwydd y cynlluniau busnes ar gyfer lefel rheoli perfformiad, yn y gwasanaeth ac aelod unigol o staff;<br>▪ addasrwydd ar gyfer llywio asesiad risg. | WGJ |

Tudalen 126

| Agwedd i gael sylw | A7. Ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion |
|---|---|
| Swyddog sy'n gyfrifol | WGJ |

| Pwyntiau gweithredu | Swyddog Arweiniol | Graddfa amser | | Adnoddau/ Cefnogaeth | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | | |
| Herio arweinyddion ysgolion<br>○ Cynyddu lefel yr her i arweinyddion ysgol. Bydd hyn yn cynnwys | | | | | ○ Lefel uwch o her i ysgolion, yn arbennig ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod yn tanberfformio.<br>○ Rhan ychwanegol ar gyfer aelodau etholedig mewn perthynas ag ysgolion sy'n tanberfformio. |
| ▪ gosod safonau diwedd cyfnod allweddol heriol i sicrhau bod perfformiad ysgol yn gyfartal neu'n uwch na meincnodau PYD; | EVJ/GTR | 6/12 | 11/12 | | |
| ▪ cytuno i dargedau heriol ar gyfer gwella safonau darllen ar ddiwedd CA2 a CA3; | EVJ/GTR | 9/12 | 1/13 | | |
| ▪ arfarnu a herio ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth; | WGJ | 9/12 | 8/14 | | |
| ▪ aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg i herio ysgolion yr ystyrir eu bod yn tanberfformio. | WGJ | 9/12 | 7/13 | | |
| ▪ sicrhau bod Penaethiaid yn derbyn eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd ar gyfer safonau yn yr ysgol.<br>[*gweler y cynllun gweithredu ar gyfer argymhelliad R1*]. | WGJ | 6/12 | 8/14 | | |
| Herio swyddogion ac aelodau o staff unigol<br>○ Penaethiaid gwasanaeth i ddatblygu cynlluniau gwasanaeth a fydd yn cael eu cysylltu â blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth, amser-benodol, deilliant-seiliedig ac yn cynnwys targedau penodol a fydd yn ffurfio sail rheoli perfformiad y swyddog sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ac aelodau o staff unigol o fewn y man gwasanaeth. Bydd y cynlluniau hefyd yn cyfeirio at yr elfennau cyllidebol a reolir gan y gwasanaeth.<br>Bydd cynlluniau busnes y gwasanaeth hefyd yn cael eu hasesu risg. | WGJ | 6/12 | 9/12 | | ○ Staff Dysgu Gydol Oes gyda dealltwriaeth gyffredin o'r blaenoriaethau sy'n wynebu'r gwasanaeth, y gwelliannau sy'n ofynnol a'u rhan mewn symud ymlaen.<br>○ Rheolwyr Gwasanaeth yn atebol am effaith rhaglenni a mentrau unigol.<br>○ Aliniad da rhwng blaenoriaethau'r gwasanaeth addysg a fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol. |
| ○ Sefydlu hunan-arfarnu ac asesiad effaith fel egwyddor allweddol ar gyfer arfarnu llwyddiant rhaglenni unigol a mentrau penodol.<br>Mewn perthynas â gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid bydd hyn yn cynnwys y defnydd o RBA i fesur deilliannau, adolygu'r Fframwaith Asesu Ansawdd a datblygu proffil data i herio perfformiad a monitro cynnydd rhaglenni gwaith penodol.<br>*Gweler y cynllun datblygu ar gyfer argymhellion A3 ac A5*. | WGJ | 6/12 | 3/13 | | ○ Partneriaid yn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. |
| Her i Uwch-Swyddogion Addysg<br>Sefydlu trefniadau a gweithdrefnau cadarn ar gyfer aelodau etholedig allweddol a'r Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb am addysg i herio Uwch Swyddogion Addysg ynghylch cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad. | WGJ | 9/12 | 8/14 | | ○ Aelodau Etholedig allweddol a'r Comisiynydd dros Addysg gyda dealltwriaeth glir o'r cynnydd yn erbyn y 7 argymhelliad a nodwyd gan Estyn. |
| Gwella swyddogaeth aelodau etholedig yn y broses graffu<br>○ Cytuno, ar y cyd â Chadeirydd Craffu, yr Arweinydd Portffolio Cysgodol a'r Comisiynydd gyda chyfrifoldeb am Addysg ar y Pwyllgor Dysgu Gydol Oes ar faterion i'w cyflwyno ar gyfer craffu. Bydd hyn yn cynnwys<br>▪ cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun ôl-arolygiad;<br>▪ gwybodaeth ar bob agwedd ar waith y gyfarwyddiaeth;<br>▪ eitemau unigol a fydd angen craffu pellach gan aelodau; | WGJ | 7/12 | 8/14 | Cefnogaeth gorfforaethol – craffu | ○ Dealltwriaeth well aelodau'r Pwyllgor Craffu o'r<br>▪ cynnydd a wnaed gan y gyfarwyddiaeth gydol oes yn erbyn blaenoriaethau penodol;<br>▪ perfformiad ysgolion unigol;<br>▪ perfformiad mannau gwasanaeth unigol yn erbyn dangosyddion allweddol [perfformiad, presenoldeb |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ▪ gwybodaeth am ysgolion sy'n tanberfformio [*gweler y cynllun gweithredu ar gyfer argymhelliad R1*]. | | | | | gwaharddiadau];<br>▪ ystod a maint y gwaith yr ymgymerwyd ag ef gan fannau gwasanaeth unigol. |

| | |
|---|---|
| Gwelliant disgwyliedig | 1. Lefel uwch o her ar gyfer arweinyddion a swyddogion ysgol [gweler gwelliannau disgwyliedig ar gyfer argymhellion 1, 3 a 5]. |

Rhaglen fonitro

| Dyddiad | Agwedd CGOA yr adroddir arni | Gwybodaeth i graffu arni | Swyddog |
|---|---|---|---|
| 11/12 | Adroddiad cyfamserol ar effeithiolrwydd Craffu Addysg. | o Dealltwriaeth aelodau pwyllgor Craffu Addysg o gynnwys y cynllun gweithredu ôl-arolygiad ; perfformiad mewn perthynas â dangosyddion allweddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2011-12; perfformiad ysgolion unigol. | WGJ |
| 3/12 | Adroddiad cyfamserol ar effeithiolrwydd Craffu Addysg | o Effeithiolrwydd Craffu Addysg mewn perthynas â herio swyddogion mewn perthynas â<br>▪ cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y CGOA;<br>▪ perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol;<br>▪ perfformiad ysgolion unigol. | WGJ |

Draft

# Ymweliad Monitro Estyn

## 7/8 Tachwedd, 2013

## Adroddiad ar gynnydd y Cynllun Gweithredu ol-Arolygiad

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| Agwedd i gael sylw | A1. Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny gyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. |
| Swyddog cyfrifol | WGJ |

| Pwyntiau gweithredu | Swyddog Arweiniol | Graddfa Amser | | Adnoddau / Cefnogaeth | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | | |
| Cytundeb Partneriaeth - Gwella dealltwriaeth/atebolrwydd Penaethiaid<br>○ Adolygu'r Cytundeb Partneriaeth i gynnwys<br>▪ disgwyliadau clir mewn perthynas â chyfrifoldeb ysgolion ar gyfer codi safonau;<br>▪ meini prawf clir ar gyfer targedu cefnogaeth ychwanegol a herio ysgolion a adnabuwyd fel rhai sy'n tanberfformio<br>▪ disgwyliadau clir ar Lywodraethwyr mewn ysgolion lle mae arwyddion o danberfformio.<br>▪ meini prawf clir i swyddogion gwella ysgolion ar gyfer herio, yr arfarniadau angenrheidiol a'r hyn a ddisgwylir.<br>○ Targedu cefnogaeth i ysgolion ar gyfer ysgolion sydd angen cefnogaeth a monitro ffocysedig ac ysgolion sydd angen cefnogaeth sylweddol. | WGJ<br><br><br><br><br><br><br><br><br>WGJ | 6/12<br><br><br><br><br><br><br><br><br>9/12 | 9/12<br><br><br><br><br><br><br><br><br>8/14 | Cefnogaeth y Consortiwm [mewn perthynas a chysondeb CP ar draws Consortowm y Gogledd]. | Adolygwyd y Cytundeb Partneriaeth, ac fe'i rhannwyd gyda'r ysgolion [Mae Estyn wedi cynnig sylwadau ar gynnwys y Cytundeb Partneriaeth yn flaenorol]. Mae hyn wedi gwneud yn eglur rôl yr Awdurdod wrth gefnogi a herio ysgolion ac wedi pwysleisio rhan allweddol ysgolion wrth wella safonau. Mae ysgolion yn awry n deal y cysyniad o gefnogaeth uchel- her uchel.<br>Mae ysgolion wedi cadarnhau fod y CP wedi cynyddu dealltwriaeth ysgolion o'u rôl mewn perthynas â chodi safonau a'u hatebolrwydd.<br>Mae adroddiad annibynnol Rheolwr Prosiect Y Bwrdd Adfer yn cadarnhau'r uchod.<br>Copi o'r CP – 1<br>Ymatebion gan ysgolion -2<br>Effaith y CP – Adroddiad Rheolwr Prosiect Y Bwrdd Adfer – 3<br>Mae categorïau ysgolion wedi eu hadolygu wedi eu rhannu gyda'r ysgolion. Mae lefel yr her ar gyfer ysgolion yn y categorïau oren a choch wedi gwella. Er hynny, mae angen datblygu hyn ymhellach fel rhan o ymagwedd systematig sydd hefyd yn cynnwys Cyrff Llywodraethol yn y broses gwella.<br>Drwyddi draw cafodd yr uchod effaith gadarnhaol ar lefel yr her, ac yn y pendraw ar safonau mewn ysgolion unigol.<br>Enghraifft cynradd – 4<br>Enghraifft uwchradd – 5<br>Categorïau CP wedi eu cytuno, ac wedi eu rhannu gyda'r ysgolion - 6 .<br>Llythyrau yn nodi'r gwelliannau angenrheidiol. |
| Codi safonau diwedd cyfnod allweddol<br>○ Sicrhau bod pob data sydd ar gael [e.e. AWCDS, Bandio, chwartelau PYD, model ystadegol LlC] yn cael ei ddefnyddio i gytuno ar dargedau heriol ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd mewn perthynas â phob agwedd ar berfformiad [cyflawniad ar lefel ddisgwyliedig, lefel ddisgwyliedig +1, presenoldeb a gwaharddiadau] yn CA1, 2 a 3. Bydd targedau CA4, lle bo'n briodol, yn cael eu cyfunioni gyda dangosyddion cenedlaethol a disgwyliadau llinell atchweliad LLC.<br>○ Sicrhau bod gosod targedau yn seiliedig ar berfformiad disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion [e.e. PYD/dim PYD; Bechgyn/Genethod; PMG, AAA]. | EVJ [u]<br>GTR [c]<br>Penaethiaid uwchradd [u]<br>cynradd [c]<br><br><br>MR | 6/12 | 11/12<br>[yna adolygir yn dymhorol] | Adolygu'r daflen dargedau sydd ar y We.<br>[Cynnal] | Adolygwyd y drefn ar gyfer gosod targedau er mwyn cynyddu'r her ar y lefelau disgwyliedig a hefyd y lefelau uwch. Mae hyn yn gynyddol yn golygu manylu a thrafod targedau ar gyfer disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Fel canlyniad mae'r targedau y mae ysgolion yn eu gosod yn rhai mwy heriol - mewn perthynas â pherfformiad absoliwt a chymharol.<br>Copi o daflenni targed cynradd ac uwchradd – 7<br>Taflwybrau'r Awdurdod - 8 |
| Codi safonau diwedd cyfnod allweddol<br>○ Ymweliadau'n cael eu targedu at ysgolion sydd wedi bod yn y chwarter isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf neu fwy a sicrhau bod cynllun gweithredu clir ar gyfer gwella. Sicrhau bod Corff Llywodraethu'r ysgolion hyn yn ymwybodol o'r angen am welliant, cynnwys y cynllun gweithredu a bod â rhaglen fonitro addas yn ei lle. [Gweler yr adran ar Gytundeb Partneriaeth].<br>○ Cyflwyno proses ddwysáu gadarn i herio ysgolion nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol.<br>○ Gwneud defnydd o Benaethiaid 'ymgynghorol' i gefnogi ysgolion unigol | EVJ [u]<br>GTR [c] | 10/12 | 9/14 | CLG diwygiedig gyda Cynnal. | Mae'r ysgolion yn y chwarteri isaf am gyfnod o dair blynedd (pedair ysgol gynradd ar hyn o bryd), ynghyd ac ysgolion eraill y mae pryder am eu safonau, wedi eu herio gan yr All. BLe mae dadansoddi pellach yn cadarnhau pryderon am safonau, mae'n ofynnol i ysgolion lunio cynllun gweithredu, ac o Fedi 2013, mae gofyniad i'r ysgolion hyn sefydlu Grŵp Monitro Mewnol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Corff Llywodraethol, staff yr ysgol, ynghyd a'r arweinydd system cyswllt. Tra bod hyn yn symudiad pellach i sicrhau bod Cyrff Llywodraethol yn gyrru gwelliannau, mae'r drefn yn gynnar yn ei datblygiad. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae dull clir er mwyn grymuso'r drefn wedi ei gyflwyno - mae grŵp o aelodau etholedig yn gweithredu fel Grŵp Monitro Safonau Ysgolion [GMSY]. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13/3. Mae hyn wedi cynyddu'r her i ysgolion. Mae angen ail gynnull y GMSY yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol diweddar.<br>Mae enghreifftiau penodol o ddefnyddio "ymgynghorwyr" i gefnogi ysgolion trwy gydweithio clos rhwng yr ALl a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE). Mae'r blaengaredd ysgol-i-ysgol ble mae ysgolion yn Ynys Môn yn cefnogi ei gilydd yn dechrau datblygu.<br>Papur pwyllgor craffu ar sefydlu GMSY – 9<br>Deunydd hyfforddi a ddefnyddiwyd gyda'r GMSY – 10 ac 11<br>Cofnodion cyfarfod GMSY |
| Sicrhau bod dysgwyr mwy galluog a thalentog yn cyrraedd lefelau uwch.<br>○ Sicrhau bod gan bob ysgol bolisïau a gweithdrefnau eglur yn eu lle i adnabod, herio a monitro cynnydd dysgwyr mwy galluog a thalentog.<br>○ Datblygu deunyddiau cwricwlwm enghreifftiol i'w defnyddio gan ysgolion cynradd gyda dysgwyr mwy galluog a thalentog. | GTR/EVJ<br><br>GTE | 9/12<br><br>7/12 | 11/12<br><br>11/12 | <br><br>Cynnal – deunyddiau enghreifftiol. | Adolygwyd y polisi ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog ac fe'i rhannwyd gyda'r ysgolion. Adolygwyd hefyd y drefn gosod targedau i gynnwys targedau ar gyfer cyflawniad ar y lefelau uwch. Fel canlyniad mae ysgolion yn fwy ymwybodol o'r angen i dargedu dysgwyr mwy abl a thalentog. Mae'r % o ddisgyblion yn cyflawni lefelau uwch wedi gwella - mewn termau absoliwt a chymharol.<br>Datblygwyd a rhannwyd deunydd enghreifftiol.<br>Polisi ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog – 12<br>Cyfeirier at daflenni gosod targedau ysgolion cynradd ac uwchradd – 7 – ar gyfer gwybodaeth am dargedau lefelau uwch.<br>Cyfeirier at yr hunan arfarniad sy'n tynnu sylw at welliant perfformiad ar y lefelau uwch.<br>Deunydd enghreifftiol ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog – 13 |
| Gwella prosesau cymedroli diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2<br>○ Adolygu prosesau er mwyn safoni asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2.<br>○ Penaethiaid i sicrhau bod gan bob ysgol gynradd drefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer safoni mewnol asesiadau diwedd cyfnod allweddol.<br>○ Yr Awdurdod i sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan mewn gweithdrefnau safoni'r Sir a gweithredu'r safonau'n gyson. | GTR | 11/12 | 2/13 | | Heriwyd ysgolion i wella trefniadau safoni ym Mai 2012. Rhannwyd syniadau cychwynnol am gymedroli rhwng ysgolion. Mae ysgolion unigol a chlystyrau wedi cynnal gweithgareddau safoni a chymedroli ond mae angen mwy o gysondeb a grymuster. Mae angen i hyn dderbyn sylw pellach fel rhan o'r blaengaredd cefnogaeth ysgol - i-ysgol. Mae'r All ar hyn o bryd yn ffurfioli canllawiau ar gyfer safoni a chymedroli. |
| Gwella safonau llythrennedd gweithrediadol erbyn diwedd CA2<br>○ Adolygu strategaeth Llythrennedd yr Awdurdod i gymryd ystyriaeth o'r strategaeth Llythrennedd Cenedlaethol. Cyflwyno strategaeth Llythrennedd yr Awdurdod i Benaethiaid.<br>○ Sicrhau bod Penaethiaid cynradd ac uwchradd yn deall y strategaeth ac yn derbyn y cyfrifoldeb dros ddatblygu a gweithredu strategaeth ysgol gyfan.<br>Darllen<br>○ Casglu a dadansoddi data profion darllen a rhannu canfyddiadau gyda Phenaethiaid cynradd ac uwchradd.<br>○ Sicrhau bod gan bob ysgol gynradd gynllun clir yn ei le i wneud defnydd effeithiol o ddata oed darllen a gwybodaeth o arfer effeithiol o wella safonau darllen. Bydd angen i hyn gynnwys hyfforddiant i athrawon ar addysgu darllen, arweiniad ar ddatblygu darllen ar draws y cwricwlwm, hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion dysgu i gefnogi darllen a'r defnydd effeithiol o raglenni ymyrryd a dal i fyny ar lefel ysgol unigol.<br>○ Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd gynllun clir ar gyfer gwella safonau darllen. Bydd angen i hwnnw gynnwys y defnydd o ddata ar gyfer targedu | EVJ [u]<br>GTR [c]<br><br><br><br><br>EVJ [u]<br>GTR [c] | 6/12<br><br><br><br><br><br>6/12<br><br>9/12<br><br><br><br><br><br>9/12 | 6/12<br><br><br><br><br><br>12/12<br><br>12/12<br><br><br><br><br><br>11/12 | <br><br><br><br><br><br>Cynnal – dadansoddiad o ddata, arweiniad ar ddatblygu darllen.<br>Hybu'r CauDP. | Adolygwyd y strategaeth Llythrennedd, fe'i rhannwyd gyda'r ysgolion a nodwyd disgwyliadau'r Awdurdod.<br>Cyflwynwyd y strategaeth Llythrennedd fel rhan o gyfrifoldeb ysgol am godi safonau.<br>Mae datblygiadau cenedlaethol wedi disodli'r gwaith uchod. Mae'r model cefnogaeth cenedlaethol yn cael ei weithredu gan CfBT ar hyn o bryd, a bydd yn cynnwys pob ysgol gynradd ac uwchradd erbyn diwedd tymor yr hydref 2013. Mae'r All, ar y cyd gydag ALlau eraill yng ngogledd Cymru yn cefnogi'r rhaglen ymhellach trwy ariannu ar y cyd 9 Partner cynorthwyol fydd yn gweithio gydag ysgolion wedi eu targedu ar draws y rhanbarth.<br>Strategaeth Llythrennedd ysgolion cynradd ac uwchradd – 14<br>Yn 2012 rhannwyd data darllen sirol gyda'r prifathrawon er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r angen i wella darllen.<br>Ymwelwyd â 50% yr ysgolion i asesu eu strategaethau darllen. Rhannwyd y canfyddiadau gyda'r ysgolion er mwyn rhannu arfer dda a chodi disgwyliadau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| grwpiau o ddisgyblion, strategaethau cefnogi ac ymyrryd a datblygu darllen ar draws y cwricwlwm.<br>Ysgrifennu<br>○ Datblygu cynllun gweithredu manwl i wella safonau ysgrifennu yn CA2 a CA3. Rhannu'r cynnwys gyda Phenaethiaid Cynradd ac Uwchradd.<br>○ Sicrhau bod gan bob ysgol gynradd gynllun manwl ar gyfer gwella safonau ysgrifennu, yn arbennig ysgrifennu estynedig.<br>○ Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd gynllun manwl i wella safonau ysgrifennu, yn arbennig ysgrifennu estynedig.<br>Addysgu a dysgu<br>○ Sicrhau bod gan bob ysgol gymuned ddysgu broffesiynol [PLC] wedi ei chysylltu â datblygu llythrennedd. | EVJ [u]<br>GTR [c]<br><br><br><br><br>GTR/EVJ | 9/12<br>12/12<br>12/12<br><br>9/12 | 11/12<br>3/13<br>3/13<br><br>12/12 | Canllawiau adolygedig Cynnal. | Yn 2013 gweinyddwyd y profion darllen cenedlaethol ac roedd y ganran o ddisgyblion a sgoriodd sgôr safonol o dros 85 yn 92.6% yn Saesneg a 90.4% yn y Gymraeg. Y ffigyrau cyfatebol ar gyfer Cymru oedd 88.3%[Saesneg] ac 89.4%[Cymraeg].<br>Yr oedd y canlyniadau yn dda mewn cymhariaeth ac awdurdodau eraill ar draws yr ystod oedran B2>B9.<br>Bydd ymweliadau monitor tymor yr hydref yn cynnwys herio ysgolion are u dadansoddiadau o'u perfformiad darllen.<br>Dadansoddiad data darllen a rannwyd gyda'r ysgolion yn dilyn yr ymarfer gwirfoddol y llynedd - 15<br>Copi o'r cyflwyniad ar ddarllen i brifathrawon cynradd - 16<br><br>Yn y sector gynradd, roedd y strategaeth Llythrennedd yn cynnwys canllawiau ar ddarllen, a thalwyd sylw i safonau darllen mewn digwyddiadau hyfforddi ar gyfer prifathrawon ac athrawon. Cynhyrchwyd cynllun enghreifftiol ar gyfer datblygu ysgrifennu i sylw'r 5 ysgol uwchradd a rhannwyd enghreifftiau o weithgareddau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm (darllen ac ysgrifennu). Mae arsylwadau gwersi wedi dangos bod ysgolion, yn gyffredinol, wedi gwneud defnydd da o'r arferion hyn i ddatblygu darllen ar draws y cwricwlwm. Nodwyd eisoes bod datblygiadau cenedlaethol wedi disodli'r gwaith hwn. (gweler uchod - gwaith CfBT).<br>Yn 2013 roedd ysgrifennu Saesneg ar ddiwedd CA2 yn 81.7% (Cymru 81%) ac ysgrifennu Cymraeg yn 74.8% (Cymru 79.4%). Yn CA3 roedd y ffigyrau ar gyfer L5+ yn 78.3% ar gyfer Saesneg (Cymru 76.1%) ac yn 82.3% ar gyfer y Gymraeg (Cymru 80%). Bydd angen i ysgolion yn y ddau sector barhau i roi sylw i wella ysgrifennu. |
| Arfarnu ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth<br>○ Gweithredu arweiniad y Consortiwm ar gyfer arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth [gan ddefnyddio arbenigedd o ALL eraill GC] a chysylltu'r deilliannau â'r Proffil Ysgol electronig.<br>○ Yr Awdurdod i sicrhau bod cefnogaeth a ddarperir ar gyfer rheolwyr canol, dirprwyon a phenaethiaid yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd arweinyddiaeth e.e. hunan-arfarniad sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau.<br>○ Datblygu proffil data ysgolion fel y gall ysgolion ac arweinwyr gael eu herio'n effeithiol. | GTR<br>EVJ<br><br>GTR<br>EVJ | 9/12<br><br>9/12 | 11/12<br><br>8/14 | Cefnogaeth y Consortiwm i gwblhau canllawiau. | Gweithredwyd offeryn arfarnu arweinyddiaeth a rheolaeth y Consortiwm fel rhan o ymweliadau'r hydref a'r haf. Defnyddiwyd y wybodaeth i lunio categorïau y CP, ac y mae wedi disodli'r proffil ysgol blaenorol. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn lefel yr her ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth.<br>Mae cefnogaeth i ysgolion unigol wedi gwella ansawdd yr hunan arfarnu a chynllunio o ansawdd e.e. Caergybi, Syr Thomas Jones.<br>Taflenni monitor wedi eu cwblhau. Cynradd – 17 Uwchradd 18<br>Gweler categoriau'r CP |
